Y DRYSORFA.

RHIF. 703.] MAI, 1889. [LLYFR LIX.

Y DUWIOL YN EI GYMERIAD AC YN EI DDIWEDD.

PREGETH ANGLADDOL *a draddodwyd yn Nghapel Liscard Road, Seacombe, Ionawr* 27, 1889, *ar yr achlysur o farwolaeth y diweddar Mr.* DAVID JONES.

GAN Y PARCH. JOHN HUGHES, D.D.

(WEDI EI CHOFNODI GAN MR. JOHN GRIFFITH, EGREMONT.)

PSALM XXXVII. 37: "Ystyr y perffaith, ac edrych ar yr uniawn: canys diwedd y gŵr hwnw fydd tangnefedd."

Y MAE y Salmydd yn cyflwyno ger ein bron, yn y Salm hon, ddau o ddarluniau, gan osod y naill ar gyfer y llall: un yn ddarlun o'r annuwiol, a'r llall yn ddarlun o'r duwiol. Yr olwg gyntaf ar y naill ydyw yr olwg oreu. Wrth sylwi yn ddyfal arno a pharhau i graffu, y mae yn gwaethygu yn ddirfawr, ac o'r diwedd yn diflanu o'n golwg. Y mae y llall, i'r gwrthwyneb, yn gwella wrth edrych arno: goreu yn y byd ydyw po fwyaf yr edrychir arno, a pho graffaf y sylwir arno; oblegid wrth sylwi yn graff arno, y mae ei ragoriaethau amlwg yn yn ddangos yn fwy prydferth, ac y mae ei nodweddion llai amlwg—ei ragoriaethau llednais a chuddiedig, yn dyfod i'r golwg. Y darlun a ddyry yr awdwr o'r annuwiol, fy nghyfeillion, ydyw hwn: "Gwelais yr annuwiol yn gadarn, ac yn frigog fel y lawryf gwyrdd," neu, yn ol y darlleniad ar ymyl y ddalen: "Gwelais ef yn gadarn ac yn frigog fel pren gwyrddlas yn tyfu yn ei ddaear ei hun;" nid fel pren wedi ei drawsblanu i ddaear anghymhwys, ond fel pren yn y ddaear briodol i'w ansawdd ei hun. Mae ei olwg yn fawrwych, a'i honiadau yn uchel, ei fôst yn feiddgar, a'i ymddangosiad yn rhwysgfawr: mae yn dywedyd yn ei lwyddiant, "Byddaf farw yn fy nyth; a byddaf mor aml fy nyddiau a'r tywod." Ië, weithiau fe ddywed, "Ni'm syflir yn dragywydd." Mae felly "yn gadarn ac yn frigog fel y lawryf gwyrdd." Ond y mae y Salmydd, wedi cael yr olwg yna arno, yn troi ei ben am enyd ac yn edrych oddiwrtho. Ac yna y mae yn edrych eilwaith am dano ac yn methu ei gael: mae yr ymddangosiad mawreddus wedi diflanu—mae y lawryf gwyrdd wedi gwywo: "efe a aeth ymaith," ebe ef, "ac wele, nid oedd mwy o hono: mi a'i ceisiais, ac nid oedd i'w gael." Mae "enw y drygionus" yn pydru, a buan y mae yn cael ei anghofio gan bawb; nid oes adgof tyner am dano yn aros mewn un fynwes: "efe a aeth ymaith . . . . ac nid oedd i'w gael."

Ar gyfer y darlun hwn, wele ddarlun arall: "Ystyr y perffaith, ac edrych ar yr uniawn, canys diwedd y gŵr hwnw fydd tangnefedd." '*Ystyr* y perffaith; *sylla* arno; edrych yn fanwl ac yn ddyfal arno;' oblegid ni ddaw ei ragoriaethau llednais i'r golwg

ond wrth eu hystyr: nid yw y drem arwynebol yn cael allan ond yn unig ei ragoriaethau arwynebol. Ymchwiliad craff ac amyneddus yn unig a ddadguddia ragoriaethau dyfnaf ei gymeriad uchelryw; am hyny "Ystyr y perffaith, ae edrych ar yr uniawn:" 'sylla yn ddyfal ar ei holl gymeriad;' ac y mae hwn yn werth ei ystyr, "canys diwedd y gŵr hwnw fydd tangnefedd." "*And all's well that ends well*," ebe un awdurdod uchel—y nesaf fe allai at y Bibl—os da yw y diwedd da yw yr oll; oblegid nid yw y diwedd ddim yn amgen na dadblygiad o'r dechreuad—nid yw y diwedd ond coron yr oll—nid yw y diwedd ond gwobr yr Arglwydd i'r bywyd blaenorol. "Ystyr y perffaith" gan hyny, yn gymaint ag nad yw y diwedd ond gogoneddiad a gobrwy y daioni sydd yn ei gymeriad.

A dyna, fy nghyfeillion, fydd mater yr ychydig sylwadau a wnawn heno—gyda chyfeiriad neillduol at ein hanwyl frawd, Mr. David Jones.

Y Duwiol yn ei Gymeriad ac yn ei Ddiwedd: "Ystyr y perffaith, ac edrych ar yr uniawn; canys diwedd y gŵr hwnw fydd tangnefedd."

I. *Y Duwiol yn ei* Gymeriad; "y perffaith." Paham, attolwg, y mae y sant ar y ddaear yn cael ei alw yn "berffaith?" Nid yn unig y mae enaid Abraham yn berffaith, neu ysbryd yr Apostol Paul mewn gogoniant yn berffaith, neu ysbryd ein brawd ymadawedig yn berffaith, ond yr oedd y tri yn berffaith cyn myned i'r nefoedd, yn berffaith ar y ddaear—yn berffaith ac yn uniawn yn ystyr y testun hwn. Nid oes anghen dyweyd nad yw yr ansawdd yma, "perffaith," yn cyfeirio at y perffeithrwydd crëedig uchaf, heb son am berffeithrwydd digrëedig yr Anfeidrol: — nid perffeithrwydd uchaf dyn ydyw y perffeithrwydd hwn, heb son am berffeithrwydd y Duw mawr. Mae y perffeithrwydd uchaf yn cynnwys cyfuniad o bob gras a phob rhinwedd, a phob gras a phob rhinwedd *yn y cyflwr uchaf o addfedrwydd*, a'r oll wedi eu cyfartalu yn brydferth, yn y fath fodd fel ag i gau allan bob peth sydd yn wrthwyneb iddynt. Yr wyf yn meddwl fy mod yn awr wedi desgrifio, os nad wedi darnodi, y perffeithrwydd uchaf. Mewn geiriau mwy eglur, y mae yn cynnwys pedair elfen:—Purdeb, Cyfuniad, Addfedrwydd, Cyfartaledd. Yn y pedwar peth hyn y cynnwysir y perffeithrwydd uchaf. Ond ni welwyd ar y ddaear neb dyn yn feddiannol ar y perffeithrwydd hwn—neb ond Un—Mab y dyn—y dyn Crist Iesu. Ac nid ei gyrhaedd a ddarfu Ef, ond yr oedd yn ei feddu ar y cyntaf, canys Efe oedd y "peth sanctaidd," y "diddrwg," y "dihalog," y "didoledig oddiwrth bechaduriaid." Yn ei Berson a'i gymeriad, yn gystal ag yn ei athrawiaeth, yr oedd Efe yn "llawn gras a gwirionedd." Nid oes anghen dyweyd nad oes neb o'r *saint* ar y ddaear hon yn feddiannol o hono. Y perffeithrwydd hwn, mae'n wir, ydyw cynllun perffeithrwydd y saint; ond hyd yn hyn nid oes neb ar y ddaear wedi sylweddoli y cynllun—wedi cyrhaedd y nôd. Mi wn fod ambell un o'r saint yn breuddwydio fod perfeithrwydd dibechod yn gyrhaeddadwy ar y ddaear; ond *breuddwydio* y mae, ni a allwn fod yn sicr, a breuddwyd rhyfedd iawn ydyw. Ni fyddai yn beth syn fod Phariseaid ffol, ffrostgar, hunandybus, anwybodus am dano ei hunan, ac anneallus am y ddeddf sanctaidd, yn tybio ei fod yn berffaith: ond y mae yn syn fod rhai Cristionogion cywir yn gallu meddwl felly. Ac un esboniad yn unig a allaf fi ei roi ar y peth, a hwnw ydyw yr esboniad mwyaf caredig; y maent yn dychymygu felly oddiar ormes cyfundraeth a thraddodiad. Ond fel yr ydych yn ddiammheu wedi sylwi eich hunain, pan y mae y cyfryw ddynion yn nesâu at berffeithrwydd,

dyna'r pryd y maent yn fwyaf anmharod i hòni eu bod hwy eu hunain yn berffaith. Dyna'r gwir, y rhai pellaf oddiwrth berffeithrwydd sydd yn arfer breuddwydio eu bod yn berffaith. Yr agosaf at y nôd sydd yn gweled mwyaf o bellder bob amser rhyngddynt hwy a'r nôd. Digon ar hynyna fyddai eich adgofio o dystiolaeth tri o'r saint—tri na chewch yn nghydol yr oesoedd neb mor enwog â hwynt. Y cyntaf o honynt oedd Ioan, y dysgybl anwyl. Yr oedd ef yn angel mewn cnawd o'r bron; hyd yn nod pan yn ieuanc, yr oedd yr anwylaf o bawb gan yr Iesu, am ei fod yn debycach na neb iddo. Yn mhen mwy na thriugain mlynedd wedi bod dan law sanctеiddiol yr Ysbryd—yn hynafgwr ar gyffiniau can' mlwydd oed, y mae'n wir ei fod ar *drothwy* perffeithrwydd—ond ei dystiolaeth ef ydyw, "Os dywedwn nad oes ynom bechod, yr ydym yn ein twyllo ein hunain, a'r gwirionedd nid yw ynom." Yr ail a nodaf ydyw yr apostol Iago —un hynod bur yn ei egwyddor, a hynod ddichlyn a manwl yn ei ymarweddiad—yr oedd mor hynod am fanylder ei fywyd, a llymder ei addysg, fel y gelwid ef yn "Iago gyfiawn." Ond, beth ydyw tystiolaeth yr Iago gyfiawn hwn? "Mewn llawer o bethau yr ydym ni bawb yn llithro." Nid yn unig am y crefyddwyr Antinomaidd y dywed eu bod yn llithro; 'yr wyf yn rhoi fy hun yn yr un bwndel—yn yr un rhestr,' "mewn llawer o bethau yr ydym ni *bawb* yn llithro." Yr olaf a nodaf yw yr apostol Paul, yr uchaf a'r mwyaf—y mwyaf angerddol ei zel a llwyraf ei hunan-anghof o'r saint oll—un a allai alw ar Gristionogion yr oes i fod yn ddilynwyr iddo. Pan yn Pharisead yr oedd yn batrwm o Pharisead; ac ar ol ei dröedigaeth yr oedd yn gynllun o Gristion; ond eto, dyna ei dystiolaeth ef, a hyny yn ei hen ddyddiau, "Y brodyr, nid wyf fi yn bwrw ddarfod i mi gael gafael: ond un peth, gan anghofio y pethau sydd o'r tu cefn, ac ymestyn at y pethau o'r tu blaen, yr ydwyf yn cyrchu at y nôd, am gamp uchel alwedigaeth Duw yn Nghrist Iesu." Ymaith, gan hyny, â'r breuddwyd gwâg fod perffeithrwydd dibechod yn gyrhaeddadwy i'r saint ar y ddaear! 'Ond,' fe all rhywun wrthddadleu, 'onid ydych, wrth lefaru fel hyn, yn tueddu i roi achles i ddiofalwch? Onid da fyddai i Gristionogion, os gallant, fod yn berffaith ar y ddaear? Onid ydych yn gwnïo clustogau dan ein penelinoedd wrth haeru fod perffeithrwydd dibechod yn annghyrhaeddadwy yn y byd hwn.' Nac ydym, gyfeillion,—mewn mwy nag un ystyr *mae* yr holl dduwiolion yn awr yn berffaith. "Ystyr y perffaith"—nid perffaith ddibechod; ond eto, mewn ystyriaethau gwerthfawr a phwysig, y maent yn awr yn berffaith. Pa fodd, ynte? Yn mha beth y mae y perffeithrwydd yma yn gynnwysedig?

1. Y mae y duwiol yn berffaith o *ran meddylddrych.* Derbyniwch y sylw: y mae y duwiol yn berffaith o ran meddylddrych—y mae yr *ideal* yn berffaith—y mae y nôd yn berffaith. Nid yn unig nôd y dyn ei hun, ond nôd Duw ei Hun yn ei berthynas â'r dyn. Y mae eisoes yn berffaith o ran meddylddrych. Dyna'r ffordd yn ddiammheu i farnu unrhyw beth, neu unrhyw berson—ei farnu oddiwrth y meddylddrych. Os goddefwch i mi ddyweyd dau air Seisonig, ei farnu, nid oddiwrth yr *actual* ond oddiwrth yr *ideal*—ei farnu nid wrth *yr hyn yw*, ond wrth *yr hyn y mae i fod*—yr hyn y mae wedi ei *fwriadu* i fod, a'r hyn y *dichon* ef ei gyrhaedd. Fe ddylid barnu pob peth, nid wrth y gwaelaf ond wrth y goreu. Y mae amryw resymau dros hynyna. Yn un peth, meddylddrych peth ydyw y rheswm am ei fodolaeth: ni fuasai y peth ddim yn bod o gwbl oni buasai

yr *idea*—oni buasai y meddylddrych. Ni fuasai y Cristion ddim yn bod, hyd yn nod yn Gristion anmherffaith, oni buasai mai y meddylddrych ydyw ei gael yn berffaith. Y mae rhyw allu—rhyw achos yn perthyn i'r meddylddrych, i roi bodolaeth iddo. Ni fuasai ddim yn bod, hyd yn nod yn ei ystâd anmherffaith, oni buasai y drychfeddwl am ei berffeithrwydd.

Heblaw hyny, y meddylddrych sydd yn sicrhau cynnydd a gwelliant. Dangoswch i mi genedl heb *ideal*—heb nôd—a hithau heb hiraethu ac ymestyn at gyrhaedd y nôd hwnw: dyna genedl nad *all* gynnyddu; nid all wella.

Yr un modd am ddyn ieuanc—dyn ieuanc heb *ideal;* heb wybod pa beth a ddylai dyn fod, ac ymestyn at y peth hwnw. Dangoswch i mi ddyn heb feddylddrych, heb *idea*, heb nôd o'i flaen, dywedwn wrth y cyfryw, "Ni ragori di." Heb *ideal* nis gellir dysgwyl cynnydd, pa un bynag ai cenedl neu berson a olygir.

Yn y cysylltiad hwn, y mae yr un peth yn wirionedd: y mae y duwiol yn berffaith mewn meddylddrych. Beth ydyw hwnw? Meddwl Duw oedd cael pechaduriaid yn berffaith a difeïus. Ac nid yn unig yr oedd erioed yn syniad yn meddwl Duw, yr oedd hefyd yn fwriad yn ewyllys Duw. Ac y mae y drychfeddwl yn y gwaith o gael ei sylweddoli. Nid yn unig y mae perffeithrwydd yn feddwl gan Dduw, ac yn fwriad ganddo,—y mae ganddo *drefn* i gyrhaedd a dwyn oddiamgylch y perffeithrwydd hwn. Fe ragluniodd bechaduriaid "i fod yr un ffurf â delw ei Fab Ef, fel y byddai Efe yn gyntafanedig ymhlith brodyr lawer." Ac y mae yr Ysbryd Glân wrth y gwaith o naddu a ffurfio pechaduriaid. A Christ ar ddeheulaw Duw yw y *model*. Efe ydyw y cynllun sydd o flaen llygad y Gweithiwr Nefol bob dydd, wrth naddu y pechadur i'r ddelw hono. Y mae y drychfeddwl fel yna wrth y gwaith o gael ei sylweddoli.

Eilwaith, o herwydd fod y Cristion yn berffaith o ran drychfeddwl, y mae hefyd yn berffaith o ran *elfenau*—o ran dechreuadau. Y mae Duw yn gweled y dderwen gauadfrig yn y fesen fach. Ac nid yn unig y mae Duw yn ei gweled felly, ond y mae hanfod y dderwen yn gorwedd yn y fesen. A than amgylchiadau manteisiol yn y ddaear ac yn yr awyrgylch, ymhen blynyddoedd fe fydd y fesen wedi tyfu i uchder a phraffder y dderwen. Yr un modd am y Cristion, y mae dechreuad y perffeithrwydd uchaf ynddo yn awr; ac y mae perffeithrwydd y dechreuad yn brophwydoliaeth o berffeithrwydd y diwedd. Fel y byddai yr hen frodyr yn arfer dyweyd, nid ydyw yn berffaith mewn graddau, ond y mae yn berffaith mewn rhanau.

> "Pob gras sydd yn yr eglwys fawr,
> Fry yn y nef neu ar y llawr,
> Caf feddu 'r oll—eu meddu 'n un,
> Wrth feddu d' anian di dy hun."

Eiddil ac egwan, onidê, ydyw baban wythnos oed. Fe fydd am rai wythnosau cyn medru gweled—cyn medru syllu, hyd yn nod ar y ganwyll; fe fydd am amryw fisoedd cyn gallu ymlwybro o fan i fan, ac fe gymer iddo lawer o flynyddoedd cyn y bydd yn gallu ennill tamaid o fara—y mae yn eiddil iawn, y mae yn egwan iawn; ond beth er hyny? Y mae holl hanfodion dynoliaeth ganddo; er heb wybod hyny, y mae mewn corff ac mewn ysbryd yn gyflawn ddyn. Yr un fath am yr un bach yn Nghrist: y mae yn wan iawn. Nid yw eto yn gweled dim yn eglur ac o bell. Nid ydyw yn ymwybodol o'i fabolaeth fel plentyn Duw, er ei fod yn *llefain* digon, ac yn *chwennych* y "didwyll laeth." Fedr o ddim symud o fan i fan, nid oes neb o'r swyddogion yn gofyn iddo arfer gweddi yn yr eglwys, nid oes neb yn dychymygu

am ofyn iddo arholi yr Ysgol o flwyddyn i flwyddyn, fe allai am ei oes. Ac nid yn unig nid yw ei fedr ond bychan, ond fe all beri blinder ambell waith i'r eglwys, ei fammaeth: ond, os yn Nghrist, y mae ynddo bob gras a phob rhinwedd; y grasau mawr, ffydd, gobaith a chariad, y maent ynddo ar weithrediad. Y mae yn berffaith fel yna—yn berffaith mewn rhanau.

Dyma i chwi eiriau, rhag i mi eich blino, i ddangos y mater yn helaethach: "A gwisgo y dyn newydd, yr hwn yn ol Duw a grëwyd mewn cyfiawnder a gwir sancteiddrwydd." Y mae yna dri gair yn yr adnod, "Y dyn newydd." Nid ydyw ond wythnos oed, ond y mae yn *ddyn* newydd. Nid *rhan* o ddyn, ond *y* dyn newydd. A'r dyn newydd wedi ei *greu;* gan hyny *gwaith Duw* ydyw, ac y mae hyny yn wystl o'i berffeithrwydd; oblegid pa beth bynag a wnêl Duw, fe fydd hyny byth, ac ni ellir rhoddi ato na thynu dim oddiwrtho. Ac, yn y trydydd lle, y mae nid yn unig wedi ei greu *gan* Dduw, ond wedi ei greu *yn ol* Duw. Duw ei Hun oedd y patrwn: 'Mi a'i gwnaf mor debyg i mi fy hun ag y mae yn bosibl ei wneyd!'

Yn nesaf. Oddiar y ddau beth a nodais, y mae y duwiol yn meddu caritor cyflawn heb ddiffygio mewn dim, am mai y perffeithrwydd uchaf ydyw y nôd, ac am fod holl hanfodion duwioldeb yn enaid y dyn ar ol ei adenedigaeth. O herwydd hyny y mae yn cyrhaedd cymeriad trwyadl—cymeriad cyflawn. Mi fyddaf fi yn meddwl mai dyna ystyr y gair "perffaith" yn yr Hen Destament. Ei ystyr yn fynych yn y Testament Newydd ydyw cyflawn oed mewn cymhariaeth i faban; ac, weithiau, *the initiated* mewn cyferbyniad i'r anwybodus—rhai anhyddysg yn nirgelwch yr Efengyl. Ond yn yr Hen Destament yr ystyr ydyw caritor cywir, trwyadl, heb ddiffyg mewn dim. Er engraifft, pan y mae yr Ysbryd Glân yn dyweyd am Job, neu—o'r blaen—am Noah, ei fod yn "berffaith yn ei oes," y mae y meddwl yn rhywbeth o'r un fath â'r hyn y byddai yr hen bobl yn ei feddwl wrth ddyweyd "crefydd *round.*" Dyma fyddai baich gweddïau yr hen bobl, "crefydd *round;*" gweddïo am "grefydd *round.*" A gair tlws iawn ydyw. Peidiwch a'i golli, fechgyn ieuainc: "Crefydd *round.*" Duw roddo i chwi y grefydd hon!

Crefydd fel hyn oedd gan David Jones; crefydd fel hyn oedd gan Noah, crefydd fel hyn oedd gan Job yn ei amser ef. Ai crefydd heb ddiffygion? Ai "perffaith" fel yr angel? Nage. Y mae ysbryd ein hanwyl frawd erbyn hyn wedi cyrhaedd y perffeithrwydd hwnw; ond tra yn aros yn y fuchedd hon yr oedd mewn ystyr is yn ŵr perffaith, yn meddu caritor cyflawn—"crefydd *round.*"

Sut ddyn ydyw y dyn sydd yn ei meddu? Un sydd yn ymladd â phob anwiredd; un sydd am ddinystrio pob un o deulu Amalec; nid ydyw, fel Saul, am arbed y goreu o'r defaid na'r brasaf o'r ŵyn. Dyma y grefydd gyflawn—un sydd am goledd a meithrin yr holl rinweddau, ac yn feddiannol ar yr holl rasusau, yn byw yn sobr, yn byw yn gyfiawn, yn byw yn dduwiol, yn y byd sydd yr awrhon: yn cyflawni—yn ceisio o leiaf yn amcanu yn ffyddlawn gyflawni pob dyledswydd tuag ato ei hun ("byw yn sobr"), tuag at ei gymydog ("byw yn gyfiawn"), a thuag at Dduw ("byw yn dduwiol"), "yn y byd sydd yr awrhon." Ac fe all y dyn hwn, yn wylaidd, godi ei ben, ac edrych ar holl ddeddf Duw, a dyweyd, "Ni'm gwaradwyddir pan edrychwyf ar dy holl orchymynion." 'Yr wyt Ti yn gwybod yn dda fy mod yn ceisio eu cadw bob un o honynt.'

Nid wyf yn rhagrithio, chwi a wyddoch oll, nac yn gwenieithio, pan y

dywedaf, Dyna y cymeriad ydych chwi yma wedi ei golli—cymeriad trwyadl. Yr oedd fel dyn, heb son am ras Duw, yn ddyn prydferth—yn ddyn cyfan—yn ddyn o ddoniau meddwl cymesur, synwyr cryf, barn bwyllus, a thymherau llednais; yn ddyn o ddeall, yn ddyn o hynawsedd, yn ddyn o bwyll. Yr oedd ynddo ddefnydd da i ras weithredu arno. Yr oeddwn yn ei adnabod er ys llawer blwyddyn, ac yr oeddwn bob amser yn edmygydd o hono hyd yn nod ar gyfrif ei *ddynoliaeth brydferth*. Byddai, ar brydiau, yn cymeryd golwg gymylog ar bethau, ond er hyny ceid ynddo y nwyfiant a'r *humour* mwyaf hyfryd, yr hyn fyddai yn gwneyd ei gyfeillach yn hynod ddifyrus, ac ar unwaith yn adeiladol.

Fe'i "magwyd yn ngeiriau y ffydd." Yr oedd ei dad, fel y gwyddoch oll, yn un hynod yn ei oes, yn hen weinidog parchedig a defnyddiol gyda'r Methodistiaid—John Jones, o Dreffynnon—pregethwr nad oedd neb yr un fath ag ef yn ei ddydd, ac na wnaiff Pen yr eglwys neb yn debyg ar ei ol. Fe dorwyd y fold ag yr oedd John Jones o Dreffynnon wedi ei bwrw iddi; nid yw yn awr yn bod, ac hwyrach nad oes eisieu neb yn gwbl yr un fath.

Yr oedd yr hen ŵr, y tad, yn gystal a'i fab, y Parch. Benjamin Jones, brawd y trancedig, yn ddynion oeddynt yn caru yr efengyl yn fawr. A wnewch chwi adael i mi ddyweyd wrth fyned heibio?—y mae arnaf ofn i'r eglwysi fyned yn brinion o ddynion yn caru yr efengyl â chariad trwyadl. Duw a ŵyr! Ond y mae llawer o le i ofni am luaws yn yr oes hon eu bod yn barod i ddyweyd am yr efengyl, "Y manna gwael hwn," ac i flino ar yr efengyl dragywyddol o'r pulpud; eisieu rhywbeth mwy ddyddorol—mwy o hanesynau, mwy o bethau digrifol. Duw gadwo ein cenedl rhag y cyfryw ymadawiad! Ond pa fodd yr oedd ein hanwyl frawd? Yr oedd yn caru yr efengyl â chariad dwys a dwfn. Ni welais I neb yn fy nydd yn ei charu yn fwy nag efe. Yr oedd wedi ei chredu yn gynnar iawn—nid allaf fi ddim dyweyd pa mor gynnar—yn ei fywyd; ond mi ddywedaf mai hyny a wnaeth, a hyny yn moreu ei oes. Nid oedd er ys blynyddau lawer yn cael ei flino gan ammheuaeth am ei gyflwr. Yr oedd yn deall ei fod mewn undeb â'r Arglwydd Iesu. Nid oedd arno arswyd—*dim* arswyd, wrth edrych i'r dyfodol. Paham? Yr oedd wedi ei "wreiddio a'i seilio mewn cariad." Dyna'r fath gymeriad dysglaer oedd ein hanwyl frawd ymadawedig. Ac fe gafodd yr eglwys yn Seacombe y fraint o gael gŵr fel hwn am flynyddoedd lawer i'w harolygu a'i dysgu, i draethu ei feddyliau duwinyddol, Cristionogol yn ei chyfarfodydd. Colled fawr i ni yn Liverpool na chawsom fwy o'i bresenoldeb yn ein cyfarfodydd, ond yr oedd ei fyddardod yn rhwystr iddo gael dim budd mewn cyfarfodydd cyffredinol. Er hyny bu yn ffyddlawn iawn gyda chwi yma, ac yn arfer pob cydwybod i addoli Duw yn ei dŷ, er heb allu clywed y gwasanaeth. Yr ydych chwi oll yn dystion mai gŵr ydoedd yn ofni yr Arglwydd yn fawr, ac yn hoffi ei orchymynion ef yn ddirfawr. Duw a godo ei debyg yn eglwysi Liverpool eto! Duw a wnelo lawer mewn swyddi sanctaidd yn gyffelyb i'n hanwyl frawd!

Yr wyf, wrth eich gollwng, yn galw arnoch i beidio â'i anghofio ef. "Ystyr y perffaith." Meddyliwch am ei ymarweddiad, meddyliwch am ei weddïau, meddyliwch am ei gynghorion, ac wrth adgofio am dano, gogoneddwch Dduw ynddo.

II. *Y Duwiol yn ei* Ddiwedd.

Yr oedd y diwedd yn dangnefedd. Dyna'r gair anwylaf yn ein hiaith—tangnefedd. Diwedd felly oedd diwedd David Jones. Nid yn y diwedd y cafodd ef dangnefedd gyntaf. Na,

na; yr oedd Duw wedi llefaru tangnefedd wrth ei ysbryd; fe glywodd lais yr Iesu, do, ganwaith, yn dyweyd, "Tangnefedd i ti," ac fe'i clywodd yn gynnar. Ac nid tangnefedd byr-barhaol, fel tywyniad haul rhwng cymylau—nid dan gwmwl; ond yr oedd y diwedd fel boreugwaith digymylau, yr oedd ei ddiwedd yn "heddwch fel yr afon," ïe, fel yr *afon*—heddwch â Duw, heddwch â phawb. Yr oedd tangnefedd Duw yn llanw ei fynwes am wythnosau cyn ei fynediad i mewn i dangnefedd didrai a thragywyddol.

Felly y byddo ein diwedd ninnau! Y mae arnaf awydd diweddu yn ngeiriau dyn nad wyf yn ei edmygu: "Marw a wnelwyf o farwolaeth yr uniawn, a bydded fy niwedd i fel yr eiddo yntau." Duw roddo hyn i mi ac i chwithau! ac mewn trefn i hyny llafuriwch am y perffeithrwydd yr ydym wedi bod yn dyweyd mor anmherffaith am dano. Yr Arglwydd a fendithio ei eiriau, er mwyn ei enw, Amen.

Y PRIF FFEITHIAU YN HANES CRIST.

Gan y Parch. T. JAMES, M.A., *Llanelli.*

VI.—EI FARWOLAETH.

DAETH yr Iesu i'r byd er mwyn gwasanaethu—i wneuthur gwasanaeth dros Dduw a dynion. Wrth fyw a marw, gwasanaethu yr ydoedd; ond dichon fod gwahaniaeth yn yr hyn a gyflawnai yn y ddwy sefyllfa hyn yn ei berthynas â dynion. Nid ydym yn dyweyd nad oedd a fynai ei fywyd â dynion yn eu sefyllfa bresennol; oblegid yr oedd dirgelwch yn perthyn i'w fywyd ef na ellir ei ddirnad yn ei holl gysylltiadau. Byddem yn rhy eofn wrth ddyweyd mai hyn ydoedd a dim arall; ei fod yn cynnwys hyn, ac nad yw yn perthyn i ddim gwahanol. Yr oedd yn mywyd a marwolaeth y Duw-ddyn ddyfnderoedd o ddirgeledigaethau anhawdd, os nad anmhosibl, eu dirnad gan fodau meidrol. "Uchel yw" y wybodaeth, "ni fedrwn oddiwrthi."

Dichon, er hyny, na fyddem ymhell o'n lle wrth ddyweyd fod ei fywyd yn dwyn perthynas â dyn fel creadur, a'i farw â dyn fel pechadur neu wrthryfelwr.

Wrth fyw yn hollol i Dduw trwy ystod ei oes—wrth gadw ei ewyllys yn gwbl ddarostyngedig i eiddo ei Dad—wrth sefydlu ei lygad ar ei foddhau a'i ogoneddu yn mhrofedigaethau a themtasiynau y byd, y buddugoliaethodd ar yr oll. Wrth sicrhau ei hun mewn dyogelwch, trwy ufuddod perffaith i Dduw, y sylweddolodd yr *ideal* o ddyn. Cafodd Duw yr oll a ddymunai, ie, yr oll oedd bosibl ei gael. Dyma ddyn perffaith yn ei holl ranau: ysgogiadau ei enaid, dymuniadau ei galon, ymadroddion ei enau a gweithredoedd ei fywyd—i gyd yn berffaith gyson a chydweddol â Duw. Bwriadwyd i'r Adda cyntaf i fod felly: yr oedd hyn mewn golwg yn ei greadigaeth; cynnysgaeddwyd ef â'r holl elfenau anghenrheidiol er ei alluogi i ymddyrchafu i sefyllfa berffaith mewn undeb hollol â Duw. Nid oedd ganddo ond myned rhagddo mewn cyfeiriad dwyfol, gan wrando ar lais Duw, er cyrhaedd y nôd a osodwyd o'i flaen. Yr oedd holl egwyddorion ei natur yn gwbl rydd oddiwrth ddrwg, ond eu bod i'w gweithio allan mewn ymarferiad i ystad berffaith, sefydlog a dyogel. Hawdd oedd iddo wneyd hyn; pe buasai yn glynu wrth ewyllys ei Grëwr, galluogid ef i orchfygu pob rhwystrau a themtasiynau ac ymddyrchafu i sefyllfa berffaith. Dywedir gan rai y buasai anghenrheidrwydd am yr ymgnawdoliad pe yr arosasai dyn yn ei gyflwr creadigol, er dangos *ideal* Duw o ddyn, y fath y dysgwylid iddo fod yn ol y safon ddwyfol. Nid ydym yn alluog i weled anghen am hyn, nac un amcan iddo, gan y buasai dyn ei hun, wrth aros yn Nuw, yn dyfod i fyny â'r safon, yn cyrhaedd amcan ei gread, yn bob peth y mynai y Crëwr iddo fod. Ni fyddai anghen am gynllun ymdebygoliad, gan y byddai dyn ei hun wedi gweithio allan elfenau ei natur i berffeithrwydd yn unol â meddwl Duw wrth ei greu. Ni allasai y Mab yn ei fywyd ar y ddaear fod yn ddim uwch na pherffeith-

rwydd; ac os cyrhaeddai dyn y sefyllfa hono drwy ymlyniad wrth Dduw ac ymostyngiad trylwyr i'w ewyllys, ni allasai fod anghen am arall yn gynllun bywyd. Ond gan i'r Adda cyntaf fethu ar y ffordd, syrthio yn fyr o gyrhaedd yr amcan, rhaid oedd am un arall yn gynllun bywyd cydweddol â meddwl Duw am ddyn.

Daeth Mab y dyn i wasanaethu yn y cyfeiriad hwn: ymddangosodd yn y byd gyda'r amcan o ddangos i ddynion pa fath y dylent fod—yr hyn raid fod er derbyn cymeradwyaeth Duw. Ynddo ef y dadguddir yr *ideal* o ddyn yn y meddwl Dwyfol—yr hyn yr amcanwyd iddo fod yn ei greadigaeth. Crist fel yr Ail Adda yw "delw y Duw anweledig," "gwir lun ei berson ef," "cyntafanedig pob creadur," Achosydd bodolaeth y greadigaeth newydd. Y mae holl anrhydedd, ac awdurdod, a rhagorfreintiau y teulu yn cartrefu ynddo Ef: "Efe yw Pen corff yr eglwys," ac y mae i "flaenori ymhob peth." Ni all neb fyned o'i flaen, na rhagori arno mewn dim, gan ei fod yn gynllun perffaith; efe yw yr uchaf, rhagoraf, a gogoneddusaf. Efe yw dechreuad yr adeiladaeth ysbrydol, Sylfaenydd y tŷ yn gystal a'r sylfaen. Dysgwylir i bawb ei gymeryd yn gynllun bywyd, yn esiampl—rhedeg yr yrfa "gan edrych ar Iesu." Daeth i'r byd yn Gynnrychiolydd dynolryw, yn Ail Adda; ac y mae yn awr yn allu newydd yn y greadigaeth, i ffurfio dynion ar ei ddelw ei hun, i'w perffeithio mewn sancteiddrwydd, a'u sicrhau mewn dyogelwch bythol.

Yr hyn bâr syndod i ni wrth ddarllen hanes y Person hwn yw iddo *farw;* yn enwedig iddo farw mewn gwarth a gwaradwydd—iddo gael ei groeshoelio gyda drwgweithredwyr. Pan yn darllen hanes ei fywyd oddiar pan yr ymddangosodd yn y byd hyd pan ymadawodd âg ef, nid ydym yn alluog i weled rheswm o gwbl am ei farw ef. Gan mai "cyflog pechod yw marwolaeth," nid ydym yn gweled y posiblrwydd i'r Iesu ddyoddef marwolaeth. Ni allai ei elynion gwaethaf nodi allan ddim yn ei fywyd yn anghydweddol â deddf Duw yn ei manylrwydd. Nid dosbarth cyffredin oedd ei elynion, eithr dynion dysgedig, galluog, ystrywgar a dichellgar. Ond er defnyddio eu galluoedd a'u manteision, eu sefyllfa a'u dylanwad, i chwilio am ddiffygion yn yr Iesu, gan ei wylied i'r dyben hwn gyda'r dyfalwch mwyaf, eto methent gael ynddo ddim allan o le. Tystiolaeth ei gaseion a'i garedigion yw ei fod yn ddibechod, yn ddifai, "na wnaeth ddim allan o le," yn "ddiddrwg, dihalog, a didoledig oddiwrth bechaduriaid."

Yn rhinwedd ei enedigaeth oruwchnaturiol, yr oedd ei natur yn lân, sanctaidd, a chwbl amddifad o elfenau llygredigaeth; gan iddo barhâu felly trwy ei fywyd, yn hytrach gan iddo ymberffeithio trwy ufudd-dod, ac ymsefydlu mewn sancteiddrwydd hollol, yr oedd yn rhydd oddiwrth farwolaeth —y tu allan i lywodraeth brenin y dychryniadau. Ar ol astudio ei fywyd yn dda, ac ymgydnabyddu â'i hanes yn ei holl fanylrwydd, y casgliad naturiol y deuir iddo yw, y byddai yn anmhosibl iddo ef brofi marwolaeth. Er hyny cawn ef yn marw, yn dyheu am farw, wedi dyfod i'r byd er mwyn marw. Yn mhrophwydoliaethau yr Hen Destament rhagfynegir ei farwolaeth, y dull y cymerai hyny le, ynghyd ag amser ei farw; hyd yr ydym yn cofio, ni wneir hyny â neb arall. Rhagfynegir genedigaeth amryw, megys Isaac a Samson; rhai gannoedd o flynyddoedd cyn eu hymddangosiad, megys Cyrus, Ioan Fedyddiwr, &c.; eithr saif Mab y dyn wrtho ei hunan yn y prophwydi gyda golwg ar ei farw. Nid oedd anghen dyweyd y buasai Isaac, Samson, a'r Bedyddiwr farw; yr oedd hyn yn naturiol iddynt hwy fel i eraill, canys "gosodwyd i ddynion farw un waith." Hollol afreidiol fuasai dyweyd am ddyn y byddai farw, gan fod hyn wedi ei benderfynu unwaith am byth, a phawb yn gwybod y cymerai le.

Yr oedd Iesu Grist yn ddyn, "wedi ei eni o wraig, wedi ei wneuthur dan y ddeddf;" paham y rhagfynegid ei farw Ef yn wahanol i eraill? Rhaid fod neilduolrwydd yn perthyn iddo, gwahaniaeth rhyngddo â phawb dynion, er gwneyd hyn yn anghenrheidiol. Awgryma yr Hen Destament annaturioldeb, anghyfreithlondeb, bron nad ellir dyweyd—anghyfiawnder ei farwolaeth. Nid oedd yn haeddu marw, nid oedd yn agored i farw, oblegid yr hyn a'i gwahaniaethai oddiwrth eraill. Yr oedd purdeb ei natur

a sancteiddrwydd ei gymeriad y fath ag i'w gadw rhag canlyniadau pechod. Yr oedd Efe ei hun yn yr oll a berthynai iddo yn cyfarfod safon Duw o berffeithrwydd, ac felly, wrth reswm, yn rhydd oddiwrth farwolaeth.

Credai ei ganlynwyr y buasai efe yn aros yn dragywyddol, na welai efe angeu fel dynion eraill. Pa mor uchel bynag ei honiadau am dano ei hun, nid oedd wedi dyweyd gair am y posiblrwydd iddo osgoi marwolaeth; yn hytrach fel arall, yn aml yn galw eu sylw at ei ymadawiad; ond ni fynent wrando arno, a dywedent, "Ni bydd hyn i ti." Ni feddylient na fyddai efe farw mwy nag eraill, oddieithr eu bod yn credu ei fod uwchlaw angeu, allan o gyrhaedd marwolaeth, yn herwydd ei ragoriaethau moesol. Tystiolaethai y prophwydi, gannoedd o flynyddoedd cyn ei ymddangosiad, na fyddai ynddo ddim yn haeddu marw; â hyn y cytuna ei ddysgyblion, y rhai oeddynt lygad-dystion o'i holl fywyd cyhoeddus. Pilat hefyd ar ol gwrando yn astud holl gyhuddiadau yr Iuddewon i'w erbyn, a ddywedai, "Nid wyf fi yn cael dim bai yn y dyn hwn."

Er y cwbl, "rhaid iddo ddyoddef y pethau hyn;" y "Messïah a leddir" —nid am fod elfenau marwolaeth ynddo—nid am ei fod yn haeddu marw —"a leddir, ond nid o'i achos ei hun;" "Yr Arglwydd a fynai ei ddryllio ef, efe a'i clwyfodd." "Cleddyf" yr Arglwydd a darawodd y gŵr oedd "gyfaill" iddo. Gan nad oedd efe ynddo ei hun yn agored i farwolaeth; gan ei fod yn ddigon perffaith i esgyn i ogoniant heb yr ymddattodiad hwn, ond ar yr un pryd yn dyoddef marwolaeth, rhaid fod rhyw reswm neillduol dros yr ymddygiad. Cyfeirir at hyn yn nhrefniadau cyfraith Moses, yn gystal ag yn mhrophwydoliaethau yr Hen Destament. Yn ngwasanaeth Gwyl y Cymmod cawn fustach ac un o'r bychod yn cael eu hoffrymu yn bechaberth, a'r bwch diangol yn arwyddo maddeuant a gollyngdod. Yr oedd Oen y Pasg yn dangos "Crist ein Pasg ni" yn cael ei "aberthu drosom ni." Dywed Esaiah, "Efe a archollwyd am ein camweddau ni, Efe a ddrylliwyd am ein hanwireddau ni; cosbedigaeth ein heddwch ni oedd arno ef." "Pan osodo ei enaid yn aberth dros bechod." "Efe a gyfiawnhâ lawer trwy ei wybodaeth, canys efe a ddwg eu hanwireddau hwynt."

A hyn y cytuna ei eiriau ef ei hun yn gystal ag eiddo ei ddysgyblion: Yr oedd "yn rhoddi ei einioes dros y defaid;" yn "rhoddi ei einioes yn bridwerth dros lawer;" "Yr hwn nid arbedodd ei briod Fab, ond a'i traddododd ef drosom ni oll;" "yr hwn a'i rhoddes ei hun drosom ni," &c. Y mae ei fod yn marw drostynt yn awgrymu eu bod mewn sefyllfa wahanol i'r hon y crewyd hwy yn y dechreuad; fod y sefyllfa hon yn anghydweddol â Duw ac â hwy eu hunain; eu bod yn analluog i waredu eu hunain o honi heb ymyriad dwyfol.

Cyd-dystiolaetha yr Ysgrythyrau â phrofiad mewnol dyn ei hun, sef, ei fod yn droseddwr yn llywodraeth Duw, ac o herwydd hyny yn analluog ac anghymhwys i ddal cymundeb â'i Grëwr—yn greadur syrthiedig a cholledig. Dianrhydeddwyd Duw genym, dirmygwyd ei awdurdod, gwadwyd ei hawliau, a syrthiwyd o dan ei anfoddlonrwydd. Erys hawliau y Llywodraethwr Dwyfol yr un er ymddygiad gwrthryfelgar dyn. Hawlir ufudd-dod perffaith i'r gyfraith yn ei holl ranau: ni wna leddfu dim ar ei gofynion i gyfarfod â gwrthryfelgarwch y troseddwr.

Ni all dyn roddi yr ufudd-dod hwn drosto ei hun, na neb dynion ei roddi yn ei le, gan fod pawb yn yr un sefyllfa druenus; eto os oes gwaredigaeth i fod, rhaid iddi ddyfod trwy ddyn. Yn ol iaith y Bibl, "Duw a ymddangosodd yn y cnawd"—yn y natur ddynol, neu Efe a ddaeth yn ddyn. Y Gair yr hwn oedd yn y dechreuad gyda Duw, yr hwn oedd Dduw, "a wnaethpwyd yn gnawd ac a drigodd yn ein plith ni." Ond nid oedd ei ddyfodiad i'n plith fel yr Ail Adda i sylweddoli *ideal* Duw o ddyn, yn ddigon i ddyrchafu dynolryw syrthiedig i undeb cyfeillgar â Duw; nid oedd ei fywyd sanctaidd a'i gydymffurfiad hollol â deddf Duw yn ddigon i gyfarfod â sefyllfa golledig hil syrthiedig Adda.

Pa berthynas bynag oedd rhwng ei fywyd dibechod ef â'r rhai a gynnrychiolid ganddo, yr oedd yn gwbl analluog i effeithio gwaredigaeth i wrthryfelwyr. Gallai dynion edrych arno gyda syndod; edmygu person fedrai fyw yn nghanol cymdeithas lygredig a phech-

adurus heb ddylanwadu arno gan ei llygredigaeth; syllu ar un yn byw yn nghanol gwahangleifion heb gael ei lychwino gan y clefyd—ac eto aros eu hunain heb eu meddyginiaethu; dim digon o nerth yn ei fywyd pur ac uniawn i'w dyrchafu o'r dyfnderoedd trueni yr oeddynt ynddo trwy bechod. Rhaid iddo *farw* er cyrhaedd yr amcan hwn: Mab y dyn yn "rhoddi ei einioes yn bridwerth dros lawer." Pell ydym o feddwl ein bod yn alluog i egluro perthynas marw yr Iesu âg iachawdwriaeth dynolryw—y modd yr effeithia ar Dduw yn y nefoedd, ynghyda dirgelwch ei weithrediadau ar wrthryfelwyr ar y ddaear er eu cymmodi â Duw. Cymerwn osodiadau yr Ysgrythyr fel y deallwn ni hwy. Hawdd deall oddiwrth ymddygiadau yr Iesu ei fod yn edrych ar ei farw fel y ffaith bwysicaf a berthynai iddo, ac na fyddai amcan i'w fywyd ar wahan oddiwrth ei farwolaeth. Nid y bwysicaf iddo ei hun, er gosod terfyn ar ei ddarostyngiad a'i ddyoddefiadau, trwy agor y ffordd iddo i fyned adref i ogoniant, ond y bwysicaf yn ei perthynas â dynolryw er cyrhaedd amcan ei anfoniad i'r byd. Dengys yn aml ei fod yn dyheu am farw, yn edrych ymlaen ato gyda hyfrydwch ac yn hiraethu am yr awr y cymerai hyny le. Gwyddom yn dda ddigon nad oedd marw ynddo ei hun yn beth i hiraethu am dano. Arswydai yr Iesu ef, dychrynai rhagddo a gwaeddai, "Os yw bosibl aed y cwpan hwn oddiwrthyf;" 'os gellir achub dynion heb i mi brofi marwolaeth.' Cynhyrfid ei enaid, gruddfanai, a chwysai megys dafnau gwaed pan yn edrych at awr ei ymddattodiad. Ac eto hiraethai am farw, ymhyfrydai yn yr olwg arno. Wn I ddim paham hyn; oddieithr ei fod yn gweled y dylanwad a gariai er iachawdwriaeth dynolryw: "A minnau os dyrchefir fi oddiar y ddaear a dynaf bawb ataf fy hun." Ychydig oriau cyn marw dywedai, "Mi a chwennychais," neu "gyda dymuniad y dymunais," er amlygu angerddoldeb ei deimlad, "fwyta y Pasg hwn gyda chwi cyn dyoddef o honof." "Wele yr ydym ni yn myned i fyny i Jerusalem, a chyflawnir pob peth a'r sydd ysgrifenedig trwy y prophwydi am Fab y dyn"—myned yn dawel, penderfynol a llawen, am ei fod yn myned i farw; canys gwyddai fod hyn yn anghenrheidiol er cyrhaedd amcan ei anfoniad.

Yn ol dysgeidiaeth yr Ysgrythyrau, cyfodai yr anghenrheidrwydd am ei farw, nid o hono ef ei hun mewn un modd, ond o sefyllfa isel a thruenus dyn, er ei alluogi i ymddyrchafu mewn cymundeb â Duw. Yr oedd pechod wedi myned rhwng dyn a'i Grëwr, wedi gyru dyeithrwch a phellder rhyngddynt, fel ag i'w hanalluogi i gymdeithasu yn gyfeillgar â'u gilydd. "Dyeithriaid a gelynion mewn meddwl trwy weithredoedd drwg" a gymmododd efe. Nid oes mewn dyn uniondeb a gwirionedd i ddyfod ger bron Duw; ac felly fel Adda gynt, pellhâi oddiwrtho a cheisiai ymguddio rhagddo. O herwydd y diffyg hwn mewn dyn, cadwai Duw rhag amlygu ei hun mewn boddlonrwydd a chariad at y rhai a wnaed ar ei ddelw.

Pell ydym o feddwl fod Duw wedi peidio caru dyn er ei bechod; buasai hyny yn gyfnewidiad mewnol ynddo, yr hyn sydd anmhosibl. "Canys felly y carodd Duw y byd fel y danfonodd efe ei uniganedig Fab:" caru'r byd yn ei lygredigaeth a'i bechod; caru ei waith ei hun: ond attelid ef gan bechod i amlygu y teimlad cariadus hwn ato ac ymhyfrydu yn nghymdeithas dyn. Torwyd yr undeb, dattodwyd y cysylltiad cyfeillgar ac ymbellhawyd,—daeth dyn yn ddyledwr wrth ddyfod yn droseddwr—yn ddwfn mewn dyled o ufudd-dod a chariad—dyled na allai dalu, yn hytrach suddai yn ddyfnach ynddi yn barhaus. Ac nid oes dim i'w wneyd â dyledwr o'r fath hyn, ond ei gadw mewn carchar hyd nes y tala y ffyrling eithaf. Tra o'r tu arall, os maddeuir y ddyled, rhaid am drefn i faddeu yn gydweddol â chymeriad y Gofynwr goruchel.

Neges yr Iesu i'r byd oedd i adferu dyn i ffafr Duw; i ail sefydlu'r berthynas rhyngddynt; i wneyd yr hyn oedd anghenrheidiol er effeithio undeb; i "ymaflyd mewn dyn ar y llawr a'i godi â'r Duwdod yn un"—"rhoddi ei einioes yn bridwerth dros lawer." Cyflwynodd ei hun yn nghyfiawnder ei ufudd-dod a'i gariad pur yn offrwm difai i Dduw. Trwy ei hunanoffrymiad, llanwodd y gwagle oedd rhwng y nefoedd â'r ddaear. Daeth yn ddolen gydiol rhwng Duw

â dyn; gwnaeth "y pell yn agos trwy waed Crist;" gwnaed "heddwch trwy waed ei groes Ef." Ac yn awr y mae "Duw yn Nghrist yn cymmodi y byd âg ef ei hun, heb gyfrif iddynt eu pechodau." "Yn yr hwn y mae i ni faddeuant pechodau." "Rhoddi ei hun yn bridwerth dros lawer." Ni all fod dim eglurach er dangos amcan ei farw; taliad, taliad gollyngdod, yn eu lle, ar eu rhan. "Llawer" yn ddyledwyr, eu bywyd yn cael ei hawlio gan y Gofynwr; Mab y dyn yn ymgymeryd â'r sefyllfa, yn talu eu dyled trwy farw ei hun—"y Cyfiawn dros yr anghyfiawn, fel y dygai ni at Dduw." Rhoddai yr aberth anghenrheidiol dros ddyn am mai Mab y dyn ydoedd; o herwydd ei fod yn berthynas i ddynolryw; yn Ail Adda, cynrychiolydd dynion ger bron Duw. Yr oedd ei farw yn effeithiol i gyfanu y rhwyg, ac i adsefydlu yr undeb, am mai Duw mewn cnawd ydoedd; ac yn y sefyllfa rydd, berffaith hon, yn cyflwyno ei hun yn wirfoddol yn bridwerth dros lawer.

"Prynwyd dynion oddiwrth eu hofer ymarweddiad â gwerthfawr waed Crist, megys Oen difeïus a difrycheulyd . . ." Yr oedd gan Fab y dyn hawl arno ei hun, meddiant ar ei fywyd ei hun, ac yn ngrym ei gariad anghymharol ymgymerodd â'r sefyllfa er talu ein dyled; ymgyflwynodd yn wirfoddol i roddi ei enaid yn aberth dros droseddwyr. Nid rhyfedd ei fod yn dyheu am farw, gan y gwyddai beth fyddai ei effeithiau gogoneddus yn llywodraeth ei Dad. Trwy ei farw ef symudwyd y rhwystrau a attalient rydd-weithrediad cariad Duw at y byd, ac agorwyd ffordd newydd o'r ddaear i'r nefoedd, ar hyd yr hon y gall afradloniaid ddychwelyd at eu Tad heb ofn na braw. Ei farw ef daflodd fynwes Duw i'r golwg yn llawn cydymdeimlad, tosturi a chariad, nes cynnyrchu dymuniad mewn plant drwg i ddyfod adref. Ei farw ef sydd yn nerthu y rhai hyn i godi ar eu traed a chychwyn yn edifeiriol tua thŷ eu Tad. Boddlona hwn Dduw ar ran troseddwyr, a lleinw ddymuniadau dyfnaf calon dyn. Duw yn wyneb Crist croeshoeliedig sydd bob peth y gall dyn ddymuno. Y marw hwn yw y gallu sydd gan Dduw i achub y byd, i godi dynion i undeb a chymundeb âg ef ei hun. Nid ydym yn gweled un rheswm am farw yr Iesu ar wahân oddiwrth ei berthynas â dyn fel pechadur.

EFFEITHIOLRWYDD GWEDDI.

Gan y Parch. R. CEINWENYDD OWEN, *Liverpool.*

Y MAE geiriad ein testun yn cymeryd yn ganiataol fod gweddi yn effeithiol, yr hyn hefyd a ddysgir yn eglur yn y Bibl; a diammheu genym mai yr hyn a olygir ydyw, fod gweddi nid yn unig yn effeithio ar y gweddïwr ei hun, ond hefyd ar Dduw, unig wrthddrych gweddi; neu mewn geiriau eraill, fod Duw yn gwrando gweddi. Y mae y rhan gyntaf yn sicr o fod yn wirionedd: y mae gweddi yn effeithio yn fawr ar y gweddïwr ei hun. Y mae yn cymhwyso dyn i dderbyn bendithion yr iachawdwriaeth, ac yn fynych yn profi yn foddion gras effeithiol iawn; ond tra yn addef, ac yn dysgu hyn, yr ydym ni yn haeru fod gweddi yn dylanwadu ar Dduw hefyd. Yr ydym yn haeru fod cri creadur mor fychan a dyn yn effeithio ar y Duw Anfeidrol. Ond wrth fod yn onest y mae yn rhaid i ni gydnabod fod llawer o anhawsderau i geisio credu hyn yn drwyadl. Diammheu genyf nad oes neb meddylgar ac ystyriol sydd yma yn awr na bu ar ryw adeg, neu adegau, ac mewn amgylchiadau neilluol, o dan demtasiwn i feddwl mai ofer ydyw gweddïo. Y mae amryw tra yn cydnabod fod Duw yn gwrando gweddi am fendithion ysbrydol, yn gwadu ei fod yn gwrando gweddi am fendithion tymmorol; ac y mae lle i ofni mai gwan iawn ydyw ffydd hyd yn nod proffeswyr crefydd yn effeithiolrwydd gweddi yn y cyfeiriad hwn. Pan y cynnelir cyfarfod i weddïo am wlaw ar sychdwr, neu am hin sych ar wlybaniaeth, y mae lle i ofni mai gwan ydyw ffydd dynion y cânt eu gwrandaw yn y peth hwn. Y mae diffyg ffydd yn llwyddiant gweddi yn fynych yn codi oddiar syniad cyfeiliornus am Dduw, ac am natur gweddi. Y mae yn rhaid cofio fod Duw yn Fôd personol—nid deddf, neu egwyddor, neu allu, ond Bôd personol yn meddu ar ewyllys a theimlad; ac yn llywodr-

aethu pawb a phob peth a greodd. Pa beth ydyw gweddi, drachefn? Nid dymuniad noeth am ryw fendith, a hyny yn unig, ydyw gweddi, fel y tybia rhai. Y mae yn wir fod deisyfiad mewn gweddi, ac yn rhan bwysig o honi, ond nid dyna sydd yn cyfansoddi gweddi. Tybia rhai nad ydyw gweddi ond gwaith dyn yn gofyn i'r Arglwydd am ryw fendith neillduol, ac os na dderbyniant y peth neillduol hwnw y gofynant am dano, a hyny ar yr adeg y gofynant am dano, tybiant fod y weddi yn aneffeithiol. Ond y mae y syniad hwn am natur gweddi yn hollol gyfeiliornus. Oblegid y mae yn anghenrheidiol i ewyllys y gweddïwr fod yn ddarostyngedig i ewyllys Duw. Un o hanfodion gwir weddi, neu weddi lwyddiannus, ydyw cydymffurfiad trwyadl yr ewyllys âg ewyllys Duw. Y mae yn ofynol i'r gweddïwr fod hyd yn nod yn foddlawn heb y peth y gofyna am dano os hyny ydyw ewyllys Duw. Fe all Duw ateb gweddi dyn heb roddi iddo ar y pryd y peth neillduol y bydd ef yn gofyn am dano. Yr oedd yr Arglwydd Iesu Grist yn ei weddïau yn ymostwng yn gwbl i ewyllys ei Dad. Yn y modd hwn y gweddïai ef: "Nid fel yr ydwyf fi yn ewyllysio, ond fel yr ydwyt ti." Os bydd i ddyn weddïo yn daer a ffyddiog am unrhyw beth sydd yn unol âg ewyllys Duw, ac â'i lesâd penaf ei hun, y mae yn sicr o gael ei wrando. Ond yr anhawsder sydd yn ein cyfarfod yn y fan hon ydyw gwybod pa beth sydd yn unol âg ewyllys Duw, ac â'n daioni penaf ninnau. Am ba bethau y gallwn weddïo, a theimlo yn hyderus y bydd i ni gael ein gwrando? Dengys y Bibl y gallwn weddïo am fendithion tymmorol yn gystal a bendithion ysbrydol. Dysgir ni yn ngweddi yr Arglwydd i weddïo am ein "bara beunyddiol, yn gystal ag am faddeuant o'n pechodau. Ond ni a geisiwn ateb rhai o'r prif wrthddadleuon a ddygir ymlaen yn erbyn effeithiolrwydd gweddi.

Fe ddadleuir yn

I. Fod gweddi yn anghyson a deddfau natur.

Y mae yr wrthddadl hon a'i chyffelyb yn cael ei galw yn wrthddadl athronyddol. Ceisia rhywrai ar dir athroniaeth brofi fod gweddi yn aneffeithiol. Un o'r gwrthddadleuon diweddaraf yn erbyn llwyddiant gweddi ydyw—"Fod y greadigaeth yn cael ei llywodraethu yn ol deddfau sefydlog ac anghyfnewidiol, ac felly fod gweddïo am i'r deddfau hyny gael eu hattal, neu eu cyfnewid, yn ofer ac yn afresymol." Dywedir fod gwlaw yn gynnyrch rhyw ddeddfau yn yr awyrgylch, ac felly ei fod yn anocheladwy ar adegau, ac o dan amgylchiadau neillduol. Dywedir fod iechyd ac afiechyd yn ganlyniadau deddfau anianyddol, y rhai sydd yn penderfynu hyd oes pob dyn, ac o ganlyniad mai oferedd hollol ydyw gweddïo o berthynas iddynt. Fe ddywedir pe byddai i'r Duw mawr ateb gweddi am rywbeth fel hyn y byddai yn rhaid iddo gyflawni gwyrth, ac nad ydyw yn cyflawni gwyrthiau yn yr oes hon, beth bynag am oesau blaenorol. Y peth cyntaf sydd genym i'w ddyweyd am yr wrthddadl ydyw, ei bod yn un ymhongar iawn. Y mae pwy bynag sydd yn defnyddio gwrthddadl fel hon yn cymeryd yn ganiataol, yn ddiarwybod fe allai, ei fod yn gwybod am holl ddeddfau y greadigaeth, yr hyn, a dyweyd y lleiaf, sydd ar y mwyaf i unrhyw un ei wneuthur. Y mae yn wir fod dynion erbyn hyn yn gwybod llawer am natur a'i deddfau, ond nid ydynt yn gwybod y cwbl eto. Ac yn wir, onid yn ddiweddar y darganfyddwyd amryw o'r deddfau sydd yn adnabyddus yn awr? Y mae deddfau natur fel olwyn yn troi mewn olwyn, ac er i ddyn ddarganfod y naill ddeddf ar ol y llall am holl oesoedd y byd, y mae yn bosibl fod rhyw ddeddfau yn bod nas gall dyn byth eu cael allan. A phrin y mae yn briodol a theg i ddyn anturio dyweyd fod unrhyw beth yn wyrth, heb yn gyntaf feddu gwybodaeth berffaith o holl ddeddfau natur, oblegid fe all peth ymddangos fel gwyrth pryd mewn gwirionedd na bydd ond effaith naturiol rhyw ddeddf anadnabyddus i ddyn ar y pryd. Fe all peth gymeryd lle mewn un oes, a chael ei ystyried yn wyrth, pryd y bydd oes neu ddwy ar ei hol yn gweled nad oedd ond canlyniad naturiol rhyw ddeddf mewn natur.

Ymddengys fod y naill ddeddf mewn natur yn cymedroli, neu yn llywod-

raethu y llall yn fynych. Deddf naturiol y dwfr ydyw rhedeg i lawr, ond y mae dyn trwy *hydraulic power* yn gallu ei droi i redeg i fyny. Ac felly gyda lliaws o bethau eraill; a chan fod dyn yn gallu gwneuthur hyn, tybed nas gall Duw, Awdwr a Llywodraethwr y deddfau oll? Y mae gwrthddadleuon o'r fath hyn yn darostwng Duw trwy ei wneuthur yn gaeth i'w ddeddfau ei hun. Edrycha y dynion hyn ar natur fel rhyw beiriant, wedi ei wneuthur a'i roddi i fyned ar y dechreu, heb fod gan yr Awdwr mawr ei hunan na gallu nac awdurdod i ymyryd byth mwyach âg ef. Ond y mae y syniad yn un afresymol a chableddus; oblegid y mae yn rhaid fod Duw yn alluog i lywodraethu pob peth a greodd, onidê y mae yn canlyn ei fod wedi creu rhywbeth cryfach nag ef ei hun! Ac yn wir, nid ydyw y pethau a elwir yn "ddeddfau natur," wedi'r cwbl, ond gwahanol ffurfiau ar ewyllys Duw. Nid ydyw "deddfau anian" ond enw ar y *dull*, neu y *modd*, y mae y Creawdwr mawr yn gweled yn dda lywodraethu y greadigaeth.

Flynyddoedd yn ol, fel y mae yn hysbys i rai o honoch, fe achoswyd braw a gofid i amryw o grefyddwyr am dymmor, gan yr hyn a elwid ar ol hyny yr "*Hospital Test*." Mewn dadl ar effeithiolrwydd gweddi, galwodd un o wŷr galluog a dysgedig ein gwlad am i brawf gael ei wneuthur ar hyny, trwy ddewis dwy *ward* mewn *hospital;* ac i gleifion y ddwy *ward* gael yr un driniaeth yn hollol, gyda'r eithriad fod rhywrai i weddïo dros gleifion un o'r ddwy, a pheidio dros y llall. Ac os byddai i gleifion y *ward* y gweddïid drosti wella yn gynt na chleifion y llall, y byddai iddo ef gredu mewn gweddi; ac o'r ochr arall dywedai, os na byddai iddynt wella yn gynt, y dysgwyliai i Gristionogion roddi i fyny am byth haeru fod unrhyw effeithiolrwydd mewn gweddi. Ond y mae mynyd o ystyriaeth ddifrifol yn ddigon i ddangos fod y syniad o wneuthur *experiment* fel hyn o weddi yn anmhosibl, ac yn sarhâd ar y Duw anfeidrol. Yn wir, fe fuasai peth o'r fath yn sarhâd ar ddyn. Meddyliwch fod dyn yn myned at ddyn arall i ofyn ffafr fawr oddiar ei law, gyda'r amcan o gael gwybod pa fath ddyn a fuasai; y mae yn debyg y buasai dyn hunanol yn rhoddi y ffafr yn rhwydd a llawen er mwyn hunan-glod, ond fe fuasai pob dyn anrhydeddus yn gwrthod y cais gyda dirmyg. Ac os buasai dyn anrhydeddus yn gwneuthur hyny, pa faint mwy y Duw gogoneddus? A pheth arall, fe fuasai yn anmhosibl gwneuthur yr *experiment*. Meddyliwch fod dwy *ward* mewn *hospital* yn cael eu dewis, a nifer o grefyddwyr yn cael eu penodi i weddïo dros un, ac i beidio dros y llall, pwy a allasai wybod a fuasent yn gweddïo mewn gwirionedd ai peidio? Ac hefyd, gan bwy y buasai hawl i orchymyn i bawb beidio gweddïo dros y trueiniaid eraill? Ac yn wir fe fuasai gwneuthur hyny yn creu y fath gydymdeimlad â hwynt, fel yn ol pob tebyg, y buasai llawn cymaint, os nad mwy, o *wir* weddïo dros gleifion y *ward* y gwaherddid gweddïo drosti, na thros gleifion y llall, ac felly y mae yr "*Hospital Test*" yn syrthio i'r llawr fel peth anmhosibl a gwrthun. Fel yr awgrymwyd yn barod, y mae gwrthddadleuon o'r natur yma yn tarddu oddiar syniad cyfeiliornus am Dduw, a natur *gwir* weddi.

Ond fe ddadleuir eto—

II. Fod gweddi yn anghyson ag arfaeth a rhagwybodaeth Duw.

Gelwir yr wrthddadl hon a'i chyffelyb yn "wrthddadl ddiwinyddol." Dadleuir gan fod Duw wedi arfaethu pob peth er tragywyddoldeb, a'i fod yn rhagwybod pob peth, mai ofer ydyw gweddïo, oblegid nas gellir cyfnewid dim. Fe ddywedir fod peth sydd yn ol arfaeth a rhagwybodaeth Duw *i* gymeryd lle yn y dyfodol, mor sicr o gymeryd lle a phe buasent *wedi* cymeryd lle eisoes; ac o ganlyniad, mai afreidiol ac afresymol ydyw gweddïo am iddi fod yn wahanol. Y mae, yr ydym yn cydnabod, gan Dduw ei arfaeth, ac y mae yn rhagwybod pob peth; oblegid "hysbys i Dduw ei weithredoedd oll erioed." Y mae Efe "yn gweled y diwedd o'r dechreuad, ac er cynt yr hyn ni wnaed eto." Ond nid ydyw hyny yn milwrio dim yn erbyn llwyddiant gweddi. Un camgymeriad o eiddo yr wrthddadl hon ydyw, edrych ar weddi ei hunan fel peth y tu allan i gylch arfaeth a rhagwybodaeth Duw. Y mae y rhai sydd yn dadleu fel hyn yn erbyn

llwyddiant gweddi yn edrych arni fel rhywbeth wedi dyfod i fod heb yn wybod i'r Hollwybodol, i geisio ymyraeth a dyrysu ei gynlluniau a'i benderfyniadau tragywyddol ac anghyfnewidiol Ef; pryd y mae gweddi, fel pob peth arall, tu fewn i arfaeth a rhagwybodaeth Duw.

Y mae achos ac effaith yn wrthddrychau rhagwybodaeth Duw fel eu gilydd. Y mae pob peth sydd i gymeryd lle, a'r moddion sydd i'w dwyn oddiamgylch, yn wrthddrychau rhagwybodaeth Duw fel eu gilydd; ac felly y mae gweddi a'i heffaith o fewn cylch arfaeth a rhagwybodaeth yr Anfeidrol. Y mae yn wir fod yn y fan hon anhawsder, neu yn hytrach ddirgelwch mawr, sef yr anhawsder i allu gweled cysondeb rhwng arfaeth dragywyddol ac anghyfnewidiol Duw, â rhyddid a chyfrifoldeb dyn; ond y mae yr un anhawsder yn ein cyfarfod mewn rhyw wedd ar bob llaw. Y mae yr un anhawsder yn ein cyfarfod gyda ein gorchwylion tymmorol; ond nid ydyw dynion yn cymeryd eu blino ganddo gyda phethau y byd hwn, a phaham y gwneir gyda phethau crefyddol? Meddylier fod rhywun yn siarad fel hyn wrth yr amaethwr yn y gwanwyn pan yn llafurio ei dir: 'Yr ydych yn aredig, yn llyfnu, ac yn hau y maes hwn gyda'r dybiaeth y bydd i chwi gael *crop* arno y tymmor nesaf, a phe na byddai i chwi wneuthur hyny na byddai i chwi dderbyn *crop* arno. Nid wyf fi yn proffesu gwybod pa un a fydd *crop* arno y tymmor nesaf ai peidio, ond gallaf eich sicrhau eich bod chwi yn ddyn ffol iawn yn llafurio fel hyn. Pa un bynag a fydd *crop* arno neu beidio, yr oedd hyny yn wybyddus i Dduw erioed. Y mae Duw, cyn i'r maes gael ei greu, ac er tragywyddoldeb, wedi penderfynu pa fodd y mae i fod y tymmor nesaf; ac felly ni ellwch chwi wrth weithio, nac wrth beidio gweithio, gyfnewid dim ar beth sydd i fod o anghenrheidrwydd yn ol penderfyniad tragywyddol a digyfnewid Duw.' Fe chwarddai yr amaethwr am ben siarad mor ynfyd, oblegid y mae yn gwybod yn dda os na bydd iddo ef gyflawni ei ddyledswydd trwy lafurio a rhoddi had yn y maes nad oes gobaith am *grop;* ac o'r ochr arall, y mae yn gwybod os bydd iddo ef gyflawni ei ddyledswydd y bydd ganddo sail dros ddysgwyl i'r Arglwydd fendithio ei lafur â llwyddiant. Ac felly y mae gweddi mor gyson âg arfaeth a rhagwybodaeth Duw ag unrhyw orchwyl arall, ac yn llawer mwy sicr o lwyddo.

Ond fe ddadleuir hefyd yn

III. Fod gweddi yn anghyson a chymeriad Duw fel Bod anfeidrol dda.

Fe haera rhai fod gweddi yn hollol anghyson â chymeriad Duw fel Bôd hollwybodol, doeth, ac anfeidrol mewn daioni. Dywedir gan ei fod fel un anfeidrol mewn daioni yn caru ei blant, ei fod yn sicr o roddi iddynt yr hyn sydd oreu er eu llesâd penaf, pa un bynag a fydd iddynt hwy ofyn am dano ai peidio; ac felly mai dianghenrhaid hollol, a dyweyd y lleiaf, ydyw gweddïo. Ac ymhellach, fe ddywedir hefyd y gall dyn yn ei anwybodaeth, a'i fod yn gwneuthur hyny yn aml, ofyn am rywbeth mewn gweddi, pe caffai ef, a wnelai niwed mawr iddo; ond fod cariad Duw tuag ato y fath, a'i ofal am ei lesâd mor fawr, fel na chaiff y peth hwnw, gan nad pa mor daer y bydd iddo weddïo am dano, ac o ganlyniad mai difudd hollol ydyw gweddïo.

Y mae llawer, a llawer math, o anhawsderau yn ymddangos ar ffordd effeithiolrwydd gweddi, ond i ni y mae y prif anhawsder yn gorwedd yn y fan hon. Yr ydym ar unwaith yn teimlo fod yr wrthddadl hon yn cynnwys peth gwirionedd, ac yn wir llawer o wirionedd, ond nid yr *holl* wirionedd. Gwirionedd, a gwirionedd melus iawn, ydyw fod Duw yn dda. Y mae Duw yn anfeidrol mewn cariad a thosturi. Y mae yn caru ei blant, ac felly yn sicr o roddi iddynt yr hyn sydd yn anghenrheidiol er eu daioni penaf. Ond nid ydyw hyny yn un rheswm dros beidio gweddïo arno. Y mae daioni natur Duw, yn hytrach na bod yn rheswm dros beidio gweddïo, yn ddadl gref dros wneyd hyny. Y mae cariad a thosturi Duw yn rheswm cryf dros weddio, ac yn gymhelliad cryf i weddïo.

Cynllun neu drefn ordeiniedig Duw ydyw rhoddi mewn atebiad i weddi. "Ceisiwch, a chwi a gewch; curwch, ac fe agorir i chwi. Yr hwn sydd yn ceisio sydd yn cael, ac i'r hwn sydd

yn curo yr agorir." Ac nid arwydd o wendid yn Nuw ydyw fod llefain ei blant yn dylanwadu arno. Nid oes neb yn meddwl fod tosturi a chydymdeimlad yn wendid mewn dyn, ond yn hytrach yn rhinwedd mawr: ac nid ydynt yn wendid ac yn fychandra yn y Duw anfeidrol, ond yn hytrach dyma ei ogoniant penaf. Y mae yn wir nad ydym i gyffelybu Duw i ddyn; hyny yw, y mae yr *ideal* mwyaf perffaith o ddyn y gellir ei ddychymygu yn annhraethol rhy fychan ac anmherffaith, pan y bydd iddo gael ei gymhwyso at Dduw; ond y mae y Bibl yn ein cyfiawnhau am edrych ar dosturi Duw trwy ddrych tosturi dyn: "Fel y tosturia tad wrth ei blant, felly y tosturia yr Arglwydd wrth y rhai a'i hofnant ef." "Os chwychwi gan hyny, a chwi yn ddrwg, a fedrwch roddi rhoddion da i'ch plant, pa faint mwy y rhydd eich Tad yr hwn sydd yn y nefoedd bethau da i'r rhai a ofynant iddo?" Ond yn annibynol ar y Bibl, y mae rheswm dynol noeth yn dysgu, a chaniatâu bodolaeth Duw o gwbl fel Bôd personol, y rhaid ei fod yn hollwybodol, hollalluog, doeth, a da, ac o anghenrheidrwydd yn wrthddrych teilwng a phriodol i'w addoli ac i weddïo arno. Y mae gweddi yn beth naturiol, ac y mae hyny yn brawf fod Duw yn gwrando gweddi. Pan y mae dyn mewn perygl, y mae ar unwaith bron yn ddiarwybod iddo ei hun yn llefain allan am gymhorth, ac mae hyny yn brawf fod rhywun yn rhywle yn bod i'w gynnorthwyo: "*At their wits' ends all men pray*," meddai Shakspeare.

Y mae Duw yn hollalluog, ac fel y cyfryw yn llywodraethu pawb a phob peth a greodd wrth gynghor ei ewyllys ei hun. Fel ag y sylwyd o'r blaen, fe all Duw ateb llawer o weddïau ei bobl mewn llawer dull a modd, heb attal na chyfnewid unrhyw ddeddf mewn natur. Ond os bydd llesâd ei blentyn yn gofyn am hyny, y mae ganddo awdurdod a gallu i wneyd, ac y mae yn sier o wneuthur; oblegid y mae daioni ei blant yn annhraethol fwy pwysig yn ei olwg na holl ddeddfau natur i gyd gyda'u gilydd.

Ein gweddi wrth derfynu hyn o bapyr ydyw, ar fod pob un o honom yn cael cryfhau ei ffydd yn effeithiolrwydd gweddi, fel ag i weddïo yn fwy dibaid nag erioed, ac i allu dyweyd gyda'r Salmydd, "Minnau nesâu at Dduw sydd dda i mi."

Eglurhadaeth Ysgrythyrol.

GWERSI UNDEB YSGOLION SABBOTHOL CYMRU.

☞ *Cyfeirier at y GWERSLYFRAU am y WERS a'r CWESTIYNAU arni. Cofier fod y Wers ar gyfer pob Sabboth o Ebrill* 1*af*, 1888, *i'w rhanu dros ddau Sabboth.*

Y DOSBARTH CANOL.

Sabboth, Mai 12fed—*(Y Rhan Gyntaf o'r Wers am* Hydref 28ain *yn y* Gwerslyfrau Ysgrythyrol: Llyfr II., *tu dal.* 11).

Iachâu y Lloerig.

Adn. 14: *Ac wedi eu dyfod hwy at y dyrfa, daeth ato ryw ddyn.* Daw yr hanes hwn yn nesaf ar ol y Gweddnewidiad gan y tri Efengylwr cyntaf. Cadarnhâ hyn wirionedd hanesyddol y Gweddnewidiad. *Ac a ostyngodd iddo ar ei liniau.* Golyga y geiriau yn y gwreiddiol ei fod wedi plygu, ac hefyd wedi ymaflyd yn ngliniau y Gwaredwr, oddiar nerth teimlad, y mae'n debyg. Dywedir yn Marc fod y dyrfa wedi "dychrynu" pan ddaeth yr Iesu atynt, ix. 15. Gweddillion dysgleirdeb y gweddnewidiad a barai hyn.

Adn. 15: *Ac a ddywedodd, Arglwydd, trugarhâ wrth fy mab.* Ei unig fab, yn ol Luc ix. 38: "Canys fy uniganedig yw." *Canys y mae efe yn lloerig, ac yn flin arno: canys y mae efe yn syrthio yn y tân yn fynych, ac yn y dwfr yn fynych.* Marc sydd yn rhoddi yr hanes hwn helaethaf, gyda'i fanylder arferol: "A pha le bynag y cymero ef, efe a'i rhwyga: ac yntau a fwrw ewyn, ac a ysgyrnyga ddannedd, ac y mae yn dihoeni." Barna Meyer mai y masglwyf, neu yr "haint dygwydd" *(epilepsy)*, oedd ei glefyd, ond eu bod hwy yn edrych arno fel canlyniad cael ei feddiannu gan ysbryd aflan. Eithr ni raid tybied fod y naill yn cau allan y llall. Yr oedd fod ysbrydion aflan yn meddiannu dynion yn gred ac yn ffaith yn amser ein Hiachawdwr; a dylynid hyny bob amser, medd rhai, gan gynhyrfiadau gewynol o natur y clefyd uchod. Amddifadodd yr ysbryd ef o'i leferydd, medd Marc: "ac ysbryd mud ynddo," ix. 17. Dywed Marc ei fod wedi cael un o'r *ffitiau* dychrynllyd hyn *(paroxysm)* gyda'i fod yn dyfod i olwg yr

Iesu, ix. 20. Sylwa Trench ar hyn fod teyrnas Satan, ar raddeg fawr neu fechan, yn cael ei chynhyrfu pan yn dyfod i ymyl teyrnas Crist. Y mae llid Satan yn fawr pan y mae ei amser yn fyr.

Adn. 16: *Ac mi a'i dygais ef at dy ddysgyblion di.* "Mi a ddygais fy mab atat," medd Marc; dyna oedd ei fwriad, heb wybod fod yr Iesu yn absennol y pryd hwnw, heb ddychwelyd o'r mynydd. *Ac ni allent hwy ei iachâu ef.* Dylasent fedru. Dywed Luc yn nechreu pennod yr hanes hwn fod Crist wedi rhoddi iddynt "feddiant ac awdurdod ar yr holl gythreuliaid, ac i iachâu clefydau," ix. 1. Dywed un mai yr achos o'u hanallu oedd effaith rhagfynegiad eu Harglwydd am ei ddyoddefaint a'i angeu, Mat. xvii. 9, 12—fod hyn wedi eu taflu i iselder, yn yr hwn nis gallent weithredu y ffydd wyrthiol.

Adn. 17: *A'r Iesu a atebodd ac a ddywedodd, O genhedlaeth anffyddlawn a throfaus.* Wrth bwy y dywedir hyn? Ceir lluaws o olygiadau gwahanol: wrth yr ysgrifenyddion, medd Calvin; wrth y bobl, medd rhai; wrth y tad, medd eraill, neu wrth y tad a'r bobl ynghyd; neu wrth bawb oedd yn bresennol. Credwn gyda Meyer, mai wrth y dysgyblion yn uniongyrchol; ond eto wrthynt hwy mewn cysylltiad â'r rhai oedd o'u hamgylch. Yr oedd eu hanghrediniaeth yn eu gwneyd yn un (ar y pryd) â'r genedlaeth ddi-ffydd ag yr oedd ein Harglwydd yn byw yn eu mysg. Yr oeddynt yn ddiffygiol mewn ffydd, ac yn barod i droi oddiar y llwybr (trofäus). Yn eu tristwch am yr hysbysiad o ddyoddefiadau Crist, yr oeddynt wedi rhoddi ffordd yn ormodol i ysbryd y byd. Sylwa un fod gwaith Crist yn dyfod o'r mynydd ac yn cael ei ddysgyblion yn yr agwedd hon, yn cyfateb, mewn rhyw radd, i waith Moses yn dyfod o'r mynydd ac yn cael y bobl yn addoli y llo aur. *Pa hyd y byddaf gyda chwi? pa hyd y dyoddefaf chwi?* Dyna, medd rhai, yw yr ystyr: 'Yr ydych yn *rhy* ddibynol arnaf fi; ymwrolwch, ni byddaf fi gyda chwi ond am ychydig eto.' Ond mwy tebyg mai teimlad cryf oedd yma—annyoddefgarwch sanctaidd yn wyneb eu hanghrediniaeth, nid brys am ymadael oddiwrthynt. Ac yr oedd tuedd yn hyn i yru ysbryd iselder allan o'r dysgyblion, fel ag y gyrwyd yr ysbryd drwg allan o'r llanc. *Dygwch ef yma ataf fi.* Hŷn wrth y dysgyblion, a thad y bachgen.

Adn. 18: *A'r Iesu a geryddodd y cythraul, ac efe a aeth allan o hono.* Ei "geryddu" am gymeryd meddiant o'r bachgen. Neu, gelwir ei fwrw allan yn geryddu. Dyma ei ddull arferol o ymwneyd âg ysbrydion aflan.

Sabboth, Mai 19eg—*(Y Rhan olaf o'r Wers am* Hydref 28ain *yn y* Gwersylfrau Ysgrythyrol: Llyfr II., *tu dal.* 11.)

Adn. 19: *Yna y daeth y dysgyblion at yr Iesu o'r neilldu, ac a ddywedasant, Paham na allem ni ei fwrw ef allan?* Dengys eu cwestiwn nad oeddynt wedi cymhwyso cerydd yr Iesu (adn. 17) atynt eu hunain o gwbl.

Adn. 20: *A'r Iesu a ddywedodd wrthynt, Oblegid eich annghrediniaeth.* Nid nad oeddynt yn credu yn y gallu dwyfol i gyflawni y wyrth hon. Yr oeddynt wedi ceisio iachâu y bachgen. Ond yr oedd eu ffydd yn ddiffygiol yn ei nerth a'i graddau; a hyny wedi ei achlysuro yn awr, yn ol rhai, gan ddigalondid yn wyneb rhagfynegiad Crist o'i ddyoddefaint a'i angeu. Yr oedd eu ffydd yn ddiffygiol ar y pryd yn yr ystyr hon: ffydd yn Iesu Grist, trysorfa gallu goruwch-naturiol, fel ag yr oedd ei ddysgyblion, yn rhinwedd eu cymundeb âg Ef, yn cael eu galluogi, fel ei weision ac offerynau ei allu, i weithredu y gallu hwnw yn effeithiol, yn ol grym a dyfnder y ffydd a barai iddynt ymddiried ynddo ef. *Ffydd megys gronyn o had mwstard.* Ymadrodd ffugyrol, i'w gael hefyd yn ysgrifeniadau y Rabbiniaid, am *swm bychan iawn* o unrhyw beth. *Chwi a ddywedech wrth y mynydd hwn, symud,* &c. Yr oedd "symudo mynyddoedd" eto yn ymadrodd ffugyrol i osod allan orchfygu y rhwystrau mwyaf. Y mae chwedlau am symudo mynyddoedd yn llythyrenol. *Ac ni bydd dim anmhosibl i chwi.* Y mae ffydd wedi gwneyd gwyrthiau yn y byd allanol, i'n dwyn ni i gredu mewn gwyrthiau mwy yn myd yr ysbryd. "Pa un yw yr anhawddaf," medd un awdwr, "symud mynydd ai tynu ymaith wreiddyn pechod o'r galon? Y mae creu calon lân yn fwy gwyrth nag oedd creu nefoedd a daear. A dyma y rheswm nad yw ffydd yn symud mynyddoedd, neu na wnaeth erioed, am na buasai hyny yn un gwasanaeth i deyrnas Dduw; ac ni wna ffydd weithio ond er mwyn teyrnas Dduw."

Adn. 21: *Eithr nid â y rhywogaeth hon allan, ond trwy weddi ac ympryd.* Y rhywogaeth o ysbrydion drwg i ba un y perthynai yr un a fwriwyd allan o'r llanc hwn. Yr oedd yr achos hwn yn un o'r math gwaethaf; yr oedd yn fud a byddar, yn cael ei daflu i'r tân a'r dwfr, yn ysgyrnygu dannedd, yn malu ewyn; ac yn nghanol pangfa ddychrynllyd yn unig y gellid ei iachâu. Nid oedd yr achos hwn o feddianniad gan ysbrydion drwg yn wahanol i eraill yn ei natur, ond mewn graddau; ac am hyny yn gwneyd "rhywogaeth" neillduol, nas

gellid ei fwrw allan ond trwy weddi ac ympryd—nid o du y claf, fel y tybia rhai, ond o du yr iachäwr. Ac nid o honynt eu hunain y mae "gweddi ac ympryd" yn effeithiol i iachâu, ond fel moddion i chwanegu ffydd. Yr oedd nerth yr ysbryd drwg mor gryf yn yr achos hwn, fel y gofynai am nerth cyfatebol o ffydd yn y gallu dwyfol i'w orchfygu—afiechyd eithafol yn gofyn meddyginiaeth eithafol.

SABBOTH, MAI 26AIN—(*Y rhan gyntaf o'r Wers am* TACHWEDD 4YDD *yn y* GWERSLYFRAU YSGRYTHYROL: LLYFR II., *tu dal.* 11).

Cael arian y dreth yn ngenau y pysgodyn.

ADN. 24: *Ac wedi dyfod o honynt i Capernaum.* Yr oedd yr Iesu wedi dychwelyd o Wyl y Pebyll yn Jerusalem. Arosai yn awr yn Capernaum hyd dymmor yr ŵyl nesaf. Tybir na chyflawnodd yr un wyrth ar ol hon yn Galilea. Gallai fod ei elynion yn tybied ei fod yn awr yn rhoddi i fyny ei waith, ac yn ymsefydlu i drigo yn Galilea, gan ymostwng yn ddystaw i sefydliadau y wlad mewn trethi a phob peth. *Y rhai oedd yn derbyn arian y deyrnged a ddaethant at Pedr, ac a ddywedasant, Onid yw eich athraw chwi yn talu teyrnged?* Gellid meddwl oddiwrth y cwestiwn fod y dreth hon yn un wirfoddol yn unig, ac nid orfodol, a bod rhai yn gwrthod ei thalu. Gallasent dybied fod yr Iesu yn hawlio bod yn yr un dosbarth a'r offeiriaid, y rhai nid oeddynt rwymedig i dalu treth y deml. Ar ol y dychweliad o Babilon, yr oedd raid i'r holl wrywiaid ymhlith yr Iuddewon, o ugain oed i fyny, gyfranu y swm o hanner sicl bob blwyddyn, tuag at ddwyn y costau ynglŷn â gwasanaeth y deml. Gofynid hyn ar sail y gorchymyn yn Exod. xxx. 13. Tua deunaw ceiniog oedd hyn o'n harian ni. Wedi dinystr Jerusalem, aeth y dreth hon i Rufain. Cesglid hi ar y 1af ddydd o fis *Adar* (Mawrth). Tybiodd rhai mai treth wladol y sonir am dani yma. Ond y mae hyny yn sicr yn gamsyniad. Dengys yr enw, gyda'r fannod, mai treth y deml ydoedd (*τὰ δίδραχμα*). Dyma yr enw ar dreth y deml. Rhoddir y rhif lïosog i ddangos rhifedi mawr y darnau arian a gesglid, gan fod pob person yn ei thalu; a dengys y fannod fod y dreth yn adnabyddus, ac yn cael ei chasglu yn flynyddol. A buasai y dybiaeth mai treth Rufeinig ydoedd yn hollol annghyson âg ymresymiad ein Harglwydd. Edrycha rhai ar y weithred hon o eiddo swyddogion y deml fel dangosiad o deimlad yr offeiriaid tuag at Grist. Elai y gweision yn hyfion arno, am eu bod yn deall ei fod wedi tynu digofaint eu meistriaid. Ac eto, fel yr addefa Lange, nis gallwn weled dim yn eu hymddygiad ond dynion yn gofyn y cwestiwn yn syml, mewn tymher dda, ac er mwyn gwybod pa fodd i wneyd; fel y gwnai casglwr trethi gydag adeilad ac ammheuaeth yn ei chylch: 'A yw yr adeilad hon yn drethadwy ai nid yw?'

ADN. 25: *Yntau a ddywedodd, Ydyw.* Dengys yr ateb hwn fod yr Iesu wedi bod yn arfer ei thalu hyd yma. *Ac wedi ei ddyfod ef i'r tŷ, yr Iesu a achubodd ei flaen ef, gan ddywedyd.* Pe buasai yr Iesu yn bresennol, rhaid meddwl y buasai y casglwyr wedi gofyn iddo ef ei hun, ac nid i Petr. Gan nad oedd, yr Iesu "a achubodd ei flaen ef"—cyn iddo gael amser i ddyweyd yr hanes—dangosodd yr Iesu fod ganddo wybodaeth wyrthiol o'r hyn a gymerasai le. *Beth yr wyt ti yn ei dybied, Simon? gan bwy y cymer brenhinoedd y ddaear deyrnged neu dreth? gan eu plant eu hun, ynte gan estroniaid?* "Teyrnged" (*τέλη*) neu "dreth," (*κῆνσος*), treth y tir, neu y dreth a gymerid ar ol y cofrifiad *(census)*—hyn a hyn "y pen" *(capitation tax)*. Gan "eu plant eu hun," aelodau y teulu; ynte gan "estroniaid"—pawb y tu allan i'r teulu, y deiliaid.

SABBOTH, MEHEFIN 2IL—(*Y rhan olaf o'r Wers am* TACHWEDD 4YDD *yn y* GWERSLYFRAU YSGRYTHYROL: LLYFR II., *tu dal.* 11).

ADN. 26: *Petr a ddywedodd wrtho, Gan estroniaid.* Gan y rhai sydd y tu allan i gylch y teulu brenhinol; gan eu deiliaid. *Yr Iesu a ddywedodd wrtho, Gan hyny y mae y plant yn rhyddion.* Dyna y cymhwysiad: 'Os yw plant brenhinoedd y ddaear yn rhydd oddiwrth y trethi y maent yn eu gosod ar eu deiliaid, yna yn sicr yr wyf fi, Mab Brenin y Nefoedd, Mab Duw, yn rhydd oddiwrth unrhyw rwymedigaeth i dalu y trethi y mae Efe wedi eu gosod at wasanaeth ei deml.' Rhoddir y gair yn y rhif lïosog *—plant*, am fod y gosodiad yn un cyffredinol, ond y mae i'w gymhwyso at yr Iesu yn unig; nid at yr Iesu a Phetr, na'r apostolion eraill, na chredinwyr yn gyffredinol: canys *mabolaeth* yw sail yr ymresymiad, yr hyn a berthyn iddo Ef yn unig. Ond barna rhai esbonwyr fod y gair yn cymeryd i mewn yr Iesu a'i ddysgyblion. Yr oedd y rhwyg wedi dechreu eisoes rhwng yr hen ddwyfolywiaeth a'r *eglwys*. Yr oeddynt wedi esgymuno yr Iesu a'i grefydd (mewn effaith), o'r synagog, ac nid oedd yn gyfiawn gwneyd hyny, a hawlio teyrnged y deml oddiwrtho Ef drachefn. Felly

yr oedd yr apostolion i gyfranogi yn nyoddefiadau ac esgymundod eu Meistr, ac yn rhydd oddiwrth dreuliau y deml.

Adn. 27: *Er hyny, rhag i ni eu rhwystro hwy, dos i'r môr, a bwrw fach, a chymer y pysgodyn a ddêl i fyny yn gyntaf; ac wedi i ti agoryd ei safn, ti a gei ddarn o arian: cymer hwnw, a dyro iddynt drosof fi a thithau.* Rhag bod yn "rhwystr" i'r treth-gasglwyr, ac i eraill o drigolion Capernaum, y rhai nas gallent ddeall ystyr ysbrydol ymddygiad Crist, ac a allent gasglu ei fod yn diystyru y deml, neu yn gosod ei hunan mewn gwrthwynebiad i'r deml, penderfynodd dalu y dreth. Nid oedd y ffaith o'i fabolaeth dwyfol yn cael ei chydnabod y tu allan i gylch ei ddysgyblion, ac edrychid arno Ef gan hyny fel Israeliad, ac felly yn ddarostyngedig i'r ddeddf. Yr oedd Efe weithiau yn ymarfer ei hawl fel Messïah i ddarostwng rhyw osodiadau yn y gyfraith i'w ewyllys ei hun; ond gwnelai hyn wrth ymwneyd â gelynion: cyfarfyddai â'u cyhuddiadau trwy ddangos ei fod Ef wedi ei awdurdodi i gyflawni y gyfraith fel Messïah. Ond nid oedd y comisiwn hwn yn symud ei rwymedigaeth bersonol i gydffurfio â'r gyfraith, yr hon a gyfodai o'i enedigaeth a'i enwediad—ac nid oedd efe byth yn peidio gwneyd hyny. Yr un pryd, yr ydoedd wedi dyfod yn "ddiwedd" i'r ddeddf trwy ei chyflawni. *Dos i'r môr, a bwrw fach.* Nid rhwyd, ond bâch; un pysgodyn neilduol oedd eisieu yn awr. Dyma yr unig le yn yr Efengylau y sonir am bysgotta â bâch. Wedi cymeryd i fyny y pysgodyn cyntaf a ymaflai yn y bâch, ac agoryd ei safn, ceid ynddo "ddarn o arian" *(stater)*—pedwar *drachma* (tua thri swllt), y swm penodol oedd yn eisieu i dalu dros yr Iesu a Phetr: "Cymer hwnw, a dyro iddynt drosof fi a thithau." Nid "drosom *ni:*" yr oedd y ddau ar safle wahanol, er fod yr Iesu yn rasol yn cymeryd Petr i mewn gydag ef. Nid oedd ein Hiachawdwr yn arfer cyflawni gwyrthiau er mwyn cyfarfod â'i anghen ei hun. Ac nid oedd hon felly ychwaith mewn gwirionedd; y dyben oedd "rhag rhwystro." Dyma wers i ninnau i roddi i fyny *hawl* mewn rhyw amgylchiadau, pan y byddo dyben uwch i'w ateb trwy hyny.

Ystyrir y wyrth hon yn un anhawdd i'w hesbonio. Nid yw felly ond i Resymoliaeth. Nid yw yn anhawddach na gwyrthiau eraill i Ffydd. Ceisia rhai o Resymolwyr yr Almaen ei hesbonio ymaith trwy ddyweyd mai y pysgodyn ei hunan oedd yn *werth* y swm hwn. Eraill, megys Strauss, a'i gwnant yn un o "chwedlau Môr Galilea." Ond y mae yr esbonwyr goreu ac uniongred yn ei hystyried yn wyrth yn ystyr briodol y gair, ac wedi ei chyflawni yn uniongyrchol i gyfarfod â'r amgylchiad—gwyrth o allu a gwyrth o wybodaeth. Dywed Bengel: "Gwnaed i'r pysgodyn gyrchu y darn arian o'r dyfnder, ac yna dyfod i fyny gydag ef at y bâch."

Y DOSBARTH HYNAF.

Sabboth, Mai 12fed—*(Y rhan gyntaf o'r Wers am* Hydref 21ain *yn y* Gwersllyfrau Ysgrythyrol: Llyfr II., *tu dal.* 28).

"Pwy o honoch a'm hargyhoedda i o bechod?"

Adn. 46: *Pwy o honoch a'm hargyhoedda i o bechod?* Dangosir yma fod eu hannghrediniaeth yn ddisail. Dywedai yn yr adnod o'r blaen: "Am fy mod i yn dywedyd y gwirionedd, nid ydych yn credu i mi." Y gwirionedd neillduol yr oedd Efe newydd ei ddywedyd oedd ei fod Ef wedi deilliaw ac wedi dyfod oddiwrth Dduw, adn. 42. Apelia yn y cwestiwn hwn at ei burdeb moesol dilychwin fel prawf o wirionedd ei genadwri. Hòna sancteiddrwydd perffaith a dibechod, ac nis gallasai neb o'i elynion ei wrthbrofi. Yr oedd ei gwestiwn yn anatebadwy—fel cwestiynau mawr y Bibl. Nid yw y gair a gyfieithir yma "pechod" i'w gymeryd yn yr ystyr ddeallol o gyfeiliornad, neu yr hyn nad yw yn wir; ond fel y mae yn ddieithriad yn y Testament Newydd yn yr ystyr foesol—*pechod.* Gan ei fod heb bechod, yr oedd heb gelwydd neu dwyll. Yr oedd yn dywedyd y gwir. *Ac od wyf fi yn dywedyd y gwir, paham nad ydych yn credu i mi?* Dyma yr ymresymiad yn cael ei gymhwyso yn bersonol. Yr oedd eu hannghrediniaeth yn ddiesgus. Nid yw yn dyweyd "credu *ynof* fi;" cymer y tir isaf "credu *i* mi" (μοι)—'rhoddi crediniaeth i mi, fy nghoelio.'

Adn. 47: *Y mae yr hwn sydd o Dduw, yn gwrandaw geiriau Duw.* Ateb i'r cwestiwn yn adn. 46. 'Dyma yr achos paham nad ydych yn credu i mi, yr hwn wyf yn dywedyd y gwir (fy mod wedi deilliaw a dyfod oddiwrth Dduw) *am nad ydych o Dduw.* Nid yw "o Dduw" yn golygu yma un wedi ei aileni; ond un ag y mae Duw wedi dechreu ei dynu at Grist trwy ei ras—ystâd rag-flaenorol, un â'i galon wedi ei pharotoi, yn meddu clust i wrando; un â'i wyneb at y goleuni. Y mae y ddeuoliaeth foesol yma *(moral dualism)* trwy ysgrifeniadau Ioan yn arbenig—*o Dduw* ac *o'r diafol.*

Golyga *duedd* ddofn y galon, parodrwydd neu anmharodrwydd i dderbyn gwirioniedd dwyfol. Yr oedd yr Iesu yn gweled y gogwyddiadau dyfnaf hyn, am ei fod "yn gwybod beth sydd mewn dyn."

Adn. 48: *Yna yr atebodd yr Iuddewon, ac y dywedasant wrtho ef, Onid da yr ydym ni yn dywedyd, mai Samaritan wyt ti a bod genyt gythraul?* Nis gallent ateb ei resymau, ac felly y maent yn troi i'w gablu. Yr oedd Efe wedi dyweyd wrthynt (42—44) yn eglur a diamwys nad oeddynt yn blant Duw, ac wedi eu sicrhau mai plant y diafol oeddynt. Edrychent hwythau ar hyn fel yn cadarnhau yr hyn yr oeddynt o hyd yn ei ddal am dano—"Onid da yr ydym ni yn dywedyd"—mai *Samaritan* ydoedd; h.y. heretic (felly yr edrychent ar y Samariaid, y rhai oeddynt bobl gymysg) gwrthwynebwr gwir bobl Dduw, y genedl bur, a'i fod wedi ei feddiannu gan *ddiafol*, vii. 20. Ysgarent ef yn y dywediad cyntaf oddiwrth gymundeb Israel, ac yn yr ail oddiwrth gymundeb Duw Israel. Gallai mai ystyr y rhan olaf o'r adnod oedd—ei fod wedi gwallgofi, trwy fod wedi cael ei feddiannu gan ddiafol.

Sabboth, Mai 19eg—*(Y rhan olaf o'r Wers am* Hydref 21ain *yn y* Gwerslyfrau Ysgrythyrol: Llyfr II., *tu dal.* 28).

Adn. 49: *Yr Iesu a atebodd, Nid oes genyf gythraul: ond yr wyf fi yn anrhydeddu fy Nhad, ac yr ydych chwithau yn fy nianrhydeddu innau.* Gedy heibio y gwaradwydd o fod yn Samaritan heb sylwi arno: dywed gyda difrifwch tawel: —'Na, nid wedi fy meddiannu gan ddiafol yr ydwyf. Y mae fy holl fywyd a'm hathrawiaeth yn profi hyny. Gogoneddu Duw fy Nhad yr ydwyf trwy y geiriau yr ydych chwi yn eu priodoli i ddylanwad y diafol. A pha beth yr ydych chwi yn ei wneyd? Fy nianrhydeddu I, a thrwy hyny ddianrhydeddu Duw. *Chwi* sydd *o'r diafol*, a minnau *o Ddduw?*'

Adn. 50: *Ac nid wyf fi yn ceisio fy ngogoniant fy hun.* 'Yr ydych chwi yn fy nianrhydeddu I—nid fy mod I yn ceisio fy ngogoniant fy hun,' y gogoniant a berthynai yn gyfreithlon iddo. *Y mae a'i cais, ac a farn.* 'Y mae Un yn cymeryd gofal o'm gogoniant I; a bydd iddo Ef gyhoeddi *barn* rhyngof fi a'm cablwyr,' v. 32, 45. Y mae dwy ochr i'r "farn" hon; ar un llaw, gogoneddiad yr Iesu, trwy yr hwn y cyfiawnheid Ef, xvi. 10; Phil. ii. 9. Ar y llaw arall, cosbediagaeth ei elynion, yr hyn a olygai *farwolaeth* dragywyddol.

Adn. 51: *Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, Os ceidw neb fy ymadrodd i, ni wêl efe farwolaeth yn dragywydd.* Cwyd y dywediad hwn yn naturiol o'r *farn* yn yr adnod o'r blaen. 'Plant y diafol ydych chwi yn awr, a than farn condemniad. Ond dyma i chwi un cynnyg o ras eto. Y mae un ffordd i ddianc rhag y farn, a dim ond un—trwy gadw fy ngair I.' "Gweled marwolaeth" sydd ddulliaith Hebreig am farw, Luc ii. 25. Yr ystyr yw—efe a fydd byw yn dragywydd; bywyd newydd yr Efengyl—y bywyd trwy y Messïah, 2 Tim. i. 10. Mŷn rhai ysgaru yr adnod hon oddiwrth ymddyddan Crist â'i elynion. Ond y mae hyny yn afreidiol ac annaturiol. Y mae yr adnod yn y cysylltiad agosaf â'r hyn sydd o'i blaen yn gystal ag ar ei hol.

Sabbath, Mai 26ain—*(Y rhan gyntaf o'r Wers am* Hydref 28ain *yn y* Gwerslyfrau Ysgrythyrol: Llyfr II., *tu dal.* 29).

"*Gorfoledd oedd gan eich Tad Abraham weled fy nydd I.*"

Adn. 52, 53: *Yna y dywedodd yr Iuddewon wrtho, Yr awrhon y gwyddom fod genyt gythraul.* Tybient hwy mai marwolaeth naturiol a feddyliai Crist yn yr adnod o'r blaen; felly cymerent y fath ddywediad i benderfynu ei fod allan o'i bwyll, fel effaith cael ei feddiannu gan ddiafol. *Bu Abraham farw, a'r prophwydi: ac meddi di, Os ceidw neb fy ymadrodd i, ni archwaetha efe farwolaeth yn dragywydd. Ai mwy wyt ti nag Abraham ein tad ni, yr hwn a fu farw? a'r prophwydi a fuant feirw: pwy yr wyt ti yn dy wneuthur dy hun?* Cymerent ef yn brawf o anmhwylledd—o hunan-ddyrchafiad wedi cyrhaedd gwallgofrwydd—i'r Iesu briodoli i'w air Ef, ac felly iddo Ef ei hunan, fwy o nerth bywyd nag oedd gan Abraham a'r prophwydi, y rhai nis gallasant ddianc rhag marwolaeth. 'Nid wyt *ti* yn sicr yn meddu mwy o allu yn erbyn marwolaeth nag oedd gan Abraham a'r prophwydi? Oni chadwasant hwy eiriau Duw, ac eto buant feirw. A yw dy eiriau di yn fwy na'r rhai hyny?' Sylwa un fod eu balchder crefyddol, yr ymffrost yn eu hynafiaid, yn cael ei uno yma âg esboniad cnawdol, llythyrenol ar eiriau Crist.

Adn. 54: *Yr Iesu a atebodd, Os wyf fi yn fy ngogoneddu fy hun, fy ngogoniant i nid yw ddim.* Cyfiawnhâ ei hun yn wyneb y cyhuddiad o hunan-fawrhâd a awgrymir yn y cwestiwn: "pwy yr wyt ti yn dy wneuthur dy hun?" 'Nid wyf yn fy ngogoneddu fy hun, mewn hunanhoniad cyffelyb i'r eiddo dyn gwag, yr hyn nid yw ddim.' Fel y dywed mewn lle

arall: "Os ydwyf fi yn tystiolaethu am danaf fy hun, nid yw fy nhystiolaeth i wir," v. 31. Dywed mewn lle arall: "Er fy mod I yn tystiolaethu am danaf fy hun, y mae fy nhystiolaeth I yn wir," viii. 14. Wrth y blaenaf golyga, dystiolaeth fel yr eiddo dyn hunanfawrhaus, heb fod neb na dim arall yn cadarnhau y dystiolaeth. Nid un felly oedd yr eiddo ef, fel y gwelir yn y geiriau nesaf. *Fy Nhad yw yr hwn sydd yn fy ngogoneddu i, yr hwn yr ydych chwi yn dywedyd, mai eich Duw chwi yw.* Y mae y rhangymeriad presennol, gyda'r fannod, yn meddu grym sylweddair neu enw (ὁ δοξάζων με), ac yn golygu gwneuthur yr hyn sydd yn arferedig, a pharhaus; nid rhyw fodd neu weithred neillduol, ond trwy holl yrfa y gogoneddu, yn y gweithredoedd a gyflawnwyd, yn y tystiolaethau dwyfol, ac yn ei ogoneddiad terfynol. 'Y Duw hwn, fy Nhad I, yw yr hwn sydd yn fy ngogoneddu I, yr hwn yr ydych chwi yn malchder crefyddol eich cenedl, yn dychymygu mai eich Duw chwi ydyw mewn modd neilldiol.'

Adn. 55: *Ond nid adnabuoch chwi ef: eithr myfi a'i hadwaen ef. Ac os dywedaf nad adwaen ef, myfi a fyddaf debyg i chwi, yn gelwyddog: ond mi a'i hadwaen ef, ac yr wyf yn cadw ei ymadrodd ef.* Er eu honiadau uchel o'u perthynas neilldiol âg Ef fel eu Duw, nid oeddynt yn ei adnabod. Yr oeddynt wedi ffurfio syniadau cyfeiliornus am yr unig wir a bywiol Dduw, yr hwn oedd wedi dadguddio ei hunan i'w tadau o dan yr Hen Destament; ac nid oeddynt hwythau, o herwydd dallineb a chaledrwydd eu calonau, wedi ei adnabod yn y dadguddiad uchaf o hono yn Nghrist. Dyma dystiolaeth o enau Crist ei hunan, mai y *Tad* oedd *Duw Israel* o dan yr Hen Destament. Ond yr oedd Crist yn ei adwaen i sicrwydd, ac yn cadw ei ymadrodd ef. Buasai iddo ef *ganiatâu eu gwadiad* hwy o hyn, sef ei adnabyddiaeth o hono a'i undeb âg Ef, yn gymaint celwydd ynddo Ef, ag oedd eu gwaith yn *cymeryd arnynt* fod yn ei adnabod, ynddynt hwy. Cyferbyniad cryf rhyngddo Ef â hwy, yn eu perthynas â *Duw*, yr hyn oedd gwreiddyn y mater mewn dadl.

Sabboth, Mehefin 2il—(*Y rhan olaf o'r Wers am* Hydref 28ain *yn y* Gwersllyfrau Ysgrythyrol: Llyfr II., *tu dal.* 29).

"*Gorfoledd oedd gan eich tad Abraham weled fy nydd i.*"

Adn. 56: *Gorfoledd oedd gan eich tad Abraham weled fy nydd i.* "Eich tad" —addefa ein Harglwydd eu perthynas allanol âg Abraham yn ol y cnawd; y berthynas ysbrydol oedd yr un a wadai Efe iddynt, adn. 39. Y mae llawer o ysgrifenu wedi bod gan esbonwyr ar yr adnod hon. Rhoddwn y golygiad sydd yn ymddangos i ni y goreu, a'r hwn a amddiffynir gan rai o'r esbonwyr goreu.

1. Y cwestiwn cyntaf yw—Beth oedd testyn "gorfoledd" Abraham, yn ystod ei fywyd ar y ddaear? Yr ateb yw—gweled dydd Crist; tymmor ei ymddangosiad yn y cnawd, y cyfnod mawr newydd yn hanes y prynedigaeth yn yr hwn y cyflawnwyd pob cyfnod blaenorol. "Dydd," nid dyddiau. Nid yw hyn yn golygu dydd penodol ei enedigaeth, fel y dywed rhai esbonwyr (felly Meyer). Gwell genym olygiad Stier fod holl gyfnod ei fywyd yn cael ei alw yn *Ddydd*, am fod Haul Cyfiawnder wedi cyfodi ar y byd, ar ol goleuni egwan ser a lloer am oesoedd.

2. Ymha ystyr yr oedd Abraham yn *gweled* dydd Crist? Y mae dau olygiad ar hyn. (1) Ei weled trwy *ffydd*. Yr oedd ei ffydd gref yn gweled y dydd "o bell," ar draws yr oesoedd, yn ei sylweddoli trwy wneyd y pell yn agos, y dyfodol yn bresennol. Yn ol y golygiad hwn, yr oedd yn ei "weled" yn ystod ei fywyd ar y ddaear, ac yn "gorfoleddu" yn yr olwg arno. Dyma y syniad a rydd y cyfieithiad Cymreig a'r Saesoneg, a'r Cyf. Diwyg. "Gorfoledd" oedd ganddo "weled fy nydd i;" "*rejoiced to see my day.*" Y mae yn sier fod hyn *yn* wir, ond nid *y* gwir. (2.) Credwn mai y golygiad arall yw yr un cywir:—*dysgwyl* ei *weled* yn llythyrenol, bod yn *dyst* o hono. Yn unol â hyn y cyfieitha Alford ac eraill y geiriau *ἵνα ἴδῃ—that he should see.* Ac y mae y Cyf. Diwyg. yn ei roddi ar ymyl y ddalen—"*Or, that he should see.*" Felly,—"Gorfoledd oedd gan eich tad Abraham *y câi efe weled* fy nydd i." Yr oedd y dysgwyliad am gael gweled dydd Crist yn destyn gorfoledd i Abraham yn ystod ei fywyd ar y ddaear.

Ac efe a'i gwelodd hefyd, ac a lawenychodd. Yr oedd yn gorfoleddu yn y dysgwyliad am gael gweled dydd Crist. Ond—a gafodd efe ei weled? Do; "ac efe *a'i* gwelodd hefyd." Pa fodd y gwelodd Abraham ddydd Crist yn yr ystyr lythyrenol hon, ac yntau wedi marw ddwy fil o flynyddoedd cyn i'r dydd ddyfod? Yr ateb yw—*o Baradwys.* Pa fodd eto y "gwelodd" y dydd yn ei ystâd ddedwydd yn Mharadwys? Trwy ddatguddiad Dwyfol, medd Meyer: "Rhaid i ni aros yn foddlon," medd yr esboniwr rhagorol hwn, "ar *hysbysrwydd Dwyfol.*" Ond yr ydym yn cwbl gredu nad yw Meyer yn myned yn ddigon pell. Dadleua Stier gyda grym mawr, ac Al-

ford, fod mwy na hysbysrwydd. "Efe a'i *gwelodd:*" ei weled yn weithredol, bod yn *dyst* o hono. Nis gallwn ddyweyd pa fodd. Cafodd Moses ac Elias weled yr Iesu ar fynydd y gweddnewidiad. Ac onid allasai Abraham fod wedi mwynhâu cymdeithas â Christ yn nyddiau ei gnawd, ar ryw adeg neillduol, ond fod hyny wedi ei gadw yn ddirgel? Yr ydym yn barnu fod llawer iawn o rym yn sylw Stier—fod amseriad (gorphenol) y ferf yn awgrymu adeg benodol, hanesyddol—"ac efe a'i *gwelodd* hefyd, ac *a lawenychodd.*" Y mae ein Harglwydd fel yn sicrhau ei fod Ef ei hun yn dyst o waith Abraham yn ei *weled*, ac yn *llawenychu* wrth fwynhau yn weithredol yr hyn yr oedd efe yn ei fywyd wedi bod yn gorfoleddu yn y dysgwyliad am dano. Un peth sydd yn cadarnhau y golygiad hwn yn fawr yw, ei fod yn cyd-daro â'r dywediad cryf yr oedd efe newydd ei draethu yn adn. 51: "Os ceidw neb fy ymadrodd i, ni wêl efe farwolaeth yn dragywydd." Fel pe dywedasai: 'Cadwodd Abraham fy ymadrodd i, ac ni weloddfarwolaeth. *Y mae Abraham yn fyw!*'

Y mae grym mawr hefyd yn hyn: pe "gweled" trwy ffydd yn unig fuasai testyn y "gorfoledd" yn y rhan gyntaf o'r adnod, paham y chwanegid, "ac efe hefyd a'i gwelodd?" Buasai yn ail-adroddiad ofer a diystyr, tebyg i hyn:—'Gorfoleddodd wrth weled; ac efe a welodd ac a lawenychodd.' Ond mor naturiol yw yn ol y cyfeithiad a'r golygiad arall!—'Gorfoleddai Abraham wrth feddwl y cai weled fy nydd i; ac efe *a'i* gwelodd hefyd.'

Adn. 57: *Yna y dywedodd yr Iuddewon wrtho, Nid wyt ti ddeng mlwydd a deugain eto, ac a welaist ti Abraham?* Cymhwysai yr Iuddewon y geiriau "ac efe hefyd a'i gwelodd ac a lawenychodd" at fywyd daearol Abraham. Felly tybient fod Crist yn rhoddi ar ddeall ei fod Ef yn byw yn nyddiau Abraham, ac yn bersonol gydnabyddus âg ef. Cyfrifid deng mlwydd a deugain fel yr oedran pan y mae dyn yn cyrhaedd ei lawn dŵf a'i nerth: 'Nid wyt ti eto wedi cyrhaedd oedran cyflawn dyndod, ac a wyt ti yn hòni cydnabyddiaeth âg Abraham?' Tynwyd amryw gasgliadau disail oddiwrth y geiriau hyn: megys fod yr Iesu y pryd hwn uwchlaw deugain mlwydd oed; neu fod gofidiau wedi peri iddo edrych yn llawer hynach nag ydoedd. Ond ni buasent yn fanwl am ei oedran wrth ei gymharu â'r ddwy fil o flynyddoedd er amser Abraham.

Adn. 58: *Yr Iesu a ddywedodd wrthynt, Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, Cyn bod Abraham, yr wyf fi.* Ateb i gwestiwn yr Iuddewon. Nid "cyn *bod* Abraham" yw y cyfeithiad goreu, ond "cyn *geni* Abraham." Y mae y Cyf. Diwyg. yn cydnabod hwn fel y cyfeithiad llythyrenol, trwy roddi ar ymyl y ddalen: *Gr. was born.* Felly Erasmus *(nasceretur—sum,* yn gyferbyniol). Diau fod yma gyferbyniad tarawiadol: "Cyn i Abraham *gael ei eni*, yr *wyf* fi" (*γενέσθαι—εἰμί*). Neu, yn ol eraill, "Cyn i Abraham *ddyfod* (i fod, *became)* yr *wyf* fi." *Dyfod* i amser a wnaeth Abraham; y mae Efe yn *bod* cyn amser. Y mae ein Harglwydd yma yn amlwg yn hòni ei rag-hanfodiad, ac felly ei Dduwdod. Nid 'yr *oeddwn,*' ond 'yr *wyf.*' Bodolaeth hanfodol—"*Ydwyf.*" Llefara uwchlaw amser, yn iaith tragywyddoldeb, yn yr hon nid oes ond un *tense*—y presennol.

Adn. 59: *Yna hwy a godasant geryg i'w taflu ato ef.* Golygai yr Iuddewon fod y dywediad olaf o eiddo yr Iesu yn gabledd, megys yn x. 33: "Am dy fod di, a thithau yn ddyn, yn dy wneuthur dy hun yn Dduw." Felly, yn eu zel benboeth, elent i weinyddu y gosb o labyddio. Y mae yn debyg eu bod yn nghyntedd allanol y deml; a dywed Josephus fod adeiladiad y deml yn myned ymlaen yn amser Crist. Felly yr oedd digonedd o geryg wrth law. Sylwa un "fod ceryg â'r rhai yr oeddynt yn adeiladu y deml weledig yn cael eu taflu at gongl-faen yr Hen Oruchwyliaeth a'r Newydd!"

Nis gallent ateb ei resymau, am hyny y maent yn taflu ceryg ato. Hen arfer dynolryw, pan yn cael eu gorchfygu â rheswm, yw troi *i ymresymu â cheryg.* Os nad oes rhesymau wrth law, y mae *ceryg* wrth law. Gall rhesymeg ceryg ddystewi y tyst, ond nis gall ddystewi ei dystiolaeth. *A'r Iesu a ymguddiodd, ac a aeth allan o'r deml, gan fyned trwy eu canol hwynt: ac felly yr aeth efe heibio.* Y mae dwy farn am yr "ymguddio" hwn. Barna rhai esbonwyr nad oedd dim gwyrthiol ynddo. Dywed Meyer ei fod wedi "myned allan," a hyny trwy "ymguddio." Y mae yn anhawdd deall pa fodd y gallasai hyny fod trwy foddion naturiol, pan yr oedd cynifer o bobl o'i amgylch. Gwell genym y golygiad arall, ei fod wedi *cuddio ei hunan* yn wyrthiol am y fynyd, fel ag i fyned allan o'u gafael, fel Luc iv. 30. Esbonia rhai, megys Baur, y diflaniad hwn, yn unol â thyb y *Docetiaid* mai ymddangosiadol oedd dynoliaeth Crist. Nid oes eisieu gwrthbrofi tyb mor wrthun. Gwelir yma fel yr oedd y rhwyg rhwng yr Iesu a'r Iuddewon yn cynnyddu, fel yr oedd y diwedd yn nesâu. Dyna oedd hwnw: "a Thywysog y bywyd a laddasoch."

Hanesion a Darnau Detholedig.

HANES YR ACHOS CYMREIG YN DUBLIN O'R DECHREUAD HYD YN AWR,

Gan y Parch. JOHN OWEN, *Cenadwr.*

III.

YN ol a ellir gasglu, annyben yr oedd y casgliad at Gapel Dublin yn dyfod i law, er iddo gael cychwyniad da a zelog yn Nghaergybi; fel y bu cryn oediad cyn dechreu adeiladu. Y mae yn amlwg i ni fod cymydogaeth yr Eglwys Isellmynaidd yn myned yn rhy isel i'r Cymry gydymgynnull ynddi; ac heblaw hyn, yr ydym yn cael i erledigaeth dost gyfodi. Pa un ai o herwydd cenedl, gwleidyddiaeth, ynte crefydd y cyfododd, nid ydym yn gallu bod yn sicr; ond tueddir ni i gredu fod rhyw gymaint o'r naill a'r llall ynddi, ac yr oedd y wlad ar y pryd mewn cynhwrf. Ond pa fodd bynag, bu y Parch R. Williams dan erledigaeth, ac mewn perygl am ei fywyd ragor nag unwaith. Pan yn dyfod o'r addoliad un noswaith, amgylchynwyd ef gan y *mob;* gwnaed oernadau, lluchiwyd pethau aflan ato, ac yr oeddys yn parotoi i wneyd ymosodiad brwnt arno. Edrychai yntau yn dawel a siriol, ac ni ddywedai air yn eu herbyn, yr hyn a gynhyrfodd deimladau y talaf a'r cryfaf yn y dorf, a gallwn feddwl, yr un mwyaf mileinig ynddi hefyd, a llefodd, "Os oeddynt yn meddwl ymosod, am iddynt ymosod arno ef." Ac ar hyn bu cynhwrf mawr, ac yn y cynhwrf diangodd Mr. Williams yn dawel o'u canol heb dderbyn yr un niwed. Ond ni ddaeth yr erledigaeth i derfyniad y pryd hwn, eithr y mae pethau yn myned waeth-waeth, fel y mae yn rhaid cael amddiffyniad yr heddgeidwaid. Nis gallai fyned allan o'i dŷ heb i heddgeidwad fod yn ei wylio, ac am amser maith byddai dau heddgeidwad yn myned i'w gyrchu i'r addoliad, ac yn ei hebrwng adref ddwy filldir o ffordd. Fel y mae yr amgylchiadau yna yn rhoddi y Cymry dan anghenrhaid i roddi y lle yr oeddynt yn addoli ynddo i fyny, a hyny yn gynnar yn y flwyddyn 1837; a chawn iddynt fod yn symud o fan i fan hyd nes y cafwyd y Capel presennol. Pa le ydoedd y manau hyny, nis gallwn erbyn hyn fod yn sicr; ond clywsom rai morwyr oedranus yn dyweyd iddynt, pan yn ieuainc, fod mewn dwy ystafell wahanol, ar yr ochr ddeheuol i'r Liffey, ac un o honynt yn oruwchystafell ddigon anhylaw. Ond am y chwech neu y naw mis diweddaf cafwyd ysgoldŷ cyfleus yn Gardiner Street, dan ardreth, ac yma y buwyd yn addoli hyd nes cael y Capel.

Yn niwedd y flwyddyn 1837, neu ddechreu y flwyddyn 1838, cawn Mr. Roberts, *currier*, diacon yn Hyfrydle, Caergybi, yn dyfod drosodd (a diau fod eraill i'w ganlyn, er ein bod wedi methu, er gohebu llawer, a chael allan pwy oeddynt), i sicrhau tir at adeiladu y capel, &c.; ac ar y dydd cyntaf o fis Mawrth 1838, y mae y gareg sylfaen yn cael ei gosod, a hyny yn gwbl ddiseremoni. Ar yr wythfed dydd o Awst, 1838, y mae y weithred yn cael ei thynu allan, i barhau am 999 o flynyddoedd, yn ol yr ardreth o £10 yn y flwyddyn. A chawn fod y tir yn cael ei osod yn rhatach at adeiladu addoldy nag y buasai i un amcan arall, a bod y perchenogion wedi cyfranu £15 ato. Enwau yr ymddiriedolwyr oeddynt:—Y Parchn. David Elias, Pentraeth; Robert Hughes, Gaerwen; Ebenezer Davies, Llanerchymedd; Hugh Charles, Ty Mawr; Mri. Owen Hughes; Edward Edwards, Caergybi; John Roberts, Caergybi; Richard Jones, Caergybi; a William Thomas. Hwyrach y teimlir dyddordeb mewn blynyddoedd i ddyfod, trwy roddi y rhestr uchod yn y DRYSORFA i'w chadw. Y mae yn amlwg fod y gwaith o adeiladu yn cael ei gario ymlaen yn brysur, o herwydd cawn fod y lle yn barod i bregethu ynddo ar ddechreu mis Tachwedd; a'r un bregethodd gyntaf ynddo, gallwn feddwl, ydoedd Capt. W. Evans, Milford, yr hwn hefyd a bregethai y Sabboth blaenorol yn Ysgoldy Gardiner Street. Ond Tachwedd 11, 1838, yr agorwyd ef yn ffurfiol. Yn y DRYSORFA am Ionawr 1839, cawn hanes ei agoriad, gan y Parch. R. Williams: "pryd y pregethwyd am hanner awr wedi naw yn y boreu, gan y Parch. C. Williams, Penceint, oddiar Esaiah vi. 1; am ddeuddeg, gan y Parch. W. H. Cooper, gweinidog gyda'r Annibynwyr ar y pryd yn y ddinas, oddiar Zechariah viii. 23; am hanner awr wedi dau, gan y Parch. W. Roberts, Amlwch, oddiar Jeremiah xiii. 16; ac am hanner awr wedi chwech, gan y Parch. W. Roberts, oddiar Ioan xiv. 6; a'r Parch. C. Williams, oddiar Psalm xxv. 11. Nos Lun cynnaliwyd Cyfarfod Dirwestol, yn yr hwn yr areithiodd y Parchedigion C. Williams a W. Roberts, Capt. Evan Lloyd, a Mr. John Roberts, Caergybi. Nifer aelodau y gymdeithas werth-

fawr hon yn ein plith yw 50. Nos Fawrth, pregethodd y Parch. C. Williams, oddiar Matthew v. 9, a'r Parch. W. Roberts, oddiar Actau iv. 11, 12. Nos Fercher cafwyd presennoldeb a chymhorth y brodyr dyeithr mewn cyfarfod eglwysig, ac yna boreu dydd Iau ymadawsant oddiwrthym. Cafodd y pregethwyr y fath gymhorth i lefaru, a'r bobl y fath flas ar wrando, fel y bydd y rhai oedd yn bresennol, yn melus gofio y cyfarfod hwn am hir amser."

Dyna hanes agoriad ffurfiol Capel Cymreig Dublin, a galwyd ei enw ef yn *Bethel*. Mesura o fewn i'r muriau 40 wrth 27 o droedfeddi. O ran ei olwg allanol y mae yn gwbl yr un a'r unrhyw a chapelau Cymru yn y cyfnod hwnw; wedi ei adeiladu o briddfeini, a gwenithfaen naddedig yn ei gornelau, y drws wrth gwrs yn ei *front*, a ffenestr fawr i fyny, a dwy o ffug-ffenestri i lawr, a thair yn ei ochr, yr ochr arall heb yr un. Ond oddimewn yr oedd yn dra gwahanol i'r un a welsom, nac y clywsom erioed son am dano. Yr oedd yn cael ei ranu yn ddwy ran, gan lwybr o'r drws i'r sedd fawr, eisteddleoedd â drysau arnynt ar un llaw, ac o bob tu i'r pulpud; ac ar y llaw arall eisteddleoedd heb ddrysau, ac yn y rhai yr oedd dau gafn bob un, a blawd llif yn hwnw (ni raid i ni fynegu i'n darllenwyr i ba bwrpas yr oedd y rhai hyny). Eisteddai y merched yn yr eisteddleoedd ar aswy y pregethwr, ar ba rai yr oedd drysau, ac eisteddai y meibion ar ei ddeheulaw. Yr oedd y pulpud yn uchel anghyffredin, mor uchel fel nad oedd ond gobaith gwan i'r neb a eisteddai yn y sêdd fawr gael golwg ar y pregethwr. Ond yr oedd cael capel Cymreig yn Dublin yn fater o lawenydd mawr i'r ychydig ffyddloniaid oedd yma ar y pryd; a chasglwyd ganddynt ar ddiwrnod ei agoriad £24 3s. 3½c.; ac yr oeddynt wedi casglu £110 yn flaenorol. Traul adeiladu y capel oedd £500. Nifer yr eglwys ar ei dyfodiad i'r capel newydd ydoedd 18; a chan fod yr eglwys yn Dublin yr unig eglwys Gymreig yn yr Iwerddon, er dechreuad y byd, am a wyddom, hwyrach mai nid annyddorol fyddai dodi yma enwau yr aelodau cyntaf, ar eu dyfodiad i'r capel Cymreig cyntaf yn yr Iwerddon. Er nad ydym wedi gallu gwybod ond ychydig am yr un o honynt, ac amryw na wyddom ddim am danynt, eto hwyrach y bydd rhai o ddarllenwyr y Drysorfa yn gallu olrhain eu cysylltiadau â hwynt, ac yn falch o ddeall hyn o berthynas iddynt. A dyma yr enwau:—

Y Parch. R. Williams a'i wraig.
Thomas Humphreys a'i wraig.
Richard Jones, Dawson Street.
David Thomas.
Mrs. M'Carthey.
Elizabeth Jones, Frederick Street.
Ann Evans, Hotel.
Elizabeth Williams, Fitzwilliam Place.
Hannah Thomas.
Elizabeth Evans, Dominick Street.
Catherine Owen.
Mary Hughes, Harcourt Street.
Elizabeth Williams, Hotel.
Mary Price.
Ellen Hughes, Club House.
Phœbe Lewis.

Gwelwn wrth hyn mai pedwar o feibion oedd yn aelodau o'r eglwys ar y pryd, sef y gweinidog, Mr. Williams; Mri. Humphreys a Jones, y rhai a wasanaethasant fel trysorydd ac ysgrifenydd, a Mr. David Thomas, yr hwn, yn ol y cawsom ar ddeall, a gymerai y rhan fwyaf cyhoeddus o'r tri. Am Jones a Thomas ni wyddom ragor yn eu cylch, ond fod yn amlwg eu bod yn ffyddlawn a gweithgar gydag achos yr Arglwydd. Am Mr. Humphreys, efe ydoedd tad Mr. T. J. Humphreys, adeiladydd, Bangor, yr hwn, os nad ydym yn camgymeryd, sydd erbyn hyn yn ddiacon yn y Tabernacl, Bangor, a mab iddo hefyd yn ymbarotoi ar gyfer myned yn genadwr at y Paganiaid. Y mae yn gofus genym glywed y Parch. W. Roberts, Amlwch, yn dyweyd unwaith, pan yn sylwi nad oedd crefydd o waed; "Ond," meddai, "pan y mae yn cydio gafael mewn gwaed, nid buan y mae yn gollwng gafael o hono." Ac felly y mae yn ymddangos i ni yn yr amgylchiad hwn. Trwy garedigrwydd Mr. Humphreys, Bangor, cawsom lyfrau cyntaf yr eglwys ar ei sefydliad yn y capel newydd, hyd derfyn y flwyddyn 1844; ac nid oedd dim yn ein taraw yn fwy ynddynt na'r cysondeb a'r ffyddlondeb a nodweddai ei dad. Ond cawn achlysur i sylwi ar hyn eto. Ni byddai yn ddoeth i ni ddyfynu llawer o'r llyfrau hyn. Ond gallwn nodi dau neu dri o bethau oedd yn ein taraw; a dyna y peth cyntaf, cysondeb, ffyddlondeb, a zel yr aelodau cyntaf. Nid oedd bwlch yn eu casgliadau misol at y weinidogaeth, nac yn eu taliadau am yr eisteddleoedd. Peth arall, mai tair ceiniog, a phryd arall pum' ceiniog, oedd traul "Elfenau Swper yr Arglwydd." Gallwn dybio fod yr ordinhad yn cael ei gweinyddu yn fisol, o herwydd ymlaen cawn y treuliadau yn swllt a chwe' cheiniog bob tri mis; ar y pryd hyn, ac am flynyddoedd ar ol hyn, llestri pridd oedd llestri y cymundeb. Peth arall, ac yn wir y peth yr oeddym

yn rhyfeddu mwyaf ato, yn wyneb yr hyn yr ydym wedi ei ddyweyd eisoes am eu ffyddlondeb a'u zel, ydyw y cofnodion a wneir o berthynas i arian drwg. Ar sylfaeniad yr Achos yr oedd y gweinidogion fyddai yn llafurio yma yn cael eu cydnabod trwy Gyfarfod Misol Môn. Ac felly y mae hyd heddyw, ond y Sabboth cyntaf yn y mis. Can belled ag yr ydym yn deall, y gwŷr da a wasanaethai dros y Cyfarfod Misol oeddynt, yr ysgrifenydd, Mr. John Williams, Fron Goch, y pryd hyny; a'r trysorydd, Mr. J. Roberts, *Currier*, Caergybi; a byddai gweddill y casgliadau, ar ol talu y treuliadau allanol, yn cael eu hanfon yn chwarterol i'r trysorydd. Ond wedi gwneyd y cyfrif chwarterol i fyny, cawn, 'Yn y *drawer* tri a chwech o arian drwg;' bryd arall, 'pedwar a chwech o arian drwg;' ac mewn un man ceir, 'derbyniwyd tair a ffyrling am dri a phump o arian drwg,' &c. Yr oeddym ar y cyntaf yn methu cael un cyfrif i'w roddi am hyn; ond erbyn hyn credwn ein bod wedi cael allan y dirgelwch, sef mai nid arian drwg yn briodol oeddynt, ond arian nad oeddynt ar y pryd mewn cylchrediad, ac nad ydynt eto wedi darfod o'r tir. Adnabyddir hwy fel "Arian yr Iwerddon," a'r Sabbath ddiweddaf o'r flwyddyn ddiweddaf fe ddisgynodd dimai o honynt i'r casgliad, yr hon sydd yn awr yn ein meddiant. Y mae un wyneb iddi yn debyg os nad yn gwbl yr un fath a'r dernyn aur a adnabyddir wrth yr enw, "Gini pen rhaw;" ac ar y wyneb arall y mae delw o St. Patrick, nawddsant y Gwyddel, gyda'i feitr ar ei ben, a'i ffon fugeiliol yn ei law. Y mae eu banes fel y canlyn:—Yn y flwyddyn 1689 y mae bathdŷ yn cael eu osod i fyny yn Dublin trwy orchymyn y brenin James yr Ail, er bathu o'i math salaf o bres, hen ynau, a gweddillion meteloedd, wedi eu cyd-doddi, fel nad oedd gwerth punt o'r arian yma mewn gwirionedd yn werth dwy geiniog, ac fe fathwyd o'r rhai hyn y swm dirfawr o £1,596,799 0s. 6c., ac fe'u gwasgarwyd ar hyd a lled y wlad yn brysur. Yn y flwyddyn 1690, yn wyneb nad oedd y rhai yna yn cyfarfod âg anghen y brenin, y mae yn rhoi gorchymyn eilwaith am i ddarnau *pewter* gael eu bathu. Ond y mae llwyddiant y brenin William III. yn attal cylchrediad y rhai hyn; ond yr oedd y rhai cyntaf oll wedi eu gwasgaru. Y mae yr eglurhad hwn, gallwn feddwl, yn ddigon er symud ymaith bob argraff ddrwg a allai neb ei dderbyn trwy sylwi ar y llyfrau hyn.

LLYTHYR GAN Y DIWEDDAR BARCH. HENRY REES.

[Cawsom ganiatâd i roddi y Llythyr rhagorol hwn yn y DRYSORFA, trwy garedigrwydd y Parch. Dr. Thomas, a D. P. Davies, Ysw., Ty'nycoed, Llandudno. Ysgrifenwyd ef gan Mr. Rees at Mr. a Mrs. Henry Williams, Breck Road, Liverpool (rhieni Mrs. Davies) ar yr achlysur o farwolaeth eu mhab. Gwêl y darllenydd ynddo wir ddelw y gŵr mawr hwnw i Dduw, yn y tynerwch a'r eneiniad efengylaidd â pha un y mae yn dyddanu y teulu trallodedig ar un llaw; ac ar y llaw arall, yn y manylder ffyddlon, a'r dwysder ysbrydol â pha un y mae yn cyfeirio eu sylw at ystyr a dyben goruchwyliaethau yr Arglwydd tuag at ei bobl. Y mae y llythyr hwn yn gynllun o luaws o rai cyffelyb sydd i ymddangos yn NGHOFIANT y Parch. HENRY REES, yr hwn, y mae yn dda genym hysbysu, sydd bellach wedi ei orphen dan olygiad y Parch. Dr. THOMAS, ac a fydd yn ddiammeu yn gôf-golofn deilwng o enwogrwydd gwrthddrych ac awdwr y cofiant. —GOL.]

Menai Bridge, June 27, 1861.

ANWYL GYFEILLION,—

Clywais pan yn Dolgelley ddarfod i chwi gladdu eich unig fab! a meddyliais am anfon gair atoch o'm cydymdeimlad â chwi yn y brofedigaeth hono. Ond yr wyf wedi bod bron o hyny hyd yn awr mewn Cyfarfodydd Pregethu: ac yr ydwyf hefyd yn dyoddef cryn dipyn oddiwrth *rheumatism* yn fy mraich, a'm llaw ddehau; yr hyn sydd yn gwneuthur ysgrifenu yn lled boenus i mi.

O na allem gredu ein marwoldeb! Rhyfedd mor frau ydyw edau bywyd, wrth yr hon yr ydym yn crogi bob mynydyn uwchben y tragywyddoldeb mawr. Ac er gwybod hyn, a gweled yr edau yma yn tori o hyd, ac yn gollwng rhyw rai neu gilydd, o'n perthynasau a'n cyfeillion, i'r byd digyfnewid a thragywyddol; rhyfedd mor hwyrfrydig ydym i gredu na wyddom na'r dydd na'r awr y daw Mab y dyn!

Yr wyf fi wedi meddwl tipyn heddyw, am oruchwyliaethau y Duw mawr tuag atoch chwi fel teulu. Pan gofiwyf am farwolaeth eich mab hynaf, y cystuddiau trymion a gawsoch chwithau eich dau yn ganlynol i hyny,—ynghyd a'r ymweliad diweddaf hwn: Yn wir mi a dybiwn y gellwch ddywedyd fel Job:—"Gwna i mi wybod paham yr ymrysoni â mi." Cofiwch, fy nghyfeillion, nad damweiniau ydyw y pethau a gyfarfu â chwi: ond "ei weision ef yw pob peth;" ac y maent yn dyfod ar neges eu Meistr. Ac os cewch chwithau galonau i holi eich hunain yn onest ger bron Duw, odid fawr na ddaw eich cydwybodau i dystiolaethu i chwi "pa beth a gais yr Arglwydd genych," drwy yr ymweliadau hyn. Pa beth a fynai i chwi ei adael, a pha beth

i'w wneyd. Os cewch chwi fod y goruchwyliaethau hyn yn cael eu hanfon arnoch, i'ch profi a'ch puro yn unig—byddwch ddiolchgar. Neu, os cewch chwi fod yr Arglwydd trwyddynt yn barnu agweddau eich ysbryd, ac yn ceryddu am yr hyn sydd o'i le ynddynt: nac ymollyngwch pan eich argyhoedder ganddo; ond ymostyngwch dan ei alluog law, canys y mae trugaredd, prynedigaeth, a maddeuant gyda Duw.

Mi a ddychymygwn glywed teulu bychan y Breck, yn galw ar eu gilydd, yn eu hiraeth a'u trallod presennol, yn debyg i hen deulu Duw mewn cystuddiau. O! mor dduwiol, a dymunol, y mae eu geiriau yn swnio!

Wherefore doth a living man complain, a man for the punishment of his sins? Let us search and try our ways, and turn again to the Lord: Let us lift up our heart with our hands unto God in the heavens. We have transgressed and have rebelled: thou hast not pardoned. For the Lord will not cast off for ever: But though he cause grief, yet will he have compassion according to the multitude of his mercies: Lam. iii. 39—42.*

O! fy nghyfeillion, ai dyma leferydd eich ysbryd chwi, ger bron yr Arglwydd, yn awr? Os felly, yr ydych ar y ffordd i sancteiddrwydd a chysur. Yn fuan byddwch yn abl i ddyweyd fel Dafydd: "Er nad yw fy nhŷ i felly gyda Duw; eto cyfammod tragywyddol a wnaeth efe â mi, wedi ei luniaethu yn hollol ac yn sicr: canys fy holl iachawdwriaeth, a'm holl ddymuniad yw, er nad yw yn peri iddo flaguro." Mae genych un marworyn eto ar eich aelwyd; yr hwn, gobeithiaf, a geidw Duw i chwi heb ei ddiffoddi. Mae Miss Williams eto yn aros; ac ynddi hi, gellwch fyw, a hyderaf y cewch fyw i weled eich *tŷ yn blaguro* drachefn. Ond pa beth a ddywedaf yn niwedd hyn o lythyr wrthi hi? Y mae bellach wedi eu gadael yn unig. Duw wedi ei diosg hi o hen gysylltiadau ei mebyd, ac yn gofyn iddi heddyw, megys oddiar feddrod ei brodyr:—"*Wilt thou not from this time cry unto me, My father, thou art the guide of my youth!*" Jer. iii. 4. Mi a ddychymygwn, pan y mae y fath gwestiwn yn cael ei ofyn i Gristion ieuanc, yr hon, gobeithiaf, a brofodd yr Arglwydd yn dirion wrthi eisoes, yn ei hiraeth a'i thrallod—mi ddychymygwn, meddaf, mai yr atebiad iddo ydyw, ac a ddylai fod: "*Because he hath inclined his ear unto me, therefore will I call upon him as long as I live:*" *Psalm* cxvi. 2.

Ar fod i'r Arglwydd grasol selio addysg i'ch meddyliau, eich sancteiddio, a'ch dyddanu, yn a thrwy eich trallodion a'ch hiraeth, yw gwir ddymuniad—

Eich ufudd was,
Yn yr efengyl,
HENRY REES.

Mae fy ngwraig yn cofio atoch oll.

* Y mae yn debyg fod Mr. Rees wedi rhoddi yr adnodau yn Saesoneg er mwyn Miss Williams, y pryd hwnw yn ferch ieuanc, ac wedi ei dwyn i fyny yn Liverpool.

HANESYNAU AM WHITFIELD.

II.

EI FFYDD A'I HAELIONI.

TRA yr oedd y Parch. George Whitfield yn pregethu ar un adeg yn Plymouth, lletŷai gyda Mr. Kinsman, gweinidog yn y dref. Ar ol boreufwyd ddydd Llun, dywedai wrth ei gyfaill: "Dowch, gadewch i ni ymweled â rhai o'ch pobl dlodion. Nid yw yn ddigon i ni lafurio yn y pwlpud; rhaid i ni geisio bod yn ddefnyddiol allan o hono hefyd." Ar hyny, aethant allan i ymweled â'r cystuddiol a'r profedigaethus, ac i weini i gyfreidiau yr anghenus. Gofalai Whitfield nid yn unig am eu hanghenion ysbrydol, ond hefyd am eu hanghenion tymmorol. Gwyddai Mr. Kinsman nad oedd ganddo ond ychydig iawn o arian y pryd hwnw. Synai at ei haelioni, ac anturiodd ddyweyd wrtho ei fod ef yn meddwl ei fod yn rhy hael. Edrychodd Mr. Whitfield arno yn ddifrifol iawn, a dywedodd: "Fy mrawd, nid yw yn ddigon i ni weddio, a gwneyd gwyneb difrifol. 'Crefydd bur a dihalogedig ger bron Duw a'r Tad yw hyn: ymweled â'r amddifaid a'r gwragedd gweddwon yn eu hadfyd, a'i gadw ei hun yn ddifrycheulyd oddiwrth y byd." Y mae yn wir fod fy ystôr I bron a rhedeg i'r pen; ond y mae yn ddiammeu genyf y gwna y Duw yr wyf yn ei wasanaethu, a saint yr hwn a gynnorthwyais, roddi i mi yn fuan gyflenwad." "Rhyw un a wasgar ei dda," medd y gŵr doeth, "ac fe a chwanegir iddo; ac un arall a arbed fwy nag a weddai ac a syrth i dlodi." Felly y bu yn yr amgylchiad hwn.

Cafodd gobeithion Whitfield eu sylweddoli yn fuan. Gyda'r hwyr y diwrnod hwnw, galwodd gŵr dyeithr gydag ef; ac wrth gyflwyno ei hunan i'w sylw, dywedai, "Bûm yn eich gwrando yn pregethu gyda hyfrydwch mawr. Yr ydych chwi fel finnau ar daith, ac y mae teithio yn gostus. Gwnewch yr anrhydedd â mi o

dderbyn hyn," gan ar yr un pryd roddi yn ei law bum' gini. Aeth Whitfield yn ol at deulu y tŷ, a dywedai gan ddal yr arian yn ei law: "Dyna i chwi, ŵr ieuanc, y mae Duw wedi talu yn ol yn fuan yr hyn a roddais I. Gadewch i hyn eich dysgu rhagllaw i beidio attal yr hyn y mae ar eich llaw i'w roddi. Yr oedd y gŵr boneddig a alwodd gyda mi yn berffaith ddyeithr i mi, a'i unig neges oedd rhoddi i mi y swm yma o arian."

Yr hyn oedd yn gwneyd y tro yn fwy hynod oedd—ar ol cael allan pwy oedd y gŵr boneddig, deallwyd fod y cyfryw weithredoedd yn bethau dyeithr iddo. Yr oedd ei duedd yn hollol i'r gwrthwyneb, yn llaw-gauad a chybyddlyd. Adnabyddid ef fel y cyfryw. Ond y mae yr Arglwydd eto yn gallu gwneyd i'r cigfrain borthi ei brophwydi Ef.

ATEB PAROD.

Pan gyrhaeddodd Whitfield Boston, cyfarfyddodd wrth gerdded hyd yr heolydd, â gŵr lled enwog a dysgedig, yr hwn oedd yn dra rhagfarnllyd yn ei erbyn, ac hyd yn nod yn teimlo gelyniaeth ato. Adnabyddodd ef yn y fan, a dywedai, "Y mae yn ddrwg genyf eich gweled yma." Atebodd Whitfield ef: "Felly y mae gan y diafol."

Barddoniaeth.

MYFYRDOD WRTH HENEIDDIO.

O Arglwydd Dduw, tosturia,
Gofala am dy waith,
'R wy 'n ymyl fy hen ddyddiau
Yn ofni pen y daith;
O'm blaen mae afon angau,
A rhaid ei chroesi 'n wir;
O! cuddia fy mhechodau
Yn dy gyfiawnder pur!

Fe welodd Abram ffyddlawn
O ben Moriah draw,
Ei Brynwr yn yr afon
A'i achos yn ei law;
Canfyddodd yn y cysgod
Y Sylwedd mawr ei hun,
A'r drefn i faddeu pechod
Yn haeddiant Mab y Dyn.

Mae afon yr Iorddonen
Yn ddofn iawn i mi,
I feddwl croesi f' hunan,
Heb gymhorth yn ei lli';
Ei hymchwydd sydd yn chwyddo
Yn fwy wrth fyned draw,
A theimlo mod yn myned
I'w chroesi i'r byd a ddaw.

O na b'ai modd im' hedeg
Oddi yma i dŷ fy Nhad!
Neu rodio megys Enoch
I fewn i'r Ganaan wlad;
Ond hyn nis gallaf ddysgwyl,
Na 'i chwennych pe b'ai 'n iawn,
Trwy farw 'r aeth fy Ngheidwad
Ar groesbren un prydnawn!

Yr ochor draw i'r afon,
Caf weled teulu 'r ffydd,
"Oll yn eu gynau gwynion,"
Oll wedi cario 'r dydd;
Af finau 'n mlaen dan ganu
O fewn ei gynhes gôl,
Caf adael afon angeu
A marw o'r tu ol!

D. Roberts.

Orient Street, Liverpool.

TYMMORAU Y FLWYDDYN.

Trefn fawr y Rhod. Mor gyson ei thymmorau,—
Heb wall na diffyg yn yr un o'i chamrau.
Rhyw ryfedd gylch! Dim ond daioni Dwyfol,
A ddaw i'r golwg yn ei thro gwastadol.

Y GWANWYN.

Y Gwanwyn hyfryd ddaw i adnewyddu,
A'i anadl fwyn, y bywyd fu yn llechu
Rhag oerni 'r gauaf, gyda'i stormydd cryfion,
A thyr yn genllif dros y meusydd gwyrddion.
Yr hwsmon, gyda 'i wedd, a dŷn ei gwysau
Ar hyd ei feusydd llydain; teifl yr hadau;
A'r ôg a'u cladd o dan y gwys o'r golwg,
I adgyfodi eilchwyl yn fwy amlwg.

YR HAF.

Di-gwmwl yw yr awyr las: a'r huan
A luchia ei belydrau tanllyd allan.
Ei wres a bair i'r gwanwyn gwyrdd ymgilio,
A gad ei ddelw ar yr oll a welo.
Yr ednog gôr o fysg y dail ymbynciant,
Y defaid ar y bryniau a ymbranciant.
Ymdreiddia ffrwd o fywyd trwy holl natur,
A dyn sy 'n dechreu gwel'd o ffrwyth ei lafur.

Y CYNHAUAF.

O hardded yw y fiwyddyn dan ei choron,—
Tywysen lawn,—a'r meusydd ŷd yn wŷnion;—
Yn barod, ar ol llafur maith a phryder,
I'r cryman llym. Cynhauaf yn ei lawnder,
Yw llawn ad-daliad i r amaethwr ffyddlon,
Am lafur blwyddyn gron, a gofal calon.
A gwelir gwlad, ar ol diddosi 'r cyfan,
Yn talu diolch i Reolwr anian.

Y GAUAF.

Ond daw y gauaf gyda 'i 'stormydd geirwon;
Ei niwl, ei wlaw, ei rew, a'i wyntoedd oerion.
Mor ddu a phruddaidd ydyw y ffurfafen,
A'r cwmwl tew orchuddia wedd yr haulwen.
Y dail gwympasant, peidiodd cân yr adar,
A'r eira gwŷn sy 'n fantell tros y ddaear.
Rhyw dymmor yw i natur gadw noswyl,
Er ennill nerth i fyw mewn gwanwyn eilchwyl.

Nid yw 'r Tymmorau ond rhyw arddangosiad
O law yr Hwn sydd yn gofalu 'n wastad
Am anghen dyn, a phobpeth ddysgwyl wrtho:
Daioni pur, yn hael, estynir ganddo.

John Edwards.

Seacombe

Newyddion Cyfundebol.

Y CYFARFODYDD MISOL.

Yn Nghyfarfod Misol Sir Benfro, a gynnaliwyd yn Gosen, Mawrth 5 a'r 6ed, awgrymwyd y dymunoldeb ar fod i bob eglwys yn y Sir weled fod y llyfrau yn cael eu harchwilio a'u harwyddo ar ddiwedd pob blwyddyn. Hefyd, y dymunoldeb i benau teuluoedd wneuthur eu goreu i feithrin y gras o gyfranu yn y plant; ac yn lle rhoddi swm dros y teulu, eu bod i gyfranu ychydig ar gyfer pob un yn y teulu ag sydd yn gyflawn aelod.

Yn Nghyfarfod Misol Sir Gaerfyrddin, a gynnaliwyd yn Nantcaredig, Mawrth 13 a'r 14eg, penodwyd y Parch. John Evans, Hendre, i bregethu ar y pwnc o "Rwymedigaeth yr eglwysi i wrthsefyll arferion anfoesol a llygredig yr oes."

Yn Nghyfarfod Misol Trefaldwyn Isaf, a gynnaliwyd yn Amwythig, Mawrth 15fed, darllenwyd llythyr oddiwrth y Parch. Robert Davies, Amwythig, yr hwn sydd er's amryw wythnosau mewn afiechyd trwm, yn dadgan ei ofid am nas gallai fod yn bresennol, ac yn anfon ei gofion mwyaf caredig a serchog at ei frodyr yn y Cyfarfod Misol. Penodwyd y Parch. Edward Griffiths, Meifod, a Mr. Evan Thomas, Birmingham, i ymweled âg ef, ac i gyflwyno cofion cynhes y Cyfarfod ato, a'i gydymdeimlad âg ef yn ei gystudd. Penodwyd pwyllgor hefyd i ddwyn oddiamgylch ddangosiad mwy sylweddol o gydymdeimlad ei frodyr âg ef, a'u gwerthfawrogiad o'i wasanaeth, yn y ffurf o Dysteb—y Parch. W. D. Lewis, D.D., i fod yn drysorydd, a Mr. Joseph Owen, Kingsland Schools, Amwythig, yn ysgrifenydd. Pasiwyd penderfyniadau i sefydlu Pwyllgor Dirwestol, ac o blaid cael Llyfr Tonau newydd, ac hefyd o blaid cynllun y Gronfa Fenthyciol. Darllenwyd adroddiad y pwyllgor oedd wedi ei benodi i ddewis materion Cyfarfodydd Eglwysig y Cyfarfod Misol am y flwyddyn, er ymdrechu cyfodi y Cyfarfod hwn i fwy o effeithiolrwydd.

Yn Nghyfarfod Misol Sir Fflint, a gynnaliwyd yn Pentre Cerni, Mawrth 25 a'r 26ain, penderfynwyd nad oedd aeddfedrwydd i symud ymlaen tuag at gael Llyfr Tonau newydd. Cymeradwywyd egwyddor y Gronfa Fenthyciol, a'r rheolau, gydag un neu ddau o gyfnewidiadau. Pasiwyd penderfyniad i'w anfon i'r Llywodraeth ac i'r Aelodau Seneddol dros Gymru yn sicrhau fod Mesur Cau y Tafarnau ar y Sabboth wedi bod yn llwyddiant mawr yn Nghymru.

Yn Nghyfarfod Misol Dehau Aberteifi, a gynnaliwyd yn Nhregaron, Mawrth 20 a 21ain, pasiwyd cyffelyb benderfyniad o barth Mesur Cau y Tafarnau yn Nghymru, a chymeradwyaeth o Fesur Mr. Bowen Rowlands, A.S., o blaid Dewisiad Lleol. Pasiwyd penderfyniad o wrthdystiad yn erbyn cyhuddiad y Barnwr Syr W. Grantham gyda golwg ar anudoniaeth a thwyll yn ein mysg fel cenedl; ac ar yr un pryd annogwyd yr Eglwysi a'r Ysgolion Sabbothol i osod eu hwyneb yn fwy yn erbyn y pechodau hyn, rhag eu bod yn myned ar gynnydd yn ein plith. Rhoddwyd derbyniad croesawgar i Mr. Thomas Watkins, Llwynpïod, i'r Cyfarfod Misol hwn o Gyfarfod Misol Sir Gaerfyrddin.

Yn Nghyfarfod Misol Manchester, a gynnaliwyd Mawrth 26ain, gwnaed coffâd parchus a theimladwy am y diweddar Mr. Edward Roberts, yr hwn oedd yn flaenor medrus, gweithgar a defnyddiol iawn yn Eglwys Pendleton. Rhoddwyd tystiolaeth uchel i gymeriad crefyddol Mr. Roberts, ac i'w amryw ragoriaethau fel gweithiwr yn ngwahanol gylchoedd yr achos crefyddol. Penderfynwyd anfon llythyrau o gydymdeimlad at Mrs. Roberts, Mr. John Davies (ei dad yn nghyfraith), ac at eglwys Pendleton. Cymeradwywyd y cynnygiad o gael argraffiad rhatach o'r Llyfr Tonau Cynnulleidfaol, ond fod attodiad yn cael ei chwanegu ato.

Yn Nghyfarfod Misol Sir Benfro, a gynnaliwyd yn Nhrefin, Ebrill 2 a'r 3ydd, dadganwyd cydymdeimlad â'r Parch. W. Morris, Llandudoch, yn ei waeledd; a llawenydd am ei benderfyniad o aros yn y Sir. Pasiwyd penderfyniad cryf yn gwrthdystio yn erbyn pob cais i ddiddymu Deddf Cau y Tafarnau ar y Sabboth yn Nghymru.

Yn Nghyfarfod Misol Gorllewin Meirionydd, a gynnaliwyd yn Maentwrog-Uchaf, Ebrill 8 a'r 9fed, cadarnhawyd galwad y Parch. Robert Williams, M.A., Caernarfon, i fod yn fugail ar Eglwys Saesoneg Dolgellau. Penderfynwyd yn mhlaid cael Llyfr Tônau Cynnulleidfaol i'r Cyfundeb. Hysbyswyd fod y cynnydd yn y casgliad at y Drysorfa Gynnorthwyol wedi bod yn fwy yn Ngorllewin Meirionydd y llynedd nag yn yr un o'r siroedd eraill, a gobeithid y byddai y cynnydd yn parhau, gan fod y galwadau yn dyfod fwy fwy. Pasiwyd penderfyniad yn galw sylw yr holl eglwysi at y gyfrol o *Hanes Methodistiaeth Gorllewin Meirionydd*, gan y Parch. R. Owen, M.A., Pennal, a gyhoeddwyd yn ddiweddar.

Rhoddid cymeradwyaeth wresog i'r llyfr, ac annogid yr holl eglwysi i'w dderbyn. Pasiwyd penderfyniad yn gwrthwynebu yr ymgais a wneir i ddiddymu Deddf Cau y Tafarnau ar y Sabboth yn Nghymru.

ARHOLIAD Y GYMANFA GYFFREDINOL.

EBRILL 15FED, 1889.

1. Mater:—Y Pedair Efengyl. Arholwr:—Y Parch. Griffith Parry, D.D.

I. Ymha ran o wlad Canaan yn benaf y treuliodd y Gwaredwr y flwyddyn gyntaf, yr ail, a'r drydedd, o'i fywyd cyhoeddus? Nodwch un neu ychwaneg o brif ffeithiau ei hanes ymhob un o'r blynyddoedd.

II. Beth oedd prif nodwedd pob un o'r blynyddoedd hyn o ran agwedd dynion tuag at yr Iesu? A pha un ai tebyg ai annhebyg ydoedd ei yrfa yn hyn i'r eiddo diwygwyr mawr eraill?

III Eglurwch ystyr ac amcan y ddau amgylchiad pwysig a gymerodd le, un yn nechreu ei yrfa gyhoeddus, a'r llall tua'i diwedd—y *Temtiad* a'r *Gweddnewidiad.*

IV. Enwch rai o'r prif wyrthiau nas adroddir ond gan un o'r Efengylwyr. Pa wyrth yw yr un a adroddir gan y pedwar?

V. Nodwch rai o'r prif wyrthiau yn dangos gallu y Gwaredwr ar
(a) Natur.
(b) Byd yr ysbryd.
(c) Y corff.
(d) Angeu.

VI. Beth oedd prif nodweddion dynol cymeriad Crist, fel y portreadir ef yn y Pedair Efengyl?

VII. Beth oedd prif nodweddion ei ddysgeidiaeth, o ran mater a dull?

VIII. Ymha sawl Pasg y bu ein Harglwydd yn Jerusalem? Rhoddwch resymau dros eich go ygiad.

IX. Rhoddwch grynodeb byr o neillduolion Efengyl Ioan.

X. Eglurwch yr ymadroddion canlynol:—
"A'r Iesu a gynyddodd mewn.....ffafr gyda Duw" Luc ii. 52.
"Eithr am y dydd hwnw a'r awr, ni ŵyr neb.....na'r Mab," Marc xiii. 32.
"Canys megys y mae gan y Tad fywyd ynddo ei hunan, felly y rhoddes efe i'r Mab hefyd fod ganddo fywyd ynddo ei hun," Ioan v. 26.
"Canys y mae fy Nhad yn fwy na myfi," Ioan xiv. 28.

2. Mater:—Hanes yr Athrawiaeth yn y Tair Canrif Cyntaf. Arholwr:—Y Parch. D. Saunders, D.D.

I. Nodwch yr amryw ffyrdd trwy ba rai yr oedd y byd yn cael ei barotoi i dderbyn yr Efengyl.

II. Desgrifiwch gyflwr truenus y byd, mewn ystyr feddyliol, moesol, a chymdeithasol, yn amser sefydliad Cristionogaeth.

III. Rhoddwch fŷr-hanes am yr Erlidigaethau ar yr Eglwys Gristionogol o dan yr Ymherodraeth Rufeinig.

IV. Pa fath oedd natur yr ymgais a wnaed i ddychwelyd at Baganiaeth trwy Neo-Platoniaeth? Dysgwylir i chwi nodi rhai o brif nodweddion y gyfundrefn hono.

V. Rhoddwch hanes cryno, ynghyd a dosbarthiad, o olygiadau amryw y Gnosticiaid.

VI. Pa bryd y dechreuodd, ac o ba le y tarddodd Manicheaeth? Pa rai oeddynt ei neillduolion?

VII. Rhoddwch hanes byr am yr hyn a elwir yn "Ddiwygiad Montanaidd;" gan nodi allan yr hyn oedd yn ganmoladwy, a'r hyn oedd yn wallus, yn y Diwygiad hwnw.

VIII. Yn y tair canrif cyntaf, pa ysgrifeniadau a ddarllenid yn yr Eglwys, ac a gydnabyddid yn rhai Dwyfol Ysbrydoledig?

Nodiadau Misol.

TLODI Y TREFYDD MAWR.

BOREU Sabboth, Ebrill 7fed, yr oedd Dr. Marcus Dods yn gorphen y pregethau esboniadol ar yr Epistol Cyntaf at y Corinthiaid. y rhai a draddododd efe yn ystod misoedd y gauaf i'w gynnulleidfa yn *Renfield Free Church*, Glasgow. Prif bwnc y bregeth hon oedd *tlodi* fel un o ddyrysbyngciau y dydd. Dywedai fod tlodi wedi cymeryd gwedd dra difrifol yn y dyddiau hyn. Nid y tlodi sydd yn ganlyniad damwain ydyw, nac hyd yn nod yr un sydd yn ganlyniad drygioni na diogi. Gellid cyfarfod hwnw trwy haelioni personol a sefydliadau cenedlaethol. Ŷ tlodi sydd genym ni i'w gyfarfod yw yr un sydd yn cyfodi yn anocheladwy oddiar yr egwyddor o ymgystadleuaeth, yr hyn yw prif ysgogydd pob gwaith a masnach. Diau na bu hyn erioed yn y fath eithafion o'r blaen. Pob dyn yn ceisio sicrhau prynwyr trwy gynnyg ei nwyddau am bris llai na'i gymydog; a phob dyn yn ceisio sicrhau gwaith trwy gynnyg ei lafur am bris llai na'i gymydog. Dyma sydd yn gwneyd tlodi ein trefydd mawr mor ddifrifol, ei fod yn ganlyniad anocheladwy yr egwyddor ar ba un y mae ein holl adeilad gymdeithasol wedi ei hadeiladu. Y mae y farchnad ymhob maŵh o waith wedi ei gorlenwi yn gymaint, fel y gall yr hwn sydd yn ymofyn am weithwyr bron gynnyg ei delerau ei hunan. Ŷ mae miloedd yn ein prif ddinasoedd, er gweithio yn ddidŏr am un awr ar bymtheg yn y dydd, nas gallant ennill wedi y cwbl ond yr hyn sydd prin yn ddigon i gadw corff ac enaid wrth eu gilydd. Ŷ mae gwall pwysig yn rhywle yn y gyfundrefn. Yr hyn sydd ar y dosbarth gweithiol eisieu, medd Dr. Dods, yw cyfiawnder, nid trugaredd.

AMERICA A'I SEFYDLIADAU.

Y MAE llyfr o bwys a dyddordeb neillduol wedi ei gyhoeddi mewn tair cyfrol, gan Proffeswr Bryce, o Rydychain, dan y teitl, "Y Wladwriaeth Americanaidd." Amcan y llyfr yw gwneyd ymchwiliad diduedd a thrwyadl i sefydliadau America, eu nerth a'u gwendid, pa fodd y maent yn gweithio, pa fodd y maent wedi dal prawf amser ac amgylchiadau, pa fodd y maent yn effeithio i ffurfio cymeriad y genedl yn wladwriaethol a chymdeithasol, a pha wersi a ddysgant i deyrnasoedd Ewrop a'r byd. Y mae y rhai hyn yn gwestiynau hynod o bwysig. Barna llawer heblaw yr awdwr hwn mai gwladwriaeth America yw y gallu mwyaf aruthr, llawnaf o argoelion er da neu ddrwg, sydd yn awr ar wyneb y ddaear; a'r gallu sydd i chwareu y rhan fwyaf pwysig yn nyfodol y byd. Y cwestiwn mawr yw—pa un ai er da neu ddrwg? Ateb yr awdwr hwn, ar y cyfan, yw—er *da*. Y dylanwad mwyaf nerthol—y *bywyd* ei hunan a newidiodd wedd cymdeithas, ac a dynodd linell ddofn ar draws hanesyddiaeth, gan ei rhanu i'r hynafol a'r ddiweddar—daeth hwn i Ewrop o'r Dwyrain. Dysgwyliad llawer ydyw, o Jonathan Edwards hyd yn awr, y daw yr ail dòn fawr o ddylanwad—yr *adfywiad*—o'r Gorllewin. A gallai y bydd hyn yn wladwriaethol a chymdeithasol yn gystal a chrefyddol.

Ffurf-lywodraeth, ynghyd a sefydliadau a theithi cymdeithasol y genedl fawr hon, yw testyn ymchwiliad yr awdwr hwn. Ac y mae, meddai y beirniaid, yn ymchwiliad difrifol i destyn mawr. Dywedir fod pob cymhwysder posibl bron i'r gwaith wedi cyfarfod yn Mr. Bryce. Y mae yn ysgolhaig gwych, o alluoedd a diwylliad annghyffredin, yn sylwedydd craff a doeth, ac yn uno yr efrydydd meddylgar â'r gwladweinydd ymarferol. Mynodd y manteision goreu i chwilio a barnu drosto ei hunan. Bu ar ymweliad â'r Unol Daleithiau lawer gwaith. Ac nid oes ganddo unrhyw hoff ddamcaniaeth i'w hamddiffyn. Dengys y gwendid yn gystal a'r nerth, y peryglon yn gystal a'r rhagoriaethau. Rhydd ei reithfarn o blaid gwerin-lywodraeth. Ar ol gwneyd y cyfrif i fyny ar y ddwy ochr, y mae ganddo weddill da i'w osod ar ochr *gobaith*—daioni i America, a thrwyddi i'r byd.

Bwrdd y Golygydd.

CYNGHORION I'R GWRANDAWYR.

Y MAE llawer o gynghori y dyddiau yma. Yr ydym wedi cael trwy gyfrwng y DRYSORFA gynghorion i weinidogion yr Efengyl, a chynghorion i flaenoriaid; a meddyliais y gallasai ychydig gynghorion i'r gwrandawyr hefyd fod yn llesol. Nid ydwyf yn bwriadu myned allan o'r addoldy gyda fy nghynghorion, ond yr oll o fewn. Wrth ddywedyd gwrandawyr, nid ydwyf yn cau allan y gweinidogion a'r blaenoriaid a'r aelodau eglwysig mwy na'r rhai sydd heb fod yn aelodau, ond pawb a fydd yn gwrando yr Efengyl. Y mae awdwr yr Epistol at yr Hebreaid yn dywedyd, "Cynghorwch eich gilydd bob dydd tra y gelwir hi heddyw, fel na chaleder neb o honoch trwy dwyll pechod."

Dyfod i'r addoliad yn brydlon.—Ni bydd dim cysur i'w ddysgwyl i'r gweinidog nac i'r gwrandawyr prydlon pan y bydd, fe allai, hanner y gynnulleidfa yn absennol ar ddechreu y gwasanaeth, ac yn parhau i ddyfod i mewn yn drystfawr am chwarter neu hanner awr. Cwynir yn fynych am ddystawrwydd ein pregethwyr am y rhan flaenaf o'r addoliad, ac fe ddywedir na bydd hanner y gynnulleidfa yn gallu gwneyd dim â'r hyn a draethir. Yn enwedig yn ein cynnulleidfaoedd mwyaf, bydd y *key-note* wedi cael ei daro yn rhy isel i'r gwrandawyr allu clywed hyd nes y codir y llais Ond yr ydwyf fel yna yn llithro i le'r blaenor a roddodd gynghorion gwerthfawr yn flaenorol. Gobeithio ei fod wedi coño am y cynghor pwysig yna y pryd hyny; ond, fodd bynag, y mae llawer o'r bai yn cael ei achosi trwy fod nifer mawr o'r gwrandawyr yn dyfod i mewn wedi dechreu yr addoliad.

Gwrandaw.—Byddaf yn meddwl bob amser i fod cael pobl i wrando yn ddyfal yn help fawr i bregethwyr fyned ymlaen gyda'u dyledswyddau yn y pulpud. Mae dammeg yr hauwr yn dangos yn eglur y gwrando buddiol a'r gwrando anfuddiol a phechadurus; y gwrando buddiol a gyffelybir i dir da yn derbyn yr hâd, a'r gwrando anfuddiol i dri math o dir, sef min y ffordd, creigle, a thir dreiniog, a phob un o honynt yn hollol anghymhwys i dderbyn yr hâd. Dylem wrando y Gair yn ddyfal, astud a pharchus, gyda gofal am ei ddal rhag un amser ei ollwng i golli; a gwrando fel am y tro olaf, y tro olaf i'r gwrandawr, a'r tro olaf i'r llefarwr hefyd, gan y bydd yn dygwydd bod felly yn fynych i ryw rai. Mae yr Arglwydd Iesu yn cynghori, nid yn unig pa fodd y gwrandawom, ond pa beth hefyd. Yr ydwyf yn meddwl hefyd ein bod ni, y Cymry Ymneilduol, yn gwneyd rhy ychydig o ddefnydd o'n Biblau. Wrth wrando ddarlleniad y gair ar ddechreu yr addoliad y mae Eglwys Loegr yn hyn yn rhagori arnom ni, a'r Saeson a'r Scotiaid yn enwedig. Pan eir i addoldŷ yn Scotland ni welir ond anfynych neb o'r gwrandawyr

heb Fiblau yn eu dwylaw pan y bydd y gweinidog yn darllen y gair, ac mae yn sicr fod hyny yn help fawr at ddal sylw a chael meddwl y gwrandawyr at yr hyn a ddarllenir. Trwy drugaredd y mae Biblau yn rhad yn ein dyddiau ni; gellir cael Bibl am ychydig geiniogau, fel nad ydyw hyny yn un esgusawd am beidio eu harfer. Clywais ŵr sydd yn arolygu capel yn cwyno yn ddiweddar am y nifer mawr o hen Fiblau oedd ganddo wedi eu casglu o bryd i bryd, gweddillion yr Ysgol Sabbothol, wedi dryllio eu *covers*, ac ni wyddai pa beth a wnai â hwynt. Buasai cael eu hail rwymo yn fwy costus na chael Biblau newyddion, felly buaswn yn ei gynghori i'w taenu yn dew drwy y capel, ac yna fe allai y gwnai y gwrandawyr eu defnyddio yn y gwasanaeth trwy gael eu cymhell i hyny yn fynych.

Canu mawl yn ein cynnulleidfaoedd sydd lawer ar ol eto yn ein haddoldai o'r hyn a ddylai fod, er fod gwelliant amlwg wedi ymddangos yn hyn o'r hyn ydoedd flynyddau yn ol; ac y mae llawer o'r clod am hyny yn ddyledus i'r diweddar Barchedig John Roberts *(Ieuan Gwyllt)*. Mae y gorchymyn wedi ei roddi i bob perchen anadl foliannu yr Arglwydd, ac os gwneir hyny yn feddylgar yn ein cynnulleidfaoedd bydd miloedd yn gweddïo gweddïau taerion Dafydd yn ei Salmau bendigedig, ac emynau y peraidd ganiedydd o Bant y Celyn, ac Ann Griffiths, a lliaws mawr o emynwyr eraill ag yr ydym ni y Cymry wedi ein bendithio â'u cynnyrchion gwerthfawr. Ond er y cyfan yr ydym yn ofni nad ydynt yn cael eu harfer yn fynych fel ag y dylent gael, ac fod miloedd yn eu canu yn fwy fel defod ac arfer na dim arall. Gwelir llawer yn ein haddoliadau fel pe byddai canu mawl yn rhy israddol iddynt hwy, ac fel pe byddai arnynt ofn anfurfio eu genau wrth ganu. Gwyliwn y bydd y creaduriaid direswm yn ein condemnio ni eto am hyn. Mae'r "adar mân ar dân yn moli Duw," pan yn eu cyngherddau o fawl i Frenin Nen yn canu anthem fawr iddo Ef yr hwn a'u crëodd; ac y mae gwrando ar y fwyalchen a'r frongaith ar y llwyn yn perori eu boreuol ganiadau, yn ddigon i argyhoeddi pob creadur rhesymol mai yr hyn sydd ganddynt yn y cyfan ydyw myned trwy eu boreuol ddyledswydd deuluaidd ar gân gyda'u gilydd. Mae y prophwyd Esaiah yn dywedyd ymhellach, wrth ddarlunio godidowgrwydd teyrnas Crist, y bydd "yr anialwch a'r anghyfanneddleoedd yn llawenychu â llawenydd ac â chân;" ac y mae Williams yn ei emynau prydferth yn ceisio darlunio pa fodd y bydd hyny yn cymeryd lle, ac yn dywedyd y bydd nid yn unig yr adar asgellog yn cymeryd rhan yn yr *Hallelujah Chorus*, ond y bydd yr ymlusgiaid hefyd, a'r pryfaid a'r awelon a'r coedydd a murmur y nant yn addoli, ac oni ddylem ni ei greaduriaid rhesymol glodfori ein Prynwr ar gân yn feddylgar? Y mae llawer yn gorphwys ar arweinwyr y gân er cael hyn i arferiad cyffredinol, trwy gael tônau priodol i'w canu, a thrwy addysgu y plant yn eu hieuenctyd i ganu. Mae genym ddigon o dônau da yn bresennol i bobl mewn oed ac i blant, a'r *Solfa Notation* wedi dyfod mor gyffredin; ond er y cyfan mae lle i ofni y bydd y canu yn myned yn ddifudd yn aml trwy i'r arweinydd roddi tôn ddyeithr allan, fe allai yn benaf er ei dwyn i sylw y gynnulleidfa, er na fydd eu hanner yn gallu ei chanu; a hyny, fe allai, pan y bydd y gweinidog wedi rhoddi un o'r hen emynau gorfoleddus allan, yr hon o bosibl oedd yn taraw ar ei bregeth, gan ddysgwyl cael ychydig o hwyl ar y diwedd fel y cafwyd lawer tro pan y byddai pob peth yn cydgordio. Gobeithio y cymerir yr ychydig gynghorion hyn yn yr un ysbryd ag y maent yn cael eu rhoddi, ac yna gellid cael rhyw gymaint o welliant a mwy o drefnusrwydd.

GWRANDAWR.

Bywgraffiaeth.

Y DIWEDDAR MR. WILLIAM HUGHES, BODEDNYFED, MÔN.

Gan Mr. HUGH PRITCHARD, *Amlwch.*

Y MAE yn ddiammheuol mai y rhan bwysicaf a buddiolaf mewn llenyddiaeth ydyw hanesiaeth; ac o bob hanesiaeth, bywgraffiadau dynion hynod mewn rhinweddau moesol a chrefyddol sydd fwyaf bendithiol i'r darllenydd. Puraf yn y byd y byddo y gwrthddrych a bortreadir, uwchaf oll fydd awydd y gorfucheddwr i'w efelychu. Er y dichon na byddo dynion wedi troi mewn rhyw gylch mawreddog, nac wedi cyflawni rhyw orchestwaith arbenig; eto fe ganfyddir ynddynt yn eu cylch eu hunain deithi teilwng fel esiampl i'w dilyn gan eraill. Ni chyrhaeddodd Mr. Hughes safle uchel yn yr Eglwys Gristionogol. Ond yr oedd tair nodwedd arbenig yn perthyn i'w gymeriad, sef cymwynasgarwch, gweithgarwch, a ffyddlondeb.

Yn fuan ar ol ei ddewisiad yn swyddog eglwysig yn Manchester, deallodd fod rhyw bethau mwy pwysig yn perthyn i'r swydd nag eistedd yn y sêdd dan y pulpud ar y Sabboth. Daeth yn olynydd i Phylip y diacon yn Jerusalem, yr hwn ni arosodd i wasanaethu byrddau, ond a aeth i bregethu Crist yn Waredwr i'r Samariaid cyndyn; a bu yn hynod lwyddiannus. Felly Mr. Hughes; deallodd fod Cymry yn wasgaredig yn y mân drefi o amgylch Manchester, ac heb fugail arnynt. Y lle cyntaf yr aeth iddo oedd Oldham. Yr oedd yno ychydig yn cydgyfarfod mewn goruwchystafell ar y Sabboth i addoli; ond nid oeddynt yn gallu oyd-dynu yn dda, yn gymaint a bod rhai o honynt yn Drochwyr a'r lleill yn Daenell-

wyr. Ond nid oedd yn bosibl cael person mwy cymhwys i wneyd y ddwyblaid yn un a chyttûn nag y doedd Mr. Hughes. Yr oedd y fath naturioldeb corff a meddwl yn perthyn iddo,—siarioldeb yn ei wyneb, lledneisrwydd yn ei ysbryd, a doethineb yn ei galon. Dywedai wrthynt fod Mr. Spurgeon yn Llundain, Mr. Maclaren yn Manchester, Mr. Stowell Brown yn Lerpwl, a'r eglwysi dan eu gofal, yn byw mewn tangnefedd heddychol, yn Drochwyr a Thaenellwyr. A chan fod dynion mor fawr yn gallu cytuno â'u gilydd ar bwnc bedydd, dywedai fod yn resyn nas gallent hwy wneyd. O hyny allan ni chlybuwyd sŵn dyfroedd lawer byth mwy. Yn y Rhos y dechreuodd y brodyr hyn eu gyrfa grefyddol. Glöwyr oeddynt wrth eu galwedigaeth. Parhaodd Mr. Hughes i fyned yno bob mis, a daeth yr achos i bwynt o lwyddiant dymunol. Cynghorai yntau hwynt yn wresog yn yr ysbryd, ac nid oedd yr un pregethwr yn fwy poblogaidd gyda y Cymry yn Oldham nag ydoedd Mr. Hughes, Manchester.

Cymerodd dygwyddiad arall le ar ddechreuad cenadaeth Mr. Hughes. Yr oedd yn Bolton achos crefyddol wedi ei ddechreu mewn ystafell a gymerid i gadw ysgol a chyfarfodydd gweddïo. Tri o frodyr oedd yn perthyn i'r achos yno, ond yr oedd yno amryw chwïorydd ieuainc mewn gwasanaeth wedi dechreu eu gyrfa grefyddol yn Nghymru, ac yn dwyn zel dros grefydd eu rhieni, ar aelwyd pa rai eu magwyd. Ond yr oedd y brodyr yn teimlo y baich yn rhy drwm i ddal dano. Nid oeddynt yn cael pregethwr ond pur anfynych, ac yr oedd y draul o gludo y cyfryw o'i gartref yn bur fawr. Yr oeddynt, o ganlyniad, yn hynod amddifad o bregeth; ac wedi penderfynu, o herwydd eu tlodi, rhoddi yr ystafell i fyny, a swm go fawr o ddyled arni. Ond clywsant am Mr. Hughes yn pregethu heb ddim tâl, ac anfonasant am dano. Ac wedi ei ddyfod i'r ystafell lle yr oedd llïaws wedi dyfod ynghyd, gofynodd iddynt am ba achos yr oeddynt wedi anfon am dano? Dywedodd yr hynaf o'r brodyr mai i bregethu. Dywedodd Mr. Hughes nad oedd ganddo awdurdod i bregethu. Atebodd y brawd y cymerent hwy y cyfrifoldeb, a llefarodd Mr. Hughes am gariad Duw at y byd. Ar ol yr oedfa ddau o'r gloch, dywedodd y brodyr wrth Mr. Hughes fod yn rhaid iddynt roddi i fyny gynnal yr achos; eu bod wedi rhedeg i ddyled, ac nad oeddynt yn alluog i dalu.

Yn y cynnulliad bwyrol daeth llïaws ynghyd i'r ystafell. Yn lled fuan daeth yr "eneiniad oddiwrth y Sanctaidd hwnw" i lawr; ac yn niwedd y gwasanaeth dywedai y llefarwr wrth y gynnulleidfa fod yn ddrwg ganddo ddeall fod eu haddoldŷ i gael ei gau i fyny, a'r gynnulleidfa oedd ger ei fron i gael eu gwasgaru, a'r Cymry crefyddol i fyned yn ddigartref. Sicrhâi iddynt y teimlent oddiwrth amddifadrwydd o foddion gras a chymdeithas eu gilydd yn yr Arglwydd, a gofynodd i gynifer ag oedd am gau y drws i godi llaw. Ond y diwedd fu penderfynu gyda'r unfrydedd mwyaf i beidio rhoddi yr achos i fyny, a thalodd Mr. Hughes yr ôl-ddyled ei hun.

Daeth gwrthddrych ein cofnodion i ddeall fod yn Wigan llïaws o'r Cymry yn amddifad o'r efengyl yn yr iaith Gymraeg, a chafodd yn eu mysg rai personau yn meddwl am ei enw Ef, ond heb foddion cyhoeddus, na gobaith am y cyfryw. Ond trwy ei ymdrech ef, a'u cydsyniad hwythau, cafwyd ystafell gymhwys i ddechreu achos; a'r bregeth gyntaf a gawsant er ys blynyddoedd ydoedd gan Mr. Hughes. O hyny allan sefydlwyd Ysgol Sabbothol a chyfarfodydd gweddïo yn y lle,—brodyr o Manchester a Le'rpwl yn cynnorthwyo, a'r cenadwr a gychwynodd yr achos yn gofalu am danynt, a'r cyfan ar ei draul ei hun yn hollol. Cychwynwyd achosion Cymreig hefyd yn Ashton, a Bury, a Rochdale, ac y maent yn aros yn y lleoedd hyn hyd heddyw. Yr oedd Mr. Hughes yn ffyddlawn hefyd yn ei ddyledswyddau cartrefol. Trwy ei offerynoliaeth ef y codwyd achos siriol a gweithgar yn Ardwick Green. Adeiladwyd capel prydferth yno, a chyfranodd yntau yn helaeth at y draul. Cydnabyddwyd ef âg anerchiad, a chyflwynwyd iddo drywel arian werthfawr, fel sylfaenydd yr addoldŷ a chychwynydd yr achos yn y lle. Cyfranodd gan' punt ar ol dyfod i gartrefu yn Amlwch at gapel newydd Moss Side, Manchester. Yr oedd yn rhagori yn y cyfarfodydd eglwysig wythnosol, ac yn hynod o ffyddlawn i'r cydgynnulliadau. Yr oedd y fath gymhwysder ynddo i ymddyddan am brofiadau brodyr a chwïorydd gweiniaid nes eu codi o'r dyfnder i'r làn, a gosod eu traed ar y graig.

Ond daeth tymmor arosiad Mr. Hughes yn Manchester i'r pen yn y flwyddyn 1870. Ymadawodd i Amlwch, yn yr hwn le y ganwyd ac y magwyd ef. Pwrcasodd yno dyddyn o dir a elwir Bodednyfed, hen drigfan Ednyfed Fychan a'r teulu, y llecyn mwyaf prydferth yn Ynys Môn. Treuliodd Mrs. Hughes ac yntau bymtheng mlynedd dedwydd iawn yn eu cartref newydd, dedwydd a chlyd. Ni bu pâr priodasol erioed yn fwy hapus. Bu y ddau farw o fewn llai na blwyddyn o amser i'w gilydd, a chladdwyd hwynt yn yr un beddrod yn y Gladdfa Newydd gerllaw Amlwch, wedi cyrhaedd yr oedran teg o bedwar ugain mlynedd. Wedi dyfodiad y teulu i'r gymydogaeth, daethant yn aelodau eglwysig yn Mhorth Amlwch, ac yr oedd y gynnulleidfa yn y lle, a Chyfarfod Misol y Sir, yn dysgwyl cael pregethwr poblogaidd yn mherson Mr. Hughes, Bodednyfed. Taer fu cymhellion y Cyfarfod Misol am ei wasanaeth; ond ateb penderfynol y brawd oedd, fod digon o bregethwyr yn Ynys Môn, ac oblegid hyny nad oedd anghenrheidrwydd am ei wasanaeth ef. Yr oedd rhai o'i gydswyddogion yn Manchester yn dyweyd mai awydd bod yn gyhoeddus oedd yn cymhell Mr. Hughes i fyned allan i bregethu. Camgymeriad o'r mwyaf oedd y fath haeriad, fel y prawf y ffaith a nodwyd. O na! gwneyd daioni oedd lonaid ei galon, ac nid dangos ei hun

Ond gwnaeth ei hun yn gartrefol ac yn wasanaethgar yn y Cyfarfod Misol, a dewiswyd ef yn Llywydd gydag unfrydedd. Yr oedd ei sirioldeb a'i ostyngeiddrwydd yn ennill iddo gyfeillion lawer ymhob cylch yr oedd yn troi ynddo. Nid yn aml y gwelwyd neb yn llanw yr enw boneddwr yn fwy cyflawn a thrwyadl. Cyfranodd gannoedd o bunnau at wahanol sefydliadau crefyddol a chymdeithasol, ac yn neilldnol i dlodion Amlwch. Yr oedd yn ddiarebol o ddiymhongar. Hyfrydwch ei galon oedd ymddyddan â'i gyfoedion tlodion yn Amlwch am helyntion yr amser gynt, a rhoddi swllt neu ddau yn eu llaw wrth ymadael â'u gilydd.

Yr oedd yn ffyddlawn iawn yn y cynnulliadau crefyddol, yn Sabbothol ac wythnosol. Pan y byddai y gynnulleidfa wedi cael pregeth lled *flat* ar nos Sabboth, codai ar ei draed yn y seiat ar ol yr oedfa, a defnyddiai air o'r bregeth yn sylfaen i'w anerchiad, a llefarai gyda y fath wresogrwydd nes tanio y gynnulleidfa mewn ychydig fynydau. Ond yn y cyfarfoddydd eglwysig wythnosol yr oedd ei ragoriaethau yn dyfod i'r golwg mewn modd neilldnol. Yr oedd yn ei elfen gyda yr hen frodyr a'r hen chwiorydd yn adrodd eu profiadau. Yr oedd y fath ireiddra yn ei ddawn a swyn yn ei lais nes gwefreiddio ei wrandäwyr i hwyl nefolaidd. Yr oedd ganddo fwy o feddwl o'i allu gyda ei ddyledswyddau crefyddol na'i allu i gasglu cyfoeth, er ei fod yn lled alluog gyda y naill a'r llall. Ni chlywid ef un amser yn son am ei ennillion, ond cyfeiriai yn fynych at ei golledion mawrion. Nid oedd arno eisieu i neb feddwl ei fod yn ŵr cyfoethog, ac ni chafodd neb wybod nes iddo adael y cwbl i bobl eraill ar ei ol. Nid oedd dim balchder na rhodres yn perthyn iddo. Cyflawnai ei ddyledswyddau crefyddol, a'i weithredoedd o elusen a dyngarwch, nid er mwyn cael ei weled gan ddynion, ond er gogoniant i Dduw a lles i'w gydgreaduriaid.

Y DIWEDDAR MR. HUGH DAVIES, WHITE STREET, PENMACHNO.

Gan y Parch. WILLIAM GRIFFITH, *Dysgwylfa, Arfon.*

NID oes un wlad yn fwy dyledus i ddynion o amgylchiadau cyffredin nag ydyw Cymru. Addysg a dylanwad y rhai hyn sydd wedi ei dyrchafu i'w chyflwr presennol o ran rhinwedd a chrefydd, ac iddynt hwy hefyd y perthyna yr anrhydedd o ddeffroi Cymru yn gyntaf i ymdeimlo â gwerth addysg, ac i ymdrechu am dani. Nid pendefigion Cymru sydd wedi ei dyrchafu, ac nid yr hyn a elwir yn ddosbarth canol, o herwydd nid oedd dosbarth felly yn ein gwlad ar y pryd; ond perthyna y clod am hyn i ddynion rhagorol cylch cyffredin bywyd. Ac y mae hwn yn destyn teilwng o ymffrost i ni fel cenedl. Dyga dystiolaeth ddiymwad i rym a dylanwad daionus y Diwygiad Methodistaidd, o herwydd nid oedd y dynion hyn ond ffrwyth y diwygiad hwnw, a'r cyfryngau hefyd drwy ba rai y deuai ei egwyddorion a'i rym i ddylanwadu ar eraill. Tra y parha coffadwriaeth y dynion hyn, bydd yn anmhosibl gwadu effeithiolrwydd a llesoldeb y Diwygiad Methodistaidd yn Nghymru. Hefyd adlewyrcha anrhydedd ar gylch bywyd cyffredin yn ein gwlad. Dynion mwyaf meddylgar Cymru, a'r rhai a wnaethant fwyaf er ei dyrchafu, i'r cylch hwn y perthynent, ac ynddo yr arosasant. Ni cheisiodd yr un o honynt ddianc hwnt i'w derfynau, gan ei ystyried yn annheilwng fel cylch bywyd iddo ef, ond treuliasant eu blynyddoedd ynddo, a rhoddasant raddau mwy neu lai o ogoniant arno. Pa genedl bynag sydd yn tybied nad ydyw yn briodol iddi roddi anrhydedd ar gylch bywyd cyffredin, nis gall cenedl y Cymry dybied hyn; ein dyledswydd a'n braint ni yn hytrach ydyw ei ddyrchafu, ac anrhydeddu pob un teilwng a berthyn iddo; a hyny yn y cyffredin a wneir. Y rheswm dros gyfeirio yn neilldnol at hyn yn bresennol ydyw mai un o'r dosbarth hwn oedd y diweddar frawd Mr. Hugh Davies; un o ddynion rhagorol cylch cyffredin bywyd, y rhai y mae Cymru mor ddyledus iddynt. Ymdrechodd yntau o blaid dyrchafiad ei wlad, a bu yn dra llwyddiannus o fewn y cylch y treuliodd ei fywyd ynddo; ac er nad oedd y cylch hwn yn eang a phwysig, na'r gwaith a gyflawnodd yn amrywiol a chyffredinol, eto teilynga ran helaeth o'r clod a'r parch sydd yn ddyledus i wir ddiwygwyr a bendithwyr Cymru.

Ganwyd y diweddar Mr. Hugh Davies yn Penmachno yn y flwyddyn 1810, ac yno gyda'i rieni y treuliodd y tair blynedd ar ddeg cyntaf o'i fywyd. Pan oddeutu tair ar ddeg mlwydd oed ymadawodd â'i gartref, ac aeth yn gyntaf i Bethesda, ac wedi hyny i Lanllyfni; ac yn y lleoedd hyn y treuliodd y naw neu y deng mlynedd dilynol o'i fywyd, a hyny mewn rhan yn ngwasanaeth amaethwyr ac mewn rhan yn y chwarelau. Pan oddeutu tair ar hugain mlwydd oed priododd, a chyflawnwyd y gwasanaeth yn eglwys Llandwrog, gan mai yn nghymydogaeth Llanllyfni yr arosai ar y pryd. Cyfnod pruddaidd, gyda'r eithriad o un elfen sydd yn rhedeg drwyddo, ydyw y cyfnod hwn yn ei hanes. Esgeuluswyd ef i raddau helaeth gan eraill ac esgeulusodd yntau ei hun. Ni fwynhaodd fanteision addysg yn ei flynyddoedd boreuaf, o herwydd nid oedd ysgol ddyddiol yn Penmachno ar y pryd, a'r tebygolrwydd ydyw na ddychymygodd ei rieni unwaith am roddi addysg iddo, a hyny o herwydd nad oeddynt wedi agor eu llygaid ar berthynas addysg â bywyd, ac y byddai cyflawni gwaith bywyd yn anhawddach i'w bachgen hwy o herwydd na dderbyniodd fanteision addysg yn ieuanc. Hefyd y mae yn dra thebygol na dderbyniodd lawer o gymhorth gartref, nac ychwaith oddiwrth ei gyfoedion, i ddadblygu ei natur foesol ac ysbrydol. Gwawr-

ddydd Cymru ydoedd, pan nad oedd ond ychydig fanteision i gynnydd mewn un ystyr, pan nad oedd awyrgylch y cartref na chymdeithas yn ffafriol iawn i ddaioni, yn enwedig ymhlith y tlodion cyffredin. Canlyniad anocheladwy yr esgeulusdra hwn o hono pan yn fachgen ydoedd iddo yntau esgeuluso ei hun mewn amser dyfodol. Ni ymdrechodd adennill i raddau yr hyn a gollodd yn moreu ei fywyd, drwy ddefnyddio y moddion i ddiwyllio ei feddwl oedd yn yr ardaloedd yr arosai ynddynt, a dilyn cymdeithion oedd yn fwyaf tebygol o ddylanwadu er daioni ar ei ysbryd a'i fuchedd. Yn hytrach na hyn, syrthiodd i gydymffurfio âg arferion ofer ei gyd-ieuenctyd; cymerai ran yn eu chwareuon, ac eisteddai gyda hwy i ddiota, fel yr aeth yn feddwyn cyhoeddus, a daeth yn fuan yn arwr yn eu mysg. Syrthiai y llawryf mewn annuwioldeb yn naturiol i'w ran, a hyny o herwydd y dyrchefid ef gymaint uwchlaw y cyffredin gan y rhagoriaethau meddyliol a'r grym ewyllys a'i nodweddai. Ond yr oedd peth daioni, a hwnw yn hedyn daioni mwy, ynddo yn y cyfnod hwn, sef ei ymlyniad diysgog wrth yr Ysgol Sabbothol. Gwrandawyr gyda'r Wesleyaid oedd ei rieni, ac i addoldy y Wesleyaid yr arferai yntau fyned am amser; ond, am ryw resymau na wyddys yn awr, mynychai Ysgol Sabbothol berthynol i'r Methodistiaid Calfinaidd, a gynnelid gan hen frodyr ffyddlawn mewn tŷ annedd yn y pentref. Profodd y rhai hyn y cymwynaswyr penaf i lïaws, ac nid ydyw y wedd sydd ar yr Ysgol Sabbothol yn Penmachno yn bresennol ond perffeithiad ar yr hyn a ddechreuwyd ganddynt hwy. Gwerthfawr, yn diammheu, fuasai ychydig o hanes ymdrechion y ffyddloniaid hyn. Mynychodd y diweddar Hugh Davies yr ysgol hon yn gyson, a dysgwyd ef i ddarllen, &c., ynddi. Wedi ymadael â'i gartref â myned i Bethesda a Llanllyfni, parhaodd yn ymlyngar wrth yr Ysgol Sabbothol, ni ysgarodd ei fywyd ofer ef ei hun na chymdeithas lygredig ei gyfoedion rhyngddo a hi. Byddai yn gyson bron yn ei ddosbarth ar y Sabboth; ac nid dyfod yn unig a wnai, ond defnyddiai y manteision a estynid iddo. Yr oedd ei gydnabyddiaeth eang â chynnwys y Bibl mewn blynyddoedd diweddarach yn brawf diymwad o hyn. Rhaid ei fod wedi rhoddi sail y wybodaeth Fiblaidd oedd ganddo i lawr pan yn ddyn ieuanc yn yr Ysgol Sabbothol, o herwydd yr oedd yn rhy eang a thrwyadl i fod yn gynnyrch blynyddoedd diweddarach. Ac yr oedd dyn o allu meddyliol eiu diweddar frawd, ynghyd a'i awydd am wybodaeth, yn rhwym o ddefnyddio yr Ysgol Sabbothol. Ond er i'r Ysgol Sabbothol brofi yn foddion i eangu ei feddwl, a'i drysori â gwybodaeth, ni phrofodd yn foddion effeithiol o ras iddo; yr hyn a wnaeth ydoedd ei barotoi gogyfer â'r dyfodol, a chyflawnodd y gwasanaeth hwn arno yn effeithiol.

Pan yr oedd oddeutu chwech ar hugain mlwydd oed, torodd gwawr ei fywyd, ac o hyny allan yr oedd ei lwybr fel y goleuni, yn llewyrchu fwy fwy hyd ganol dydd. Yn gyntaf oll cymerodd yr ymrwymiad Dirwestol. Yr oedd dylanwad yr Ysgol Sabbothol, a'i ymdeimlad â'i gyfrifoldeb fel tad a phenteulu, wedi ei sobreiddio, ond ni lwyddasant i'w sobri. Dilynai yr un arferion ofer, a rhedai i'r un eithafion gyda'r diodydd meddwol ag y gwnai yn flaenorol; canlyniad yr hyn, o anghenrhaid, oedd dwyn tlodi ac anghen i ran ei briod a'i blant. Yn yr amser priodol ovrhaeddodd y cynhyrfiad Dirwestol, yr hwn a wnaeth gymaint o ddaioni i'r wlad yn gyffredinol, i Penmachno, a bu yn symbyliad i'r diweddar Hugh Davies ymattal yn llwyr oddiwrth y diodydd meddwol. Ond nid oedd yn fwy na symbyliad iddo i wneyd hyn, gan fod ei ardystiad i raddau helaeth yn ffrwyth myfyrdod, argyhoeddiad, a gweddi. Canfyddai yn eglur ganlyniadau ei ddull o fyw, gwelai ei afresymoldeb, ac ymdeimlai â'i annheilyngdod. Sicrhâi bywiogrwydd a chraffder ei feddwl, ynghyd a'r syniad o gyfiawnder oedd yn naturiol ynddo, nas gallai barhau am amser maith yn y cyflwr hwn yn ddiboen, ac y byddai ei dröedigaeth, pan y deuai, yn ffrwyth argyhoeddiad. Parhaodd yr ymdrech am amser cymharol faith, a bu yn ymdrech galed neilltuol; ac i weddi y priodolai ei fuddugoliaeth yn y diwedd. Adroddai am un dygwyddiad tarawiadol a gymerodd le ar yr adeg hon. Pan yn dychwelyd un prydnawn dros y mynydd o Dolyddelen i Penmachno, wedi ymgais aneffeithiol i gael gwaith, ymosodwyd arno mor gryf gan ei chwant am y diodydd meddwol, fel yr ofnai y gorfodid ef i droi yn ol, a'i foddhau. Yr oedd wedi myned heibio i dafarndai Dolyddelen yn orchfygwr, ond ofnai y byddai raid iddo ddychwelyd iddynt yn orchfygedig. Yn yr ymdrech syrthiodd i lawr ar y ddaear, ac ymbiliodd yn daer am amser maith am gymhorth i orchfygu. Pan yn codi oddiar y ddaear, wedi cael graddau o oruchafiaeth arno ei hun, clywai lais uwch ei ben yn dywedyd wrtho, "Dos, ac na phecha[illegible]mwyach." Yn sŵn y llef hon cerddodd ymlaen i Penmachno yn arglwydd hollol o hyn allan ar ei chwant. Yr oedd y llef hon yn sylweddol iddo, a pharhaodd felly hyd y diwedd; a sicrhaodd gagendor nad oedd yn bosibl myned drosti rhyngddo â'r diodydd meddwol. Wedi i ysbryd ein diweddar frawd ymlonyddu i raddau, wedi gorchfygiad y chwant a'i cynhyrfai, nid oedd ei ymuniad âg eglwys Dduw ond yr hyn y gallesid ei ddysgwyl. Arweiniai dylanwad yr Ysgol Sabbothol, myfyrdod ei feddwl ef ei hun, cynghorion cyfeillion, a chymhellion yr Ysbryd Glân ef i hyn. Nis gallai un o'i nodwedd ef, yn yr amgylchiadau yr oedd ynddynt yn awr, fwynhau tangnefedd ond yn yr eglwys ac yn Nghrist. Ond rhoddodd y cam hwn yn bwyllog, ac wedi ei ystyried yr un modd a'r un blaenorol; o herwydd wedi dwy flynedd o amser ar ol cymeryd yr ymrwymiad Dirwestol yr ymunodd âg eglwys Crist. Profodd hon eto yn ymdrechfa galed iddo; byddai yn aml o dan argyhoeddiadau mor ddwfn fel nas gallai fwyta na chysgu, a threuliai

lawer o'i amser mewn mvfyrdod a gweddi. Y noswaith yr ymunodd â'r eglwys daeth o'r chwarel yn gynnarach nag arferol, hysbysodd ei fwriad i'w briod, a gwnaeth bob parotoad anghenrheidiol yn hollol hamddenol. Gofynodd i'w wraig siorhau cydymaith iddo, ac archodd i'r plant a hithau fod yn bresennol. Profodd y cyfarfod eglwysig hwnw yn un nodedig iawn. Wedi deall fod Hugh Davies yn bresennol, aeth un o'r hen ddiaconiaid o'r enw Hugh Rolant i ymddyddan âg ef, a'r hyn ddywedodd wrtho gyntaf oedd, "Wel, Huw bach, yr wyt wedi gwasanaethu dy hen feistr yn dda, a wyt yn bwriadu gwasanaethu dy feistr newydd cystal?" Cyn i Hugh Davies ei ateb, cyfododd y diweddar Barch. D. Davies, Abermaw (yr hwn oedd gartref ar y pryd, ac yn ddyn ieuanc heinyf a thanbaid ei ysbryd), ac a ddywedodd, "Cofiwch, Huw Rolant, 'Ni bydd yno edliw beïau.'" Cynhyrfodd hyn yr eglwys, ac atebodd ofyniad Huw Rolant ei hun, a hyny drwy ddiolch i Dduw am yr hyn a wnaeth i Hugh Davies; ac yn nghanol y gorfoledd hwn yr ymadawyd. Yr unig atebiad uniongyrchol y caniatawyd i Hugh Davies ei roddi i'r gofyniad hwn ydoedd ei fywyd dilynol, ac yr oedd hwn yn atebiad digonol iddo. Pe dygwyddasai i rywun y noswaith hono agosâu at hen addoldy y Methodistiaid Calfinaidd yn Penmachno, clywsai sŵn cynghanedd a dawnsio; a'phe buasai yn gofyn beth oedd hyn, atebasid ef, "Dy frawd a ddaeth, a'th dad a laddodd y llo pasgedig."

Wedi ei blanu yn nghynteddoedd yr Arglwydd, tyfodd ein diweddar frawd yn gyflym, a daeth yn llawn ffrwyth. Anturiai rhai ar y pryd brophwydo y deuai yn ŵr o ddylanwad a defnyddioldeb yn y dyfodol. Dywedir am un hen chwaer dra hynod, yr hon oedd yn glaf ar y pryd, ac a fu farw ychydig o amser wedi hyny, iddi yn fuan wedi ei ymuniad â'r eglwys ofyn am ei weled, ac iddo yntau ymweled â hi: ac wedi iddo fyned i'r ystafell, ac at erchwyn ei gwely, dadganai ei llawenydd o herwydd clywed iddo ymuno â'r eglwys, ac wedi hyny rhoddodd brawf ar ei wybodaeth a'i brofiad crefyddol; a phan yn ymadael dywedai wrtho, "Wel, fy machgen, y mae gan yr Arglwydd waith mawr i ti i'w gyflawni." Ysbryd rhyfedd oedd yr ysbryd a feddiannai yr hen frodyr a'r hen chwiorydd hyn! Yn yr adeg hon ymroddodd Hugh Davies i waith cyffredin ei fywyd, ac i ddeall yr hyn a wnai; ymroddodd i efrydu daeareg, y lechfaen, a chwarelyddiaeth, ac er mai Cymro uniaith ydoedd, ac na ddeallai air o Saesoneg, cyrhaeddodd wybodaeth gymharol eang a chywir o berthynas iddynt. Yr oedd yn sylwedydd craff ac yn feddyliwr cryf ei hun, a chyfeiriodd y rhai hyn gyda holl rym ei ewyllys gref at y materion a nodwyd; a'r canlyniad ydoedd iddo, drwy dderbyn ychydig gymhorth oddiwrth eraill, ddyfod yn dra hyddysg yn nghyfrinion ei waith. Daeth mewn amser yn gyfryw ag yr ymholid am ei farn ar nodwedd llechfeini mewn gwahanol ranau o'r wlad; ac yr ymddiriedwyd iddo, hefyd, oruchwyliaeth un o chwarelau y gymydogaeth. Hefyd, ymgysegrodd i waith yr Arglwydd; gwaith yr Arglwydd yn ei ysbryd ef ei hun, a gwaith yr Arglwydd yn y byd yn gyffredinol. Gwyliai yn fanwl drosto ei hun, ymdrechai osgoi pobpeth oedd â thuedd ynddo i'w niweidio mewn ystyr foesol ac ysbrydol, ac ymwneyd yn unig â'r hyn a hyrwyddai grefyddoldeb ei ysbryd, ac a'i galluogai i gynnyddu mewn sancteiddrwydd. Yr oedd rhyw gyfathrach rhyngddo yn naturiol â'r moesol dda, ac yn Nghrist priodwyd y ddau â'u gilydd, ac ni wahanwyd hwy mwy. Yr oedd ei ymdeimlad âg arucheledd cymeriad moesol perffaith yn nodweddiadol o hono drwy ei fywyd. Ond ymddiriedai fwy yn Nuw nag ynddo ei hun; hyn oedd hedyn ei Galfiniaeth, a hyn, hefyd, oedd y rheswm am, a'r hyn a amlygid drwy y ffydd gref oedd ganddo mewn gweddi. Arferai weddi yn ystyr gyflawn y geiriau; trefnai ei holl faterion tymmorol ac ysbrydol ger bron Duw mewn gweddi, credai na fethodd gweddi daer erioed a chyrhaedd hyd y nef, ac y bendithid yr hwn a'i defnyddiai â goleuni a nerth. Wedi iddo ddyfod ato ei hun, un weddi oedd ei fywyd—gweddïai cyn ymuno â'r eglwys, a gweddïai yn wastadol wedi hyny, ac argyhoeddiad pob un pan y gweddïai yn gyhoeddus ydoedd ei fod yn un o wir weddïwyr y Tad. Profai gweddïau y diweddar Hugh Davies yn foddion o ras nid iddo ef ei hun yn unig, ond i eraill yn ogystal. Ond yn ychwanegol at hyn, ymroddodd i waith yr Ysgol Sabbothol; ac, er nad oedd hyn ond yr hyn y gallesid ei ddysgwyl oddiwrtho, aeth hwnt i ddysgwyliadau pawb yn yr hyn a wnaeth o'i phlaid. Bu yn athraw ynddi am yr ysbaid maith o dros hanner cant o flynyddoedd; gwasanaethodd fel cynnrychiolydd i'r cyfarfodydd ysgolion am flynyddoedd lawer, a thramwyai iddynt yn siriol er ystormydd a phellder ffordd, os caniatâi iechyd ac amgylchiadau iddo fyned; a bu yn llywydd y cyfarfodydd hyn am amser maith. Syniai yn uchel am yr oll o'r swyddogaethau ynglŷn â'r Ysgol Sabbothol, a bu yn dra llwyddiannus yn nghyflawniad y gwaith a berthynai iddynt; addysgodd lawer, ac addysgodd hwy yn drwyadl, a chofir gan lawer am ei anerchiadau mewn cysylltiad â'r Cyfarfodydd Ysgolion; yn wir, anmhosibl ydyw synio yn briodol am y daioni tuag at, a thrwy yr Ysgol Sabbothol a gyflawnodd Hugh Davies. Un peth yn unig sydd sicr, sef nad oedd yr hyn a wnaeth ond cyfran fechan o'r hyn y dymunai ei wneyd, o herwydd yr oedd y sefydliad hwn wedi ei ysgrifenu ar lech ei galon, a'r peth ddiflanodd ddiweddaf, yn ddiammheu, o'i feddwl pan yn ymadael â'r byd hwn ydoedd pryder o berthynas i ddyfodol yr Ysgol Sabbothol. Drwy ei gymeriad dysglaer, ei lafur diflino, a'i ddoniau naturiol, ynghyd a'i grefydd ddiammheuol, daeth y diweddar Hugh Davies yn un o ddylion gwerthfawrocaf yr eglwys yn Penmachno, ac nid oedd ei

ddewisiad yn ddiacon pan y daeth yr amser i hyny ond yr hyn a ddilynai bron yn anocheladwy. Dewiswyd ef yn ddiacon yn y flwyddyn 1861, ac yr oedd ei ddewisiad yn unfrydol hollol. Wedi yr alwad hon arno, ei ymdrech benaf ydoedd llanw y swydd hon a chyflawni ei gwaith yn briodol; ac ni arbedodd unrhyw drafferth er cyrhaedd yr amcan hwn. Yr oedd yn neilldуol o ymdrechgar i gyrhaedd cymaint ag oedd yn bosibl o gymhwysder personol i'r swydd. Darllenai, myfyriai, a holai (ac yr oedd yn holwr neilldуol), a hyny er mwyn cyrhaedd cymaint ag oedd yn bosibl o'r wybodaeth a'r addfedrwydd barn oedd yn anghenrheidiol i'w swydd. Parhaodd hefyd i ymdrechu dadblygu ei natur foesol ac ysbrydol yn ogystal a diwyllio ei feddwl, o herwydd ystyriai fod yn anghenrheidiol i un fod yn ddyn da er mwyn bod yn ddyn cyflawn, ac yn ddyn cyflawn er mwyn bod yn gymhwys i lanw swydd diacon. Yr oedd yn neilldуol o ofalus am ei ymddygiadau a'i rodiad ymhob man ac ar bob adeg; a gwyliai drosto ei hun mor fanwl fel na arweiniai hyd yn nod ei nwydwylltedd naturiol (yr hwn oedd yn dra anhawdd ei lywodraethu ynddo) ef i weithredoedd ac ymddygiadau annheilwng o hono ei hun fel dyn a Christion. Yr oedd yn neilldуol o hapus mewn cymdeithas—yn wyneb-agored, siriol, ac addfwyn, —o herwydd dadblygu ac nid crebachu ei natur yr oedd ei grefydd; ac eto ymdrechai ymddwyn mewn cymdeithas yn deilwng o, a defnyddio cymdeithas i amcanion, dysgybl i Grist. Yn nghyflawniad gwaith ei swydd, drachefn, bu yn ymdrechgar ac yn dra llwyddiannus. Yr oedd yn neilldуol o adeiladol bob amser yn y Cyfarfod Eglwysig, o herwydd yr oedd ganddo afaeliad mor ddwfn ar wirioneddau y Bibl, a chanddynt hwythau afaeliad mor ddwfn arno yntau, fel yr oedd yr hyn oll a ddywedai yn y cyfarfodydd hyn yn wirioneddau ysgrythyrol wedi eu meddwl a'u teimlo. Ei arferiad yn wastadol ydoedd ymdrechu gweled a theimlo y gwirionedd ei hun cyn ei draethu i eraill, a myned âg adnodau a rhanau o'r Bibl at orsedd gras, er cael goleuni a gwres yr Ysbryd a'u rhoddodd i'w feddwl a'i fynwes ei hun; yr hyn a'i galluogai, y mae yn amlwg, i gyfranu i eraill bethau newydd a hen, a hyny gyda grym digonol i gyrhaedd eu meddyliau a'u calonau. Byddai ei bresennoldeb yn y cyfarfodydd eglwysig bob amser yn gaffaeliad mawr. O ran ei ymddygiadau a'i weithredoedd ymhlith a thuag at ei gydswyddogion a'i frodyr crefyddol, cymerai gyfrawnder, cariad, a daioni yn arweinwyr yn y cyffredin. Ymhlith ei gydswyddogion gwerthfawrogid ei onestrwydd, ei farn, ac yn enwedig ei zel, ac yr oeddynt oll bob amser at eu gwasanaeth; ond ni roddai un amser i fyny ei farn ei hun heb reswm digonol, a dadleuai yn benderfynol drosti nes y canfyddai ei fod yn cyfeiliorni; ond wedi ei argyhoeddi, ymwadai yn hollol â hi, a chydweithredai yn galonog â'i frodyr. Hefyd, yn ei gysylltiadau eglwysig ymdrechai weithredu cyfiawnder a llesoli yr oll o'r eglwys, yn ogystal a phob aelod yn neilldуol. Yr oedd yn dra llym mewn dysgyblaeth; ac mewn rhai amgylchiadau, fe allai, yn ormodol felly, fel y methai uno cyfiawnder a chariad yr Efengyl â'u gilydd; ond yr oedd ei amcan ef yn hyn oll yn gywir ac aruchel, gan yr ystyriai mai drwy hyn y sicrheid daioni penaf dyn yn unol â gogoniant Duw. Pan yn gweinyddu cerydd, llefarai ar adegau gydag awdurdod neilldуol; megys pan yr ysgubodd ymaith gydag un anerchiad ar fater neilldуol yn y cyfarfod eglwysig, yr holl *valentines* o ffenestri masnachdai Penmachno. Ond ymdrechai Hugh Davies ddyrchafu drwy dynerwch yn ogystal a gwella drwy gerydd. Y moddion a ddefnyddiai i hyn ydoedd, yn ychwanegol at y cyfarfod eglwysig, &c., ei ymddyddanion cyffredin; ymdrechai bob amser roddi cyfeiriad adeiladol, ac os yn bosibl, crefyddol iddynt. Llwyddai i raddau helaeth i wneyd hyn; a thystiolaeth pawb ydoedd ei fod yn feddiannol ar ddawn neilldуol i uno yr adeiladol a'r dyddorol mewn ymddyddan, a thrwy hyn, nid yn unig i osgoi llygru eraill, ond i brofi yn foddion i'w dyrchafu. Ni wyddys faint y daioni a gyflawnodd yn y modd hwn pan yn cerdded yn ol a blaen i'r chwarel, ac ar adegau eraill. Ond yn ychwanegol at hyn cysegrodd ei fywyd er hyrwyddo pob symudiad â'i amcan i ddyrchafu ei gyd-ddynion. Cyfodai hyn o'i gydymdeimlad dwfn â'i gyd-ddynion, ac â daioni ymhob ffurf arno; ac hefyd, o'i ymdeimlad â'i rwymedigaeth fel Cristion i amddiffyn a llesoli dyn, ac i hyrwyddo yr hyn sydd dda. Er ei fod yn Fethodist Calfinaidd zelog, yr oedd yn rhywbeth mwy—yr oedd yn ddyn ac yn Gristion; ac yr oedd Cristionogaeth, yn hytrach nag ysgaru, yn rhwymyn undeb rhyngddo â daioni ymhob ffurf arno. Yr oedd yn neilldуol o zelog dros Ddirwest; ymunai â phob cymdeithas a ffurfid er hyrwyddo yr achos Dirwestol, ac hyd yn nod pan na byddai cymdeithas, parhâi ei zel a'i ymdrech ef o'i blaid. Yr oedd adsain y geiriau, "Dos, ac na phecha mwyach," yn ei fynwes, ac yr oedd yn symbyliad gwastadol iddo i adfer a chadw ei gyd-ddynion oddiwrth y pechod yr oedd ef ei hun wedi bod yn euog o hono. Hefyd, yr oedd yn Rhyddfrydwr egwyddorol mewn gwleidyddiaeth; nid dilynydd ydoedd, ond yr oedd ganddo afaeliad ar egwyddorion Rhyddfrydiaeth, a hyny i raddau digonol i'w derbyn a'u cymhwyso fel ei eiddo ei hun. Bu o wasanaeth mawr i Ryddfrydiaeth yn yr ardal mewn cyfarfodydd, &c., a chyflawnodd y gwasanaeth hwn yn ewyllysgar a chalonog, a hyny am y rheswm yr ystyriai y gorphwysai yn gymaint dyledswydd arno ymdrechu dros yr hyn oedd gyfiawn a llesol mewn gwleidyddiaeth ag ydoedd ymdrechu dros foesoldeb a chrefydd y wlad. Ac fel Rhyddfrydwr yn ogystal ag am resymau eraill, dadleuai ac ymdrechai dros addysg, ynghyd a phobpeth a ystyriai yn effeithiol i ddyrchafu gwerin ei wlad. Dyrchafu ac nid darostwng Cymru oedd ei amcan.

Yn ei gystudd olaf, yr hwn a barhaodd am rai misoedd, yr hyn a fwynhäodd mewn bywyd oedd ei gynnaliaeth a'i ddyddanwch. Gwahaniaethai yn fawr o ran ei brofiad; ar rai adegau byddai yn dra digalon, ar adegau eraill yn hyderus iawn; ond er y gwahaniaethai yn y modd hwn, yr oedd yn ddiysgog yn ei ymddiriedaeth yn ei Arglwydd a'i Ddûw y gwnai yn dra rhagorol âg ef er ei holl annheilyngdod. Yr oedd ei feddylgarwch fel dyn, a'i gydwybodolrwydd fel Cristion yn gyfryw nas gallai agosâu i'r byd ysbrydol yn ddiofn; ond pan y daeth angeu yr oedd yn abl i'w gyfarch, "O angeu, pa le y mae dy golyn?" ac ar yr un pryd, i "ddiolch i Dduw, yr hwn a roddai iddo y fuddugoliaeth drwy Iesu Grist ei Arglwydd." Bu farw mewn tangnefedd Awst 25, 1886, yn 76 mlwydd oed, a chladdwyd ef Awst 28ain, yn mynwent Capel Salem, Penmachno, lle yr huna yn dawel hyd y boreu y cyflawnir yr hyn y dysgwyliai am dano, ac y gwnaeth bob ymdrech i'w ddwyn oddiamgylch yn ystod ei fywyd, sef, "nefoedd newydd a daear newydd, yn y rhai y mae cyfiawnder yn cartrefu."

Lloffion.

DIM OND UN BRENIN.

Nis gall dau haul fod mewn un ffurfafen, na dau frenin mewn un enaid. Pan y mae Crist yn cymeryd yr orsedd, y mae pechod yn ei gadael.—*Flavel.*

GOLEUNI YN Y DDWY GREADIGAETH.

Y MAE y greadigaeth newydd, megys yr oedd yr hen, yn dechreu mewn goleuni. Gwaith cyntaf yr Ysbryd yw agoryd y llygaid.—*Flavel.*

GALAR ANGHYMEDROL.

RHAID i ni alaru yn gymedrol, hyd yn nod am bechod, gydag un llygad ar ein pechodau, a'r llall ar drugaredd Duw yn Nghrist. Os ydyw y galar goreu i fod yn gymedrol, pa faint mwy pob galar arall? Y mae Duw yn cymeryd yn angharedig arnom os galarwn ormod am golli priod neu blentyn, neu gyfaill, neu am unrhyw groes yn y byd hwn; oblegid y mae hyny yn arwydd nad ydym yn tynu ein cysur o hono Ef.—*Sibbes.*

YR HYN OEDD GAN Y PREGETHWR Y TRO DIWEDDAF.

Yr oedd gweinidog unwaith yn arfer mynedyn fynych i bregethu i gapel bychan, ar brydnawn Sabboth, mewn cysylltiad â'r prif gapel oedd dan ei ofal. Elai yno weithiau heb ond ychydig iawn, neu ddim, parotoad; ac felly byddai y bregeth y troion hyny heb fawr o hŷd, lléd, na dyfnder. Aeth y pregethwr i'r capel hwn ryw brydnawn Sabboth, fel arferol; ac nid oedd yn sicr beth oedd ei destyn y tro o'r blaen y buasai yno. Crymodd ei ben dros astell y pulpud, a gofynodd yn nghlust y blaenor, "Beth oedd genyf y tro diweddaf y bûm yma?" A'r ateb a gafodd oedd: "Yn wir, syr, nid oedd genych *ddim!*"

HAELIONI GWEITHIWR.

PAN oedd capel presennol Machynlleth yn cael ei adeiladu, cynnelid cyfarfod lluosog a brwdfrydig un noson i draddodi anerchiadau er cynhyrfu yr eglwys a'r gynnulleidfa i ymdrech a haelioni, ac i gasglu addewidion tuag at y capel newydd. Yr oedd y gweinidog rhagorol, y diweddar Barch. J. Foulkes Jones, B.A., yn llywyddu y gweithrediadau; ac yn niwedd y cyfarfod aeth efe ac un neu ddau arall gydag ef trwy y gynnulleidfa i ofyn am addewidion. Wedi bod wrth y gwaith am beth amser, daethant at eisteddle lle yr oedd gŵr yn eistedd, tlodaidd yr olwg arno. Nid oedd ganddo ddim ond a ennillai wrth ei ddiwrnod gwaith, ac ennill bychan iawn ydoedd hwnw i berchen teulu, canys nid oedd y gŵr ond un yn gweithio i amaethwyr, o'r naill fferm i'r llall fel y byddai galw. Yr oedd yn byw yn y wlad, ond wedi dyfod i'r cyfarfod oddiar y dyddordeb a deimlai yn y gwaith. Adwaenai Mr. Jones ef fel gŵr crefyddol, a gwyddai am ei amgylchiadau cyffredin. Nid oedd yn hoffi gofyn iddo am ddim at y capel, ac eto ofnai ddolurio ei deimlad trwy ei basio; a meddyliodd y buasai yn foddhâd iddo ef gael cyfranu o bosibl swllt neu ddau. Pan y daeth i'r lle yr oedd efe yn eistedd, dywedodd wrtho: "Wel, Dafydd bach, nid ydym yn hoffi eich pasio chwithau. Fe allai eich bod chwithau yn teimlo y carech roddi rhyw *fricsen* yn yr adeilad yma." "Ydwyf," meddai yntau yn benderfynol. "Pa faint a gawn ni ei roddi ar gyfer eich enw, ynte, D—— R——?" "DEG PUNT," meddai. Tarawyd Mr. Jones a phawb drwy y capel â syndod. "Wel, wel," meddai Mr. Jones, "*wrth farn* y mae yn rhaid gweithredu mewn achos fel hyn, Dafydd bach, ac nid wrth deimlad!" "Gwnewch chwi a fynoch," meddai yntau, "os na chymerwch chwi hwynt, rhoddaf hwynt at ryw achos da arall; oblegid y mae yr arian yna *wedi eu cysegru at waith yr Arglwydd!*" Gwelwyd fod y gŵr o ddifrif; a bu raid rhoddi yr addewid i lawr gyda phob prysurdeb a llawenydd.

GEIRIAU Y DOETHION.

NID oes ond un o roddion Rhagluniaeth ag y mae pob dyn yn teimlo ei fod wedi cael ei lawn gyfran o honi—*doethineb.*

Nid oes fawr o bwys i'w roi ar y bobl sydd bob amser yn dyweyd beth a fuasent *hwy* yn ei wneyd, "pe buasent hwy yno." Ryw fodd neu gilydd, y mae yn dygwydd nad yw y bobl hyn byth "yno."

Yr hwn y mae calon Duw gydag ef, ni bydd yn ol o'i fraich. Y mae cariad Duw yn rhoddi ei holl briodoliaethau eraill ar waith.

Y mae y fendith yn dyfod i'r tŷ yn fynych trwy ddrws y cefn, tra yr ydym ni yn dysgwyl am dani trwy ddrws y *front.* Felly gall y cymwynaswr yr ydym yn dysgwyl am dano fod yn y tŷ, a ninnau heb wybod.

Nid yw calon falch na mynydd uchel byth yn ffrwythlon.

Y mae dau ddosbarth na byddwn bron byth yn eu gwrth-ddywedyd—y rhai yr ydym yn eu caru, a'r rhai yr ydym yn eu dirmygu.

Un o'r pethau anhawddaf yw perswadio dynion i fod yn ddedwydd.

Y mae yr hwn sydd yn gofidio cyn bod eisieu, yn gofidio mwy nag sydd eisieu.

Nid yw athrylith heb grefydd ond megys lamp y tu allan i balas. Gall oleuo ychydig i'r rhai a êl heibio, tra y mae y rhai sydd oddifewn yn eistedd mewn tywyllwch.

Cronicl Cenadol.

Brymiau Rhasia.

TIRIOGAETH NEWYDD.

LLYTHYR ODDIWRTH Y PARCH. C. L. STEPHENS, DYDDIEDIG NORMAI, MAWRTH 4YDD, 1839.

ER pan ysgrifenais atoch ddiweddaf, bum am dair wythnos ar daith arall. Daeth Mrs. Stephens gyda mi, trwy Nongum a Rambrai, can belled a Nongstoin, y pentref pellaf yn y dosbarth hwn sydd âg ysgol yn ido, ac y mae, hyd y ffordd arferol, ddeugain milldir oddiyma. Yn Nongum bedyddiwyd pump, ac yn Rambrai derbyniwyd tri fel ymgeiswyr. Arosasom dair noswaith yn Nongum a dwy yn Rambrai, a chredwn y bydd ein harosiad, —yn enwedig gan fod Mrs. Stephens gyda mi er mwyn cael y menywod i deimlo dyddordeb yn ein hamcan, —yn foddion i hyrwyddo y gwaith yn y dyfodol. Yn Nongstoin cyfarfyddodd Mr. Williams a rhai o Gristionogion Shella, â ni, a threuliasom Sabboth gyda'n gilydd. Ddydd Llun dychwelodd Mrs. Stephens yn ol gyda rhai a ddaetheat gyda ni o Normai, a chyrhaeddodd yn ol yma mewn tri diwrnod. Aethum i ymlaen gyda Mr. Williams ac eraill er mwyn gweled a allem wneyd rhywbeth gyda'n gilydd i agoryd y

RI LYNGAM.*

Gyda gradd o ofn a dychryn y cychwynasom, gan fod eto a rhoddiadau am bresennoldeb "dyn-fwytäwr" yn y parthau trwy y rhai yr oeddym i fyned. Ar ein ffordd cyrhaeddasom i bentref lle yr oedd, ddau fis yn flaenorol, wedi cymeryd dyn yn gynnar y bore o ganol ei deulu, a'r nos cyn i ni gyrhaeddi, cymerwyd y moch ymaith o'r lle gan yr un creadur, neu un arall, fel y mae yn fwy tebyg, yn gymaint ag nad ydyw "dyn-fwytäwyr" yn ymddangostwng i gymeryd y creaduriaid israddol. Ond ni welsom ni ddim oddieithr ôl troed y fath greadur, a dychwelasom oll, mi gredaf, nid yn unig heb archoll o unrhyw fath, ond mewn iechyd rhagorol hefyd. Nid bendith fechan ydyw hon, gan fod i'r wlad air drwg am dwymyn.

Prin y gellir dyweyd eto ein bod yn gwybod nemawr am y wlad, oblegid nis gallasom fyned i'w chanolbarth. Nid oes un ammheuaeth fod y bobl yn perthyn i'r Khasiaid, oblegid y mae y rhan fwyaf o'u geiriau yr un fath neu yn debyg, er fod yn anhawdd i, hyd yn nod i frodor, eu deall yn siarad. Ymddengys fod eu pentrefi gryn bellder oddiwrth eu gilydd, ac fel rhe ol y maent yn bur fychain, heb fod yn cynnwys mwy nag o wyth i ddeuddeg o dai. Cawsom y bobl yn barod iawn i roddi gwrandawiad i ni, ac hyd yn nod i ddechreu dysgu y wyddor tra yr oeddym ni yno. Bwriadwn geisio eu cymhell i anfon bachgen neu ddau yma, neu i Shella, ac yna dychwelyd yn ol i'w pentrefi eu hunain, fel y ffordd fwyaf ymarferol o roddi athrawon iddynt. Addawyd i ni fachgen tua phymtheg oed i fyned i Shella, ond y bore yr oeddym yn cychwyn nid oedd y bachgen i'w gael, ac ofnwn i'w rieni ei rwystro i ddyfod. Ofnwyf nas gallwn wneyd dim pellach yn y parthau hyn hyd y gauaf nesaf, pan y gobeithiwn allu myned i'r wlad o gyfeiriad arall. Yn y cyfamser dywedwyd wrth yr athraw yn Nongstoin am wneyd yr oll a all i gynnorthwyo unrhyw rai a ddeuant ato. Yr oedd ef gyda ni ar y daith hon.

Bu farw gwraig yr Efengylydd U Sati ddydd Iau diweddaf; gadawodd chwech o blant, rhai o honynt yn ieuainc iawn. Teimlwn yn fawr drosto ef a hwythau. Yr ydoedd hi yn wraig dda ac yn Gristion cywir, ac y mae y golled felly yn fawr i'r rhai bychain hyn a fuasent yn cael eu dwyn i fyny dan ei gofal.

* Rhan o'r wlad i'r Gorllewin o ddosbarth Shella, lle nad oes dim gwaith cenadol hyd yma wedi ei ddechreu. Fe gofia rhai o'n darllenwyr i Mr. Stephens ar adeg flaenorol farnu mai gwell oedd iddo ddychwelyd yn ol o herwydd y son oedd ar led am y difrod a wnaed gan "ddyn-fwytäwr" (teigr wedi archwaethu cnawd dynol) yn y cymydogaethau hyn.

DOSBARTH SHELLA.

RHANAU O LYTHYR ODDIWRTH Y PARCH. W. WILLIAMS.

MEWN llythyr dyddiedig Mawrth 18fed, ar ol rhoddi hanes y daith ymha un y cyfarfyddodd Mr. Stephens yn Nongstoin, dywed Mr. Williams, "Dydd Llun daethom yn ein hol i gyfeiriad codiad haul, a chyrhaeddwyd pentref bychan o fewn dwy filldir i Elanpore. Taith faith a blinderus oedd hon, a daeth i'm rhan i ac un arall golli y ffordd, a chawsom ein hunain mewn *jungle* o'r fath waethaf, ac aethum i oddiyno yn bur flinedig, ac wedi rhwygo fy het a'm dillad. Ni fum erioed yn y fath helbul o'r blaen. Da i mi na ddaeth y *tiger* yn agos, fe fuasai ar ben arnaf. Cael ein camarwain gan lwybrau creaduriaid gwylltion a wnaethom. Y mae yma ddigon o honynt yn y cyfeiriad hwn, ac yn enwedig yn Ri Lyngam. Yr oedd olion traed y *tiger*, yr elephantiaid gwylltion, a'r *reindeer* yn ddiweddar y ffordd y buom.

"O Elampore aethpwyd i fyny y Bryniau am Langrin, gwaith diwrnod, lle y mae ysgol yn perthyn i'r dosbarth hwn. Yno gwahanwyd, aeth Mr. Stephens i gyfeiriad Nongrymai, ac fe aethom ninnau i gyfeiriad Shella, trwy bentrefi yn Maram. Yn Nonguah bedyddiwyd dau ar bymtheg, braidd yr oll mewn oed. Chwi synech y cyfnewidiad sydd wedi cymeryd lle yn y pentref hwn mewn llai o amser na blwyddyn. Pan y talwyd ymweliad am y tro cyntaf â'r pentref hwn yn mis Mawrth, 1888, derbyniad digon oer a gafwyd y noson gyntaf, ac yr oedd y mwyafrif o'r pentrefwyr o dau ddylanwad y diodydd meddwol. Erbyn hyn yr oedd yno ddau ar bym-

theg o Gristionogion i'n derbyn heblaw yr athraw a'i deulu, a derbyniad yn iawn a gawsom; anrhegwyd ni â myn gafr i fod yn llawen gyda'n cyfeillion. Y maent wedi adeiladu tŷ cysurus i'r athraw, ac hefyd ysgoldŷ hardd yn nghanol y pentref. Y mae un o'r offeiriaid wedi dyfod yn Gristion. Cawsom ein boddloni yn fawr yma gan frwdfrydedd y Cristionogion, a'u symlrwydd, ynghyd a'u gonestrwydd, fel yr oeddynt yn dyfod i'r golwg yn eu hymadroddion a'u gweddïau Dim ammheuaeth yn cael ei ddangos yn mharodrwydd Duw i wrando eu cri. Cawsom amryw engreifftiau o hyn. Y Nefoedd a'u cadwo yn yr un ysbryd, ac a gadwo i ffwrdd oddiwrthynt ysbryd ammheuaeth, yr hwn sydd yn wenwyn pur yn myned o dan wraidd y bywyd ysbrydol.

Oddiyno daethpwyd i Rangthong, lle y treuliwyd Sabbath. Derbyniwyd i'r eglwys yno dri ar ddeg, ac fe gafodd naw eu beddyddio. Y maent yn adeiladu capel yno yn bresennol, ac y mae yn ymddangos y bydd yn adeilad tlws pan y gorphenir ef. Y maent wedi bod wrthi yn ddiwyd iawn yn casglu tuag ato.

Dydd Llun daethpwyd i Mawsynram, tua 32 o filldiroedd ar draed, a dydd Mawrth daethpwyd i lawr i Shella, wedi bod i ffwrdd am dri diwrnod ar hugain.

Sylhet.

Rhanau o Lythyrau oddiwrth y Parch. J. Pengwern Jones.

Mawrth yr 8fed, ysgrifena Mr. Jones fod y tir y bwriedid ei brynu i fod yn orsaf genadol wedi cael ei wrthod. "Fel y dywedais wrthych o'r blaen, yr oedd pobpeth wedi ei drefnu, oddieithr arwyddo y Gweithredoedd i'w drosglwyddo a thalu am dano. Wedi i'r Gweithredoedd gael eu tynu allan, gwrthododd y perchenog eu harwyddo. Byddwch, fe allai, yn synu pa fodd y gallai omedd. Credaf fy mod yn gwybod y rheswm. Mae cenadwr Hindwaidd wedi bod yma yn pregethu, ac efe sydd wedi dylanwadu arno i beidio rhoddi i ni y tir. Yr oedd y cenadwr Hindwaidd hwn yn flaenorol wedi gwahardd rhieni i anfon eu plant i'n hysgol, ac mewn canlyniad collasom bump o enethod o'r ysgol. Gwaharddodd i'r bobl hefyd ddyfod i wrando fy Narlithiau. Nid yw hyn wedi cael yr un effaith; o leiaf nid yw y cynnulleidfaoedd ddim yn llai er adeg y gwaharddiad. Mae hefyd wedi rhoddi gorchymyn pendant na byddo iddynt ganiatau i Miss John fynediad i'w tai, a'r canlyniad ydyw fod yr unig dŷ yr arferai Miss John ymweled âg ef yn wythnosol wedi cael ei gau rhagddi. Daeth y cenadwr a pherchenog y tŷ yn bur gyfeillgar, ac nid oes genyf un ammheuaeth iddo ddylanwadu arno. Dywedai yn gyhoeddus na ddylid rhoddi cefnogaeth i Gristionogion mewn unrhyw ffordd. Mae perchenog y tir yn gybydd mawr, a dichon o dipyn i beth y bydd i'w gariad at arian orbwyso ei ragfarn." Mawrth 14eg, ysgrifena Mr. Jones drachefn, "Bydd yn ddrwg genych ddeall fod y *cholera* eto yn difrodi yn Sylhet. Mae wedi bod yn y pentrefi oddiamgylch am amryw wythnosau, ac y mae amryw farwolaethau wedi cymeryd lle mewn gwahanol ranau o'r dref yn ystod yr wythnosau diweddaf. Dydd Gwener diweddaf torodd allan yn nghymydogaeth ein capel mewn dull ofnadwy, ac y mae yn awr wedi ymledu trwy y dref, gan dori ugeiniau i lawr bob dydd. Tra yr oeddym ni yn y gwasanaeth ar y Sabbath, cludent y cleifion yn barhaus i'r Ysbytty, gan fyned heibio drws y capel; ac yn ystod y gwasanaeth hwyrol llosgid y cyrff yn ymyl ein capel. Mae y lle mewn cyffro. Yr ydym wedi cau yr ysgol, gan fod y rhieni yn ofni anfon eu plant. Tybiwn y buaswn yn ofnus ar y fath adeg, ond da genyt ddyweyd nad yw felly. Mae y teimlad ein bod yn llaw yr Arglwydd wedi dyfod droswyf yn gryfach nag erioed. Yr wyf yn Ei law, a gall Ef wneyd âmi fel y gwel yn oreu. Hyfryd iawn ydyw teimlo fel hyn; myned allan o'r tŷ heb wybod a ddychwelaf byth yn ol, ac eto teimlo yn berffaith dawel, am mai ein Tad sydd yn goruwch-reoli y cyfan. Nid wyf yn teimlo y dueddleiaf i redeg ymaith oddiwrth fy nyledswydd, nac i'w hesgeuluso mewn un modd. Yr wyf yn arfer pob gwyliadwriaeth, ac yr wyf yn awr wedi astudio y mater hyd eithaf fy ngallu, ond eto gallaf fyned i'r cyfarfodydd trwy y cyfan heb ofn, a chyfarfodydd gogoneddus ydym yn gael. Cawsom wasanaeth y Cymundeb neithiwr, ac yr oedd yn nefoedd fechan ar y ddaear; teimlad o ddiolchgarwch i Dduw am ei amddiffyn yn llenwi ein calonau, ac ar yr un pryd ymostyngiad i'w ewyllys. Mae Gour Babu yn wel iawn dan dwymyn; mae wedi bod dani er dydd Llun heb ddysbeidiant; yr ydym yn dechreu teimlo yn bryderus yn ei gylch. A gaf fi ofyn i chwi weddïo drosom, ac yn enwedig dros y lle hwn, ar i'r oruchwyliaeth hon o eiddo Duw fod yn fendith i'r gymydogaeth?

Brynian Jaintia.

TAITH TRWY DDOSBARTH SHANGPOONG.

Llythyr oddiwrth y Parch. R. Evans.

Shangpoong, Chwefror 14eg, 1889.

Yr ail wythnos yn Ionawr cychwynais ar fy nheithiau, y rhai a barhasant am o dair wythnos i fis. Bum yn yr holl bentrefi ag y mae Cristionogion ynddynt; a bum mewn amryw nad oes Gristionogion ynddynt, yn ceisio dal baner yr efengyl i fyny am y tro cyntaf erioed. Mae pleser neillduol mewn myned i bentref am y tro cyntaf, pa dderbyniad bynag a gawn ynddo. Teimlwn yn falch os bydd rhywun, neu rywrai, yn tueddu i'dderbyn ein cenadwri; a byddwn yn cael rhyw hyfrydwch hyd yn nod wrth gael derbyniad oer-

aidd, a gweled drysau y tai yn cael eu cau yn eiu gwynebau, am mai fel gweision Crist y byddwn yn cael ymddwyn felly tuag atom. Yn ystod fy nheithiau diweddaf, pa fodd bynag, yr achos amlaf o bleser oedd gweled y deyrnas yn llwyddo.

Y lle cyntaf i ni fyned iddo oedd

MAWKAIEW.

Mae yma leihad yn nifer y gwrandawyr, yr eglwys a'r ysgol ddyddiol; ond yr achos o hyny ydyw fod dau deulu yn peidio cael eu cyfrif, fel cosb arnynt am drosedd oeddynt wedi gyflawni. Mae y rhai hyny yn awr yn gofyn maddeuant a chael eu derbyn yn ol. Ni bu golwg mwy llewyrchus ar yr achos yma er's naw neu ddeng mlynedd, os bu erioed, nag sydd arno yn awr. Yr oeddwn yno ar nos Fercher, a chawsom gyfarfod eglwysig. Daeth y Cristionogion ynghyd yn gryno; ac yr oedd golwg siriol a chynhes arnynt. Maent wedi casglu tua 200 *rupees* yno, gyda'r amcan o adeiladu capel. Maent wedi bod wrthi am rai blynyddoedd, a dysgwyliant wneyd tua 100 *rupees* eto, cyn gofyn am gymhorth o leoedd eraill. Mae y bobl ymhob man yn dechreu myned rhagddynt yn y cyfeiriad yma, sef peidio boddloni nes cael tŷ cadarn a destlus i addoli Duw ynddo. Amser yn ol, nid oedd gan y Cristionogion nemawr ddim uchelgais tuag at hyn. Ni bydd y wlad yn hir heb fod capel ac ysgoldŷ ymhob pentref Cristionogol. Yn awr, y mae yr ysgoldŷ yn gwasanaethu y ddau bwrpas.

Yr ail ddiwrnod yr oeddwn yno, daeth Dolloi a phenaethiaid Ralliang yno i farnu achos oedd rhyngddynt â'r offeiriad. Yr oedd y Cristionogion wedi cau coedwig i mewn, drwy wneyd math o lwybr o'i hamgylch, er mwyn cael coed tân a choed adeiladu at wasanaeth eu pentref. Nid oedd y tir na'r coed yn perthyn i neb yn neilldiol, felly eiddo y llywodraeth ydoedd. Ac y mae y llywodraeth yn caniatau i'r pentrefi wneyd hyn. Mor gynted ag y deallodd yr offeiriad hyn, gwnaeth yntau lwybr o amgylch rhan o'r goedwig, gan ei hawlio fel coedwig gysegredig. Daeth eraill hefyd ymlaen i hawlio rhanau eraill fel eu heiddo personol, pryd nad oedd gan y naill na'r llall, mewn gwirionedd, hawl yn y byd i un ran o hono. Mae gweinyddiad barn a chyfiawnder yn beth mor bydredig yn y wlad yma, fel y gwyddai pawb ymlaen llaw pa beth fyddai y dyfarniad. Yr oedd gwraig y Dolloi yn chwaer i'r offeiriad, a chydag ef y trigai; ac yr oedd hi yn y llys barn drwy y dydd yn rhanu diod gadarn i'w gŵr ac eraill, nes mai prin y gwyddent pa beth oeddynt yn wneyd. Gwyddem oll y byddai y Dolloi yn sicr o roddi rhan yr offeiriad iddo; a gwyddem hefyd y byddai yn sicr o wneyd rhywbeth er ceisio boddloni, i ryw raddau, y Cristionogion, gan mai hwy oedd y ddau allu mwyaf pwysig yn yr achos. Condemniodd y rhai oeddynt yn hawlio rhan bersonol o'r lle, heb gymaint a gwneyd ymchwiliad o fath yn y byd i'r achos, pa un bynag a oedd ganddynt hawl i'r lle ai peidio Dyna ddarlun gonest o'r achos, a darlun o weinyddiad barn yn gyffredinol yn y wlad, ymhlith brodorion eilunaddolgar.

KYRWEN.

Wedi arholi yr ysgol ddyddiol, a settlo dau achos ymhlith y Cristionogion, cychwynasom am Kyrwen, sef pentref Cristionogol o fewn ychydig filltiroedd i Mawkaiew. Mae yma un tŷ da, ac yn cael ei gadw yn lân, sef tŷ U Kypa Ka Kongka, ac yr oedd un ystafell wedi cael ei pharotoi â matiau i mi. Derbyniwyd ni yn siriol a charedig gan y frawdoliaeth, a chynnaliasom gyfarfod i bregethu a chyfarfod eglwysig gyda hwy. Mae golwg siriol ar yr achos yma, yr eglwys a'r gynnulleidfa wedi cynnyddu. Yr oedd yr ysgol ddyddiol yn llai, am fod plant y pentref (paganiaid) wedi blino dyfod iddi. Mae bi yn awr, pa fodd bynag, yn fwy nag oedd o'r blaen. Daeth dau deulu atynt yn ystod y flwyddyn, ymha rai y mae nifer da o blant, fel y mae gobaith y ceidw yr ysgol i fyny. Mae yma amryw hefyd yn awyddus am fod yn gyflawn aelodau, ac yn gymhwys i gael eu derbyn yn fuan. Mae y gŵr yr oeddwn yn cysgu yn ei dŷ yn ddyn â thipyn o bwysau ynddo, ac yn cymeryd dyddordeb mawr yn holl amgylchiadau yr achos. Mae hwn yn bentref cyfleus iawn i'r Cristionogion weithio, gan fod dau bentref yn agos atynt, lle y gallant fyned ar bob adeg. Yr hyn sydd yn gwneyd gweithio yn aml yn anhawdd yn y wlad yma ydyw nentydd dyfnion a bryniau uchel. Bydd dau bentref weithiau yn ymddangos bron mor agos at eu gilydd a thafliad careg; ond bydd raid disgyn yn isel i nant ddofn, ac esgyn i fyny ochr bryn serth, drwy goedwig wleb a thywyll, i fyned o'r naill fan i'r llall. Yr hyn a fyddai i aderyn oddeutu chwarter milldir, fyddai i ddyn gymaint a milldir neu ddwy. Y mae un llanc, yr hwn oedd ar y llithrigfa pan oeddwn i yno, erbyn hyn wedi cael ei dori o'r eglwys. Er hyny golwg llwyddo sydd ar y gwaith yn y pentref hwn. Wedi rhoddi meddyginiaeth i'r cleifion, a chanu yn iach â'r cyfeillion, ymadawsom am

KONSHNONG.

Aethom drwy amryw bentrefi ar ein ffordd. Canasom a phregethasom ymhob un o honynt. Gan nad oes yn Konshnong ond un tŷ Cristionogol, a'i fod yn lled fychan, rhoddais i fyny mewn tŷ gwellt ar ochr y ffordd er mwyn cael siarad â'r bobl wrth fyned at eu gwaith drannoeth. Nid oes gan bobl Cymru nemawr syniad am dŷ fel hwn. Gwellt yw ei furiau, gwellt ei dô, a gwellt wedi ei daenu ar y ddaear er cadw y traed yn gynhes. Yr oedd y noson yr oeddym yma yn oer a gwyntog. Yr oedd moch neu fwystfilod bychain wedi bod yn gwthio eu hunain drwy y muriau, ac adar drwy y tô, nes yr oedd yn lle pur anghymhwys i gysgu ynddo. Wedi gwneyd pob ymdrech oedd yn bosibl o dan yr amgylchiadau i gau y tyllau, rhuthrai y gwynt i mewn nes

diffodd y ganwyll bron bob mynyd. Daeth nifer dda o bobl y pentref ynghyd i'r ysgoldy, a chawsom gyfarfod maith gyda hwy. Yr oedd y gynnulleidfa reolaidd ar y Sabbath yn llai na'r flwyddyn o'r blaen, gan fod rhai wedi symud i Jewksiar. Derbyniwyd tri i'r eglwys ar brawf pan oeddwn yno; felly y mae yno eglwys i Grist wedi ei sefydlu. Mae hi yn fechan iawn, mae'n wir, mewn pentref mor fawr; ond hedyn mwstard sydd yn sicr o dyfu. "Onid bechan yw?" Ië, ond y mae yr amser yn dyfod pan fydd y "fechan wedi myned yn fil, a'r wael yn genedl gref." "Ysgub y blaenffrwyth" ydyw, fel arwydd diymwad y cesglir yr holl faes i mewn. Mae genym ninnau ffydd "fel gronyn o had mwstard," ffydd yn ngallu Duw drwy yr efengyl i newid gwyneb yr holl wlad. Boreu drannoeth cawsom gynnulleidfa o ddynion, y rhai oeddynt ar eu ffordd i'w meusydd, a phregethasom yr Efengyl iddynt. Oddiyma aethom i

JEWKSIAR,

lle y treuliasom y Sabbath. Dyma ydyw pentref unedig Cristionogion Syrlei a Sohpai. Cyrhaeddasom yno yn gynnar, a threuliais y rhan fwyaf o'r prydnawn mewn ymweled â'r Cristionogion yn eu tai newyddion. Ymddangosent oll mewn ysbryd rhagorol yn eu pentref newydd. Yr oedd symud eu tai wedi costio llafur mawr iddynt, gan fod o Sohpai yno tua thair milltir o bellder. Derbyniwyd 12 o'r newydd i'r Eglwys ar brawf, a 3 yn gyflawn aelodau, y rhai a fedyddiwyd. Cawsom gyfarfod i gydgyfranogi o Swper yr Arglwydd, a chyfarfod arall pryd y pregethodd U Kypa Ka Subon, o Mawkaiew. Treuliais y gweddill o'r hwyr gyda nifer o'r dynion mwyaf gwybodus. Yr oedd chwech o wrandawyr a thri o aelodau ar brawf wedi gadael Cristionogaeth yn ystod y flwyddyn, am fod ei rheolau yn rhy gyfyng gan ddynt. "Cul yw y porth, a chyfyng yw y ffordd sydd yn arwain i'r bywyd, ac ychydig yw y rhai sydd yn ei chael hi." Oddigerth yr uchod, yr oedd y ddau bentref ynghyd yr un nifer ag oedd y ddau ar wahan. Mae yn ymddangos fod Cristionogaeth yn dechreu ennill dylanwad a nerth yn y rhanau yma o'r wlad. Oddiyma aethom i

MAWLYBER.

Nid oedd genym ffordd mor arw i fyned i'r pentref hwn o Jewksïar, ag oedd genym flynyddau yn ol o Sohpai. Nid aethom drwy ddim a allem alw yn *jungle;* ond yr oedd y ffordd yn lled faith am ei bod yn gam. Wrth fyned, yr oeddym yn myned drwy bentref bychan o'r enw Pynding, yn agos i Wmsalait, yn yr hwn y mae 11 o bersonau wedi cofleidio Cristionogaeth. Adwaenwn un o'r arweinwyr yn dda. Un o Shangpoong ydyw. Yr oedd yn yfwr mawr wyth neu naw mlynedd yn ol. Y pryd hwnw bum yn gwellhau llosg a gafodd drwy syrthio i'r tân mewn tŷ wrth ymladd âg un arall o Shangpoong. Y pryd hwnw yr oedd yn ddyn cryf a heinyf, ond erbyn hyn y mae *rheumatism*, yn cael ei achlysuro gan ei fywyd direol, wedi ei anurddo. Wrth edrych arno, yr oedd yn dda genym feddwl fod yr Efengyl yn derbyn pawb ar eu hedifeirwch. Treuliasom ychydig o amser yn y pentref hwn i geisio eu dysgu yn ffordd yr Efengyl.

Daeth nifer o Gristionogion Mawlyber i'n cyfarfod, a derbyniasant ni yn garedig. Wedi gorphwyso cawsom gyfarfod, pryd y pregethodd U Kypa U Jeremiah o Mawkaiew, a minnau; ac ar ol hyny casglasom yr ystadegau am y flwyddyn. Bore drannoeth, wedi rhoddi meddyginiaeth i nifer mawr o gleifion, cynnaliasom gyfarfod eglwysig, pryd y derbyniwyd pedwar yn gyflawn aelodau. Ar ol gorphen hyny, agorwyd y drysau i bawb, pryd y bedyddiwyd y pedwar uchod, ac y cawsom gyfranogi o Swper yr Arglwydd. Mae y pentref hwn yn ddiffygiol o *ddynion*, hyny ydyw, o ddynion o ddylanwad fel arweinwyr yr Achos. Mae yn bur debyg fod hyn yn achos mawr o'r lleihad yno yn ystod y flwyddyn. Dywedent fod rhai, ar ol bod gyda'r Cristionogion am ychydig o fisoedd, wedi myned yn ol, am fod y pentref ymhell oddiwrth eu meusydd. Mae yn ddigon posibl mai ychydig oedd y bwyd ysbrydol oeddynt yn ei gael tuag at eu cadarnhau a'u cryfhau yn yr Efengyl. Mae anghenrheidrwydd am ofal mawr ar y rhai sydd yn troi atom; ac os na chânt ef, nid oes ond dysgwyl iddynt, yn eu hanwybodaeth, syrthio yn ol. Dyma y pentref oedd yn ymddangos i mi isaf ar y rhestr y tro hwn; ond yr wyf yn ofni fy mod wedi dyweyd mwy am ei ddrwg na'i ddaioni. Mae baner yr Efengyl yn cael ei dal i fyny, er yn lled fusgrell, ac y mae yr hen Gristionogion yn dal eu tir, ac yn cynnyddu mewn gwybodaeth a phrofiad. Eu bai ydyw peidio dysgu ac egwyddori eu cymydogion ar ol eu cael at Gristionogaeth. Byddai dyn â *blaen* arno fel athraw yn debyg o wneyd, i raddau mawr, y diffyg i fyny; ond anhawdd yw cael un cymhwys.

(I'w barhâu.)

Derbynir rhoddion at y Genadaeth gan y Trysorydd, DAVID HUGHES, ESQ., J.P., 4, *William Moult Street, Liverpool.*

☞ Gellir talu unrhyw swm mewn unrhyw gangen o'r *North and South Wales Bank, to the credit of Mr. David Hughes, Treasurer of the Welsh C. M. Foreign Missionary Society.* Gofaler am i bob *cheque* neu *Postal Order* a anfonir fod yn "crossed."

Derbynir rhoddion at Drysorfa Gweddwon ac Amddifaid Cenadon, &c., gan J. HERBERT LEWIS, ESQ., *Central Buildings, North John Street, Liverpool.*

Pob llythyrau yn achos y Gymdeithas i'w cyfeirio i'r Ysgrifenydd, *The Rev.* JOSIAH THOMAS, M.A., 28, *Breckfield Road South, Liverpool.*

P. M. EVANS AND SON, ARGRAFFWYR, TREFFYNNON.